OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 206 (Cy. 48)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *27 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**2**) a mesurau sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffiniau(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf i weithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion(**4**), ac at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a grybwyllir yn rheoliad 3(1), gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac mae hynny'n cael effaith o'r diwrnod ymadael, ond wedi ei arbed gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan adran 1A o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1)). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2010/2690.

(**3**) O.S. 2003/2901, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd paragraff 28(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r dynodiad yn effeithiol fe pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.

(**4**) OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rheoliadau wedi eu addasu (8.4.2021) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/302), rhlau. 1(1), **3(1)-(3)** (ynghyd â rhl. 3(4))

# RHAN 1

## Rhagymadrodd

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 27 Mawrth 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Dehongli: cyffredinol

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arolygydd iechyd planhigion" ("*plant health inspector*") yw swyddog iechyd planhigion swyddogol a benodir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yw Gweinidogion Cymru, ac mae i'w ddehongli yn unol â rheoliad 6;

ystyr "Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC" ("*Council Directive 2000/29/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ynghylch mesurau i ddiogelu rhag cyflwyno i'r Gymuned organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion a rhag eu lledaenu yn y Gymuned(**5**);

ystyr "Cymru" ("*Wales*") yw ardal gyfunol y siroedd a'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru (gweler Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**));

ystyr "dyddiad cychwyn" ("*commencement date*") yw'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

ystyr "eitem a reoleiddir" ("*regulated item*") yw—

(a) unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y mae un **[**[F1]o'r rheolau iechyd planhigion**]** yn gymwys iddynt, heblaw unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall sy'n rhan o lwyth a reolir, neu

(b) pla planhigion a reolir;

ystyr "Gorchymyn 2005" ("*the 2005 Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005(**7**);

(**5**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/523 (OJ Rhif L 86, 28.3.2019, t. 41).
(**6**) 1972 p. 70.
(**7**) O.S. 2005/2517, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90). Ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.

ystyr "Gorchymyn 2018" ("*the 2018 Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**8**);

**[**[F2]mae i "label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon" yr ystyr a roddir i "Northern Ireland plant health label" yn rheoliad 2 o Reoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023**]**

ystyr "llwyth a reolir" ("*controlled consignment*") yw llwyth sy'n cynnwys unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall—

(a) na chaniateir dod â hwy i **[**[F3]Brydain Fawr**]** heb dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio yn unol â'r canlynol—

(i) Erthygl 72 neu 74 **[**[F4]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]** ,

(ii) [F5]...

(iii) unrhyw un arall **[**[F6]o'r rheolau iechyd planhigion**]** , heblaw Erthygl 73 **[**[F6]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, neu

(b) a allforiwyd o **[**[F3]Brydain Fawr**]** i drydedd wlad ac sy'n dychwelyd i **[**[F3]Brydain Fawr**]** ar ôl i'r drydedd wlad honno wrthod mynediad i'r wlad iddynt;

[F7]...

**[**[F8]ystyr "pasbort planhigion" ("*plant passport*") yw pasbort sy'n basbort planhigion y DU neu'n basbort planhigion arall a ganiateir;**]**

ystyr "pla planhigion" ("*plant pest*") yw pla a fewn yr ystyr a roddir yn Erthygl 1(1) a (2) **[**[F9]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]**;

ystyr "pla planhigion a reolir" ("*controlled plant pest*") yw—

(a) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodiad 2, **[**[F10]2A,**]** 3 neu 4 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol,

(b) [F11]...

(c) pla planhigion sy'n destun unrhyw un arall **[**[F12]o'r rheolau iechyd planhigion**][**[F13], gan gynnwys pla planhigion cwarantin posibl o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 21(3)**]**;

**[**[F14]ystyr "rheol iechyd planhigion" ("*plant health rule*") yw rheol o'r fath a grybwyllir yn Erthygl 1(2)(g) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;**]**

ystyr "Rheoliad Amodau Ffytoiechydol" ("*Phytosanitary Conditions Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf i weithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion(**9**);

**[**[F14]ystyr "Rheoliad Iechyd Planhigion" ("*Plant Health Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau gwarchod rhag plâu planhigion(**5**);**]**

ystyr "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" ("*EU Plant Health Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion **[**[F15]fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE**]**(**10**);

ystyr "Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" ("*Official Controls Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau

(**8**) O.S. 2018/1064; ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**9**) OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1.
(**5**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/523 (OJ Rhif L 86, 28.3.2019, t. 41).
(**10**) OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4, a ddiwygiwyd gan Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1).

ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion, i'r graddau y mae'n gymwys **[**[F16]i'r rheolau iechyd planhigion**]**;

ystyr "SRFFf 15" ("*ISPM 15*") yw'r Safon Ryngwladol ar Fesurau Ffytoiechydol Rhif 15 dyddiedig Mawrth 2002 ynghylch Canllawiau ynglŷn â rheoleiddio deunydd pecynnu pren mewn masnach ryngwladol, a baratowyd gan Ysgrifenyddiaeth y Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Planhigion a sefydlwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig(**11**);

[F17]...

(2) Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i eiriau ac ymadroddion sydd heb eu diffinio yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r geiriau ac ymadroddion Saesneg cyfatebol yn ymddangos yn **[**[F18]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd gan y geiriau ac ymadroddion Saesneg cyfatebol yn **[**[F18]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (yn ôl y digwydd).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(ix)**

**F2** Geiriau yn rhl. 2 wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(2)**

**F3** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(i)(aa)**

**F4** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(i)(bb)**

**F5** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(i)(cc)**

**F6** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(i)(dd)**

**F7** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(iii)**

**F8** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu mewnosod (4.3.2021) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(2)**

**F9** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(viii)**

**F10** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(ii)(aa)**

**F11** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(ii)(bb)**

**F12** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(ii)(cc)**

**F13** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu mewnosod (13.11.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(2)**

**F14** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(vii)**

**F15** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(iv)**

(**11**) Ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Planhigion, AGPP-FAO, Viale Delle Terme di Caracalla, 00153, Rhufain, Yr Eidal ac yn https://www.ippc.int/int.

**F16** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(vi)**
**F17** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(a)(v)**
**F18** Gair yn rhl. 2(2) wedi ei amnewid (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Dehongli: offerynnau'r UE ynglŷn ag iechyd planhigion

[F19]**3.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**
**F19** Rhl. 3 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE

[F20]**4.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**
**F20** Rhl. 4 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Erthygl 82 [[F21]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion] : ystyr "close proximity"

**5.**—(1) At ddibenion Erthygl 82 [[F22]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion] , bernir bod mangre gweithredwr cofrestredig yn un sy'n agos at fangreoedd eraill i'r gweithredwr hwnnw, yn yr ystyr a roddir i "close proximity", os oes unrhyw bwynt ar ffin ei man gweithredol, neu ar ffin unrhyw un neu ragor o'i fannau gweithredol, o fewn deng milltir i unrhyw bwynt ar ffin y man gweithredol, neu ar ffin unrhyw un neu ragor o'r mannau gweithredol, o'r fangre arall

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "man gweithredol", mewn perthynas â mangre gweithredwr cofrestredig, yw—

(a) yn achos mangre a ddefnyddir yn llwyr gan y gweithredwr cofrestredig i gyflawni un neu ragor o'r gweithgareddau a grybwyllir yn Erthygl 65(1) [[F23]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion] , y man sy'n ffurfio'r fangre honno;

(b) yn achos unrhyw fangre arall a ddefnyddir gan y gweithredwr cofrestredig i gyflawni un neu ragor o'r gweithgareddau a grybwyllir yn Erthygl 65(1) [[F23]o'r Rheoliad Iechyd

Planhigion**]** , man o fewn y fangre a ddefnyddir gan y gweithredwr cofrestredig i gyflawni unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F21** Gair yn rhl. 5 heading wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(4)(a)**

**F22** Gair yn rhl. 5(1) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(4)(b)**

**F23** Gair yn rhl. 5(2) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **4(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 2

## Awdurdodau cymwys: iechyd planhigion

### Dynodi awdurdodau cymwys

**6.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi fel yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am drefnu a chyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yng Nghymru i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(a) plâu planhigion, planhigion, plâu coed, coed, deunydd coedwigaeth neu ddeunydd nad yw'n ddeunydd coedwigaeth, neu

(b) gweithredwyr proffesiynol coedwigaeth neu weithredwyr proffesiynol eraill.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "coeden" ("*tree*") yw coeden neu lwyn byw, neu ran fyw o goeden neu lwyn, ar unrhyw gyfnod yn eu tyfiant;

ystyr "deunydd coedwigaeth" ("*forestry material*") yw—

(a) pren sy'n cadw rhan neu'r cyfan o'i arwyneb crwn naturiol, gyda rhisgl neu hebddo;

(b) pren ar ffurf sglodion, gronynnau, naddion, blawd llif, gwastraff neu sgrap pren;

(c) coed conwydd dros 3m o uchder;

(d) rhisgl sydd wedi ei dynnu neu sydd wedi datgysylltu oddi ar goeden fyw, coeden a gwympwyd neu goeden a syrthiodd, neu oddi ar ran o un o'r rhain;

ystyr "deunydd nad yw'n ddeunydd coedwigaeth" ("*non-forestry material*") yw planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill, heblaw deunydd coedwigaeth;

ystyr "deunydd pecynnu pren" ("*wood packaging material*") yw pren neu gynhyrchion pren (ac eithrio cynhyrchion papur) a ddefnyddir, neu y bwriedir eu defnyddio, i gynnal, diogelu neu gario nwydd o unrhyw fath, gan gynnwys pacin;

ystyr "gweithredwr proffesiynol coedwigaeth" ("*forestry professional operator*") yw gweithredwr proffesiynol sy'n cyflawni un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn, ond nid unrhyw weithgareddau eraill a ddisgrifir yn Erthygl 2(9) **[**[F24]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]** —

(a) cyflwyno deunydd coedwigaeth i Gymru;

(b) storio, agregu neu symud deunydd coedwigaeth yng Nghymru, symud deunydd coedwigaeth i Gymru o ran arall o **[**[F25]Brydain Fawr neu un o Diriogaethau Dibynnol y Goron**]** neu symud deunydd coedwigaeth o Gymru i ran arall o **[**[F25]Brydain Fawr neu un o Diriogaethau Dibynnol y Goron**]** ;

(c) allforio deunydd coedwigaeth o Gymru i drydedd wlad;

(ca) **[**[F26]cyflwyno deunydd coedwigaeth i Ogledd Iwerddon o Gymru;**]**

(e) trin a marcio deunydd pecynnu pren neu ddeunydd coedwigaeth yn unol ag Atodiad 1 i SRFFf 15 neu drwsio deunydd pecynnu pren yng Nghymru;

(f) cyflwyno plâu coed i Gymru, symud plâu coed yng Nghymru neu ddal neu luosi plâu coed yng Nghymru, at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis neu fridio amrywogaethau;

(g) cyflwyno coed neu ddeunydd coedwigaeth i Gymru neu symud coed neu ddeunydd coedwigaeth yng Nghymru, i'w defnyddio at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis neu fridio amrywogaethau;

ystyr "pla coed" ("*tree pest*") yw pla planhigion sy'n niweidiol i goed neu bren.

**Diwygiadau Testunol**

**F24** Gair yn rhl. 6(2) wedi ei hepgor (C.) (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **5(2)(a)**

**F25** Geiriau yn rhl. 6(2) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **5(2)(b)**

**F26** Geiriau yn rhl. 6(2) wedi eu mewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **5(2)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 3

## Rheolaethau swyddogol ar lwythi a reolir o drydydd gwledydd a rheolaethau swyddogol eraill ar nwyddau o drydydd gwledydd

### Rhanddirymu'r gofyniad i roi hysbysiad ymlaen llaw yn unol ag Erthygl 1(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013

**7.**—(1) Rhaid i weithredwr cyfrifol llwyth a reolir sydd i'w ddwyn i Gymru drwy'r awyr **[**[F27]neu i borthladd RoRo yng Nghymru**]** fod wedi hysbysu'r awdurdod priodol y disgwylir i'r llwyth gyrraedd o leiaf bedair awr waith cyn y disgwylir iddo gyrraedd Cymru.

(2) Yn achos unrhyw lwyth a reolir sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, logiau heb eu prosesu neu bren wedi ei lifio neu wedi ei sglodio ac sydd i'w ddwyn i Gymru wrth bwynt mynediad sydd â safle rheoli ar y ffin dros dro yn unig, rhaid i'r gweithredwr cyfrifol fod wedi hysbysu Gweinidogion Cymru fod y llwyth yn cyrraedd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddo gyrraedd Cymru.

(3) Nid yw Erthygl 1(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 yn gymwys i unrhyw weithredwr cyfrifol ar lwyth a reolir y cyfeirir ato ym mharagraff (1) neu (2).

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "awr waith" ("*working hour*") yw cyfnod o un awr yn ystod diwrnod sydd yng Nghymru yn ddiwrnod gwaith, ac mae "oriau gwaith" yn cynnwys oriau yn ystod mwy nag un diwrnod gwaith;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod, heblaw—

(a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul,

(b) dydd Nadolig neu ddydd Gwener y Groglith, neu

(c) gŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**12**);

ystyr "gweithredwr cyfrifol" ("*responsible operator*"), mewn perthynas â llwyth a reolir, yw gweithredwr y mae'n ofynnol iddo sicrhau bod y llwyth yn cael ei gyflwyno ar gyfer rheolaethau swyddogol wrth y safle rheoli ar y ffin lle mae'r llwyth yn cyrraedd **[**[F28]Prydain Fawr**]** am y tro cyntaf yn unol ag Erthygl 47(5) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;

**[**[F29]ystyr "porthladd RoRo" ("*RoRo port*") yw lleoliad RoRo a restrir o fewn ystyr "RoRo listed location" yn rheoliad 130 o Reoliadau Tollau (Tollau Mewnforio) (Ymadael â'r UE) 2018;**]**

ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013" ("*Commission Implementing Regulation (EU) 2019/1013*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 ynghylch hysbysu ymlaen llaw fod llwythi o gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau yn dod i'r Undeb(**13**);

ystyr "safle rheoli dros dro ar y ffin" ("*temporary border control post*") yw safle rheoli ar y ffin yng Nghymru sydd wedi ei esemptio o'r rhwymedigaethau yn Erthygl 64(3)(a), (c) ac (f) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn unol ag Erthygl 4 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1012 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy randdirymu'r rheolau ar ddynodi safleoedd rheoli a'r isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin(**14**).

**Diwygiadau Testunol**

**F27** Geiriau yn rhl. 7(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(2)(a)**

**F28** Geiriau yn rhl. 7(4) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(2)(b)(i)**

**F29** Geiriau yn rhl. 7(4) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(2)(b)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Amau bod diffyg cydymffurfiaeth

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd iechyd planhigion yn amau bod llwyth a reolir neu eitem a reoleiddir yn debygol o gael ei dwyn, neu wedi ei dwyn, i Gymru o drydedd wlad yn groes i un **[**[F30]o'r rheolau iechyd planhigion**]** , neu nad yw unrhyw lwyth neu eitem o'r fath yn cydymffurfio fel arall ag un **[**[F30]o'r rheolau iechyd planhigion**]** .

(2) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth a reolir neu'r eitem a reoleiddir—

(a) yn rhoi'r llwyth neu'r eitem yng nghadw yn swyddogol, a

(**12**) 1971 p. 80, y ceir diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**13**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 8.
(**14**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 4.

(b) yn gwahardd y llwyth neu'r eitem rhag dod i [F31Brydain Fawr] ,

tra disgwylir canlyniad y rheolaethau swyddogol i gadarnhau neu ddileu'r amheuaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1).

(3) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw lwyth a reolir neu eitem a reoleiddir p'un a yw eu cyrchfan derfynol yng Nghymru ai peidio.

**Diwygiadau Testunol**

**F30** Gair yn rhl. 8(1) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(3)(a)**

**F31** Geiriau yn rhl. 8(2)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Llwythi sydd heb eu cyflwyno'n gywir ar gyfer rheolaethau swyddogol

**9.** Pan fo arolygydd iechyd planhigion yn amau neu'n ymwybodol nad yw llwyth a reolir wedi ei gyflwyno ar gyfer rheolaethau swyddogol yn unol ag Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, neu yn unol â'r gofynion eraill y cyfeirir atynt yn Erthygl 66(6) o'r Rheoliad hwnnw, rhaid i'r arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth yn adalw'r llwyth ac yn rhoi'r llwyth yng nghadw yn swyddogol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau swyddogol mewn perthynas â llwythi nad ydynt yn cydymffurfio neu lwythi sy'n peri risg i iechyd planhigion

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) unrhyw lwyth a reolir neu eitem a reoleiddir sydd, ym marn arolygydd iechyd planhigion, wedi eu dwyn i Gymru o drydedd wlad yn groes i un [F32o'r rheolau iechyd planhigion],

(b) unrhyw lwyth a reolir neu eitem a reoleiddir a ddygwyd i Gymru o drydedd wlad ac nad yw fel arall yn cydymffurfio ag un [F33o'r rheolau iechyd planhigion], neu

(c) unrhyw lwyth a ddygwyd i Gymru o drydedd wlad ac sydd, ym marn arolygydd iechyd planhigion, yn peri risg i iechyd planhigion yng Nghymru neu i unrhyw ran arall o [F34Brydain Fawr].

(2) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth neu'r eitem—

(a) yn rhoi'r llwyth neu'r eitem yng nghadw yn swyddogol, a

(b) yn nodi'r mesurau y mae'n rhaid i'r gweithredwr eu cymryd mewn perthynas â'r llwyth neu'r eitem.

**Diwygiadau Testunol**

**F32** Gair yn rhl. 10(1)(a) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(4)(a)**

**F33** Gair yn rhl. 10(1)(b) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(4)(a)**

**F34** Geiriau yn rhl. 10(1)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Hysbysiadau o dan reoliad 8, 9 neu 10

**11.**—(1) Caiff hysbysiad o dan reoliad 8, 9 neu 10 gynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) y mesurau y mae'n rhaid i'r gweithredwr cyfrifol eu cymryd mewn perthynas â'r llwyth neu'r eitem i ynysu'r llwyth neu'r eitem neu eu gosod mewn cwarantin, neu i ymdrin fel arall â'r risg i iechyd planhigion sy'n deillio o'r llwyth neu'r eitem;

(b) pan fo arolygydd iechyd planhigion yn ei gwneud yn ofynnol i'r llwyth neu'r eitem gael eu dinistrio neu eu gwaredu fel arall, eu hailallforio neu eu trin, y mesurau y mae'n rhaid i'r gweithredwr cyfrifol eu cymryd i ddinistrio'r llwyth neu'r eitem neu i'w gwaredu fel arall, i'w hailallforio neu i'w trin;

(c) unrhyw fesurau eraill y mae'r arolygydd iechyd planhigion o'r farn eu bod yn briodol yng ngoleuni'r toriad tybiedig neu hysbys neu'r risg i iechyd planhigion yng Nghymru neu i unrhyw ran arall o **[**[F35]Brydain Fawr**]** sy'n deillio o'r llwyth neu'r eitem.

(2) Ym mharagraff (1), mae "gweithredwr cyfrifol" i'w ddehongli yn unol â rheoliad 8, 9 neu 10 (yn ôl y digwydd).

**Diwygiadau Testunol**

**F35** Geiriau yn rhl. 11(1)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **6(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Safleoedd rheoli ar y ffin: awdurdodi canolfannau arolygu a chyfleusterau storio masnachol

**12.**—(1) Caiff yr awdurdod priodol roi trwydded sy'n awdurdodi—

(a) defnyddio cyfleuster a leolir o fewn safle rheoli ar y ffin yn ganolfan arolygu at ddibenion cyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ar lwythi a reolir ac eitemau eraill a reoleiddir pan fyddant yn cyrraedd y safle rheoli ar y ffin;

(b) defnyddio cyfleusterau storio masnachol o fewn cyffiniau agos safle rheoli ar y ffin yn fan lle y gellir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar lwythi a reolir ac eitemau eraill a reoleiddir pan fyddant yn cyrraedd y safle rheoli ar y ffin.

(2) Rhaid i gais am drwydded gael ei wneud i'r awdurdod priodol gan weithredwr y cyfleuster neu'r cyfleusterau storio masnachol yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan yr awdurdod priodol.

(3) Dim ond os yw'r awdurdod priodol wedi ei fodloni bod y cyfleuster yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir mewn cysylltiad â chanolfannau arolygu yn Erthygl 8 o Reoliad (EU) 2019/1014 y caniateir rhoi trwydded o dan baragraff (1)(a).

(4) Dim ond os yw'r awdurdod priodol wedi ei fodloni bod y cyfleusterau storio masnachol yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir mewn cysylltiad â chyfleusterau storio masnachol yn Erthygl 3(11) o Reoliad (EU) 2019/1014 y caniateir rhoi trwydded o dan baragraff (1)(b).

(5) Rhaid i drwydded a roddir o dan baragraff (1)(a) neu (b) fod mewn ysgrifen a chaniateir iddo gael ei roi—

(a) o dan amodau;

(b) am gyfnod amhenodol ynteu am gyfnod penodol.

(6) Caiff trwydded a roddir o dan baragraff (1)(a) neu (b) gynnwys darpariaeth yn caniatáu i'r awdurdod priodol addasu, atal neu ddirymu'r drwydded unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "Rheoliad (EU) 2019/1014" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1014 i osod rheolau manwl ynghylch yr isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin, gan gynnwys canolfannau arolygu, ac ar gyfer y fformat, y categorïau a'r byrfoddau sydd i'w defnyddio i restru safleoedd rheoli ar y ffin a phwyntiau rheoli(**15**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Darpariaeth drosiannol: mannau arolygu a gymeradwywyd**

**13.**—(1) Yn ystod y cyfnod perthnasol caiff yr awdurdod priodol awdurdodi—

(a) cludo llwyth a reolir i fan arolygu a gymeradwywyd, a

(b) cyflawni gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion gan arolygydd iechyd planhigion mewn man arolygu a gymeradwywyd.

(2) Rhaid i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth a reolir ac a fwriedir ar gyfer man arolygu a gymeradwywyd—

(a) rhoi i'r awdurdod priodol y manylion a nodir ym mharagraff (3) drwy hysbysiad ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na thri diwrnod gwaith cyn i'r llwyth gyrraedd Cymru,

(b) sicrhau bod y llwyth, ei becyn a'r cerbyd y caiff ei gludo ynddo yn cael eu cau neu eu selio yn y fath fodd fel nad oes risg i'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau yn y llwyth achosi heigiad, haint neu halogiad na risg y bydd newid yn digwydd yng nghynnwys y llwyth, ac

(c) sicrhau bod dogfen symud iechyd planhigion yn cyd-fynd â'r llwyth.

(3) Dyma'r manylion—

(a) enw, cyfeiriad a lleoliad y man arolygu a gymeradwywyd y mae'r llwyth wedi ei fwriadu iddo,

(b) y dyddiad a'r amser y trefnwyd i'r llwyth gyrraedd y man y cyfeirir ato yn is-baragraff (a),

(c) os yw ar gael, rhif cyfresol unigol y ddogfen symud iechyd planhigion mewn perthynas â'r llwyth hwnnw,

(d) os ydynt ar gael, y dyddiad a'r man y lluniwyd y ddogfen symud iechyd planhigion,

(e) enw, cyfeiriad a rhif cofrestru'r gweithredwr, ac

(**15**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 10.

(f) rhif cyfeirnod y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n ofynnol mewn perthynas â'r llwyth yn unol ag Erthygl 72(1) neu 74(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE.

(4) Rhaid i'r gweithredwr hysbysu'r awdurdod priodol ar unwaith mewn ysgrifen am unrhyw newidiadau yn y manylion y mae'r gweithredwr wedi eu rhoi o dan baragraff (2)(a).

(5) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi i'r awdurdod priodol yn y cyfeiriad a roddir gan yr awdurdod priodol o bryd i'w gilydd at ddibenion y rheoliad hwn.

(6) At ddibenion paragraff (1) caiff awdurdod priodol gymeradwyo man y mae llwyth a reolir wedi ei fwriadu ar ei gyfer fel man lle y caniateir i wiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion gael eu cyflawni gan arolygydd iechyd planhigion yn ystod y cyfnod perthnasol.

(7) Rhaid i gais am gymeradwyaeth o dan baragraff (6) gael ei wneud i'r awdurdod priodol yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan yr awdurdod priodol.

(8) Caniateir i gymeradwyaeth gael ei rhoi o dan amodau, gan gynnwys amodau ynglŷn â storio llwythi a reolir, a chaniateir ei thynnu'n ôl unrhyw bryd os nad yw'r awdurdod priodol bellach yn credu bod y man y mae'r gymeradwyaeth yn ymwneud ag ef yn addas at y diben y rhoddwyd y gymeradwyaeth ar ei gyfer.

(9) Dim ond os yw'r man wedi ei gymeradwyo gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i'w ddefnyddio'n gyfleuster storio dros dro y caiff yr awdurdod priodol gymeradwyo man fel man arolygu a gymeradwywyd.

(10) Yn y rheoliad hwn—

F36...

ystyr "cyfleuster storio dros dro" ("*temporary storage facility*") yw cyfleuster storio dros dro o fewn ystyr Erthygl 148 o Reoliad (EU) Rhif 952/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod Cod Tollau'r Undeb(**16**);

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad cychwyn ac sy'n diweddu yn union cyn 14 Rhagfyr 2020;

**[**F37mae i "diwrnod gwaith" ("*working day*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 7(4);**]**

ystyr "dogfen symud iechyd planhigion" ("*plant health movement document*") yw dogfen ar y ffurf a nodir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/103/EC ynghylch gwiriadau adnabod planhigion a gwiriadau iechyd planhigion ar blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill, a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, a all gael eu cyflawni mewn man heblaw'r pwynt mynediad i'r Gymuned neu mewn man gerllaw ac sy'n pennu'r amodau sy'n gysylltiedig â'r gwiriadau hyn(**17**);

ystyr "man arolygu a gymeradwywyd" ("*approved place of inspection*") yw man a gymeradwywyd yn fan arolygu gan awdurdod priodol o dan erthygl 17(1) o Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018 cyn y dyddiad cychwyn ac sy'n dal wedi ei gymeradwyo yn rhinwedd rheoliad 54(1), neu fan a gymeradwywyd o dan baragraff (6).

**Diwygiadau Testunol**

**F36** Geiriau yn rhl. 13(10) wedi eu hepgor (13.11.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(4)(a)**

(**16**) OJ Rhif L 269, 10.10.2013, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/632 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 111, 25.4.2019, t. 54).
(**17**) OJ Rhif L 313, 12.10.2004, t. 16.

**F37** Geiriau yn rhl. 13(10) wedi eu mewnosod (13.11.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 4

## Gweithgareddau swyddogol i atal plâu planhigion rhag ymsefydlu neu ledaenu

### Rhagymadrodd

**14.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys os bydd arolygydd iechyd planhigion yn amau bod pla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol, neu os bydd yn dod yn ymwybodol bod pla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig yn bresennol, ar unrhyw fangre yng Nghymru.

(2) Yn y Rhan hon—

ystyr "deunydd gwaharddedig" ("*prohibited material*" yw—

(a) planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall sy'n cario pla planhigion a reolir, neu sydd wedi ei heigio neu wedi ei heintio ganddo, neu a allai fod yn cario pla planhigion a reolir, neu wedi ei heigio neu wedi ei heintio ganddo;

(b) planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y gwaherddir mynediad iddynt i **[**[F38]Brydain Fawr**]** o dan un **[**[F39]o'r rheolau iechyd planhigion**]**;

(c) planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y mae ei symud [F40]... i Gymru, yng Nghymru neu o Gymru, wedi ei wahardd o dan un **[**[F41]o'r rheolau iechyd planhigion**]**;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le, gan gynnwys unrhyw dir, adeilad, cerbyd, llestr, awyren, hofrenfad, cynhwysydd llwythi, wagen reilffordd, trelar neu adeilad neu adeiledd symudol.

**Diwygiadau Testunol**

**F38** Geiriau yn rhl. 14(2) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **7(2)(a)(i)**

**F39** Gair yn rhl. 14(2) wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **7(2)(a)(ii)**

**F40** Geiriau yn rhl. 14(2) wedi eu hepgor (C.) (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **7(2)(b)(i)**

**F41** Gair yn rhl. 14(2) wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **7(2)(b)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Hysbysiadau mewn perthynas â phlâu planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig

**15.**—(1) Caiff arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad i'r person priodol—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person priodol drin, dinistrio neu waredu fel arall y pla planhigion a reolir neu'r deunydd gwaharddedig,

(b) yn gwahardd am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad—

(i) symud unrhyw bla planhigion a reolir neu unrhyw ddeunydd gwaharddedig ymaith o'r fangre, neu

(ii) unrhyw weithgaredd y mae'r arolygydd o'r farn ei bod yn angenrheidiol ei wahardd er mwyn atal pla planhigion a reolir rhag ymsefydlu neu ledaenu,

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bla planhigion a reolir neu ddeunydd gwaharddedig gael eu symud ymaith o'r fangre, neu

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gamau eraill gael eu cymryd, fel y'u pennir yn yr hysbysiad, y mae'r arolygydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn dileu'r pla planhigion a reolir neu i'w atal rhag ymsefydlu neu ledaenu.

(2) Os oes gan arolygydd iechyd planhigion sail resymol dros gredu bod hynny'n angenrheidiol at ddiben atal unrhyw bla planhigion a reolir rhag lledaenu, neu sicrhau y dilëir unrhyw bla planhigion a reolir, o unrhyw fangre, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r meddiannydd yn gosod unrhyw waharddiad neu'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam rhesymol gael ei gymryd at y diben hwnnw.

(3) Ym mharagraff (1), ystyr "person priodol" yw—

(a) yn achos mangre a ddefnyddir gan weithredwr proffesiynol, y gweithredwr proffesiynol;

(b) yn achos unrhyw fangre arall—

(i) y meddiannydd neu unrhyw berson arall sydd â gofal am y fangre;

(ii) unrhyw berson arall sydd â gofal am y pla planhigion a reolir neu'r deunydd gwaharddedig yn y fangre honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Camau y caiff arolygydd iechyd planhigion eu cymryd**

**16.**—(1) Caiff arolygydd iechyd planhigion, o roi hysbysiad rhesymol, fynd i mewn i unrhyw fangre ac unrhyw fangre gyfagos at ddiben cymryd camau i wneud y canlynol—

(a) dileu neu ddinistrio unrhyw bla planhigion a reolir, neu ddelio ag ef fel arall,

(b) atal unrhyw bla planhigion a reolir rhag lledaenu, neu

(c) dinistrio neu drin unrhyw ddeunydd a heintiwyd, neu ddelio ag ef fel arall.

(2) Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i arolygydd iechyd planhigion ddangos tystiolaeth o'i awdurdod cyn mynd i mewn i unrhyw fangre at y dibenion a bennir ym mharagraff (1).

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat oni bai bod 24 awr o rybudd wedi ei roi i'r meddiannydd.

(4) Caiff arolygydd iechyd planhigion ddod ag unrhyw bersonau eraill [F42]... gydag ef a chaiff ddod ag unrhyw offer a cherbydau i'r fangre y mae'r arolygydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

(5) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd iechyd planhigion o dan baragraff (4)—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb arolygydd iechyd planhigion,

(b) dod ag unrhyw offer neu gerbydau i'r fangre y mae'r person o'r farn eu bod yn angenrheidiol, ac

(c) cyflawni gwaith yn y fangre mewn modd a gyfarwyddir gan arolygydd iechyd planhigion.

(6) Ym mharagraff (1), ystyr "deunydd a heintiwyd" yw—

(a) planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall sy'n cario pla planhigion a reolir, neu sydd wedi ei heigio neu wedi ei heintio ganddo, neu a allai fod yn cario pla planhigion a reolir, neu wedi ei heigio neu wedi ei heintio ganddo;

(b) planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall nad yw'n cario pla planhigion a reolir, neu nad yw wedi ei heigio neu wedi ei heintio ganddo, ond y gallai eu presenoldeb neu eu bodolaeth, ym marn arolygydd iechyd planhigion, beri i bla planhigion a reolir ledu neu gael ei ledaenu.

**Diwygiadau Testunol**

**F42** Geiriau yn rhl. 16(4) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **7(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Sefydlu ardaloedd a ddarnodir a mesurau sydd i'w cymryd yn yr ardaloedd hynny**

**17.**—(1) **[**F43Mae paragraff (2)**]** yn gymwys pan fo awdurdod priodol wedi cadarnhau'n swyddogol bresenoldeb pla planhigion a reolir nad yw'n hysbys ei fod yn bresennol yng Nghymru neu bresenoldeb pla planhigion a reolir mewn ardal o Gymru lle nad oedd yn bresennol o'r blaen.

(2) Caiff awdurdod priodol drwy hysbysiad—

(a) darnodi ardal mewn perthynas â phresenoldeb y pla planhigion a reolir at ddiben dileu neu gyfyngu'r pla planhigion;

(b) pennu'r gwaharddiadau neu'r cyfyngiadau sydd i fod yn gymwys i'r ardal a ddarnodir at y diben hwnnw.

**[**F44(2A) Mae paragraff (2B) yn gymwys pan fo'r awdurdod cymwys mewn perthynas ag un arall o diriogaethau Prydain Fawr—

(a) wedi cadarnhau'n swyddogol fod pla planhigion y mae Erthygl 18 o'r Rheoliad Iechyd Planhigion yn gymwys iddo yn bresennol yn ei diriogaeth; a

(b) wedi hysbysu'r awdurdod cymwys mewn perthynas â Chymru, yn unol ag Erthygl 18(4A) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion", y dylai ardal ddarnodedig ymestyn i Gymru neu gael ei sefydlu yng Nghymru.

(2B) Caiff yr awdurdod cymwys drwy hysbysiad—

(a) darnodi ardal er mwyn dileu neu gyfyngu'r pla planhigion, neu er mwyn atal y pla rhag ymsefydlu yng Nghymru; neu

(b) cadarnhau'r bwriad i ddarnodi ardal yng Nghymru a hysbyswyd yn flaenorol i'r awdurdod cymwys gan awdurdod cymwys arall yn unol ag Erthygl 18(4A) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion.

(2C) Caiff hysbysiad o dan baragraff (2B) bennu'r gwaharddiadau neu'r cyfyngiadau sydd i fod yn gymwys i'r ardal ddarnodedig at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a bennir yn y paragraff hwnnw.**]**

(3) O ran hysbysiad o dan baragraff (2) **[**F45neu (2B)**]**—

(a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen;

(b) rhaid iddo ddisgrifio hyd a lled yr ardal a ddarnodir;

(c) rhaid iddo bennu ar ba ddyddiad y bydd unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau o'r fath yn cychwyn;

(d) rhaid iddo gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n briodol i ddod ag ef i sylw'r cyhoedd;

(e) caniateir iddo gael ei ddiwygio neu ei ddirymu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy hysbysiad arall.

[F46(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "awdurdod cymwys" yr ystyr a roddir i "competent authority" gan Erthygl 2(6) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion.]

**Diwygiadau Testunol**

**F43** Geiriau yn rhl. 17(1) wedi eu hamnewid (20.12.2022) gan The Plant Health and Trade in Animals and Related Products (Amendment) Regulations 2022 (O.S. 2022/1367), rhlau. 1(1), **6(2)(a)**

**F44** Rhl. 17(2A)-(2C) wedi ei fewnosod (20.12.2022) gan The Plant Health and Trade in Animals and Related Products (Amendment) Regulations 2022 (O.S. 2022/1367), rhlau. 1(1), **6(2)(b)**

**F45** Geiriau yn rhl. 17(3) wedi eu mewnosod (20.12.2022) gan The Plant Health and Trade in Animals and Related Products (Amendment) Regulations 2022 (O.S. 2022/1367), rhlau. 1(1), **6(2)(c)**

**F46** Rhl. 17(4) wedi ei fewnosod (20.12.2022) gan The Plant Health and Trade in Animals and Related Products (Amendment) Regulations 2022 (O.S. 2022/1367), rhlau. 1(1), **6(2)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## RHAN 5

### Mesurau gwladol dros dro ynglŷn ag iechyd planhigion

**Atodlen 1**

F47**18.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F47** Rhl. 18 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **8**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## RHAN 6

### Cofrestru, awdurdodiadau a thystysgrifau ynglŷn ag iechyd planhigion

**Ceisiadau am gofrestru**

**19.** Rhaid i gais am gofrestru yn unol ag Erthygl 66(1) [F48o'r Rheoliad Iechyd Planhigion] sydd i'w gyflwyno i awdurdod priodol gael ei gyflwyno yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan yr awdurdod priodol.

**Diwygiadau Testunol**

**F48** Gair yn rhl. 19 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Ceisiadau eraill

**20.**—(1) Rhaid i'r ceisiadau a ganlyn gael eu gwneud i'r awdurdod priodol yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan yr awdurdod priodol—

(a) cais am awdurdodiad dros dro i ganiatáu gweithgaredd perthnasol at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dethol neu fridio amrywogaethau;

(b) cais am awdurdodiad y cyfeirir ato yn y darpariaethau a ganlyn yn **[**[F49]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** —

(i) Erthygl 64(2),

(ii) Erthygl 89(1), neu

(iii) Erthygl 98(1);

(c) cais am ddyroddi tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio **[**[F50]neu**]** tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio [F51]....

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "gweithgaredd perthnasol" yw gweithgaredd a fyddai fel arall wedi ei wahardd o dan **[**[F52]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**[F53]... neu **[**[F54]reol iechyd planhigion arall**]** ac sy'n golygu—

(a) cyflwyno pla planhigion neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall i Gymru,

(b) symud pla planhigion neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall yng Nghymru,

(c) dal pla planhigion a reolir neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall ar fangre yng Nghymru, neu

(d) lluosogi pla planhigion ar fangre yng Nghymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F49** Gair yn rhl. 20(1)(b) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(a)(i)**

**F50** Gair yn rhl. 20(1)(c) wedi ei amnewid ar gyfer comma (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(a)(ii)(aa)**

**F51** Geiriau yn rhl. 20(1)(c) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(a)(ii)(bb)**

**F52** Gair yn rhl. 20(2) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(b)(i)**

**F53** Geiriau yn rhl. 20(2) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(b)(ii)**

**F54** Gair yn rhl. 20(2) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(3)(b)(iii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Awdurdodi at ddibenion eraill

**21.**—**[**[F55](1) Caiff yr awdurdod priodol roi awdurdodiad i ganiatáu—

(a) cyflawni unrhyw weithgaredd a bennir mewn rhanddirymiad iechyd planhigion,

(b) cyflwyno pla planhigion cwarantin posibl i Gymru, symud pla planhigion cwarantin posibl o fewn Cymru, neu ddal neu luosogi pla planhigion cwarantin posibl yng Nghymru, at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis neu fridio amrywogaethau, neu

(c) cyflawni unrhyw weithgaredd arall y mae cymeradwyaeth yr awdurdod priodol yn ofynnol ar ei gyfer o dan **[**[F56], neu yn rhinwedd,**][**[F57]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol **[**[F58], unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rheoliad Iechyd Planhigion neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,**]** neu'r Rheoliadau hyn.**]**

(2) Rhaid i gais am unrhyw awdurdodiad o'r fath gael ei wneud i'r awdurdod priodol yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan yr awdurdod priodol.

**[**[F59](3) Ym mharagraff (1)—

ystyr "pla planhigion cwarantin posibl" ("*potential quarantine plant pest*") yw pla planhigion nad yw'n bla cwarantin **[**[F60]Prydain Fawr neu'n bla cwarantin Prydain Fawr dros dro**]**, ond sydd, ym marn yr awdurdod priodol, yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Is-adran 1 o Adran 3 o Atodiad 1 i'r Rheoliad hwnnw neu y gallai fod yn bodloni'r meini prawf yn Is-adran 2 o'r Adran honno;

ystyr "rhanddirymiad iechyd planhigion" ("*plant health derogation*") yw—

(a) rhanddirymiad darpariaethau **[**[F61]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** a nodir **[**[F62]yng nghyfraith yr UE a ddargedwir neu reoliadau a wneir**]** o dan **[**[F61]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,[F63]...

(b) [F63]...**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F55** Rhl. 21(1) wedi ei amnewid (13.11.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(5)(a)**

**F56** Geiriau yn rhl. 21(1)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(a)(i)**

**F57** Gair yn rhl. 21(1)(c) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(a)(ii)**

**F58** Geiriau yn rhl. 21(1)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(a)(iii)**

**F59** Rhl. 21(3) wedi ei amnewid (13.11.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(5)(b)**

**F60** Geiriau yn rhl. 21(3) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(b)(ii)**

**F61** Gair yn rhl. 21(3) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(b)(i)(aa)**

**F62** Geiriau yn rhl. 21(3) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(b)(i)(bb)**

**F63** Geiriau yn rhl. 21(3) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(4)(b)(i)(cc)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Awdurdodiadau a roddir gan awdurdod priodol

**22.**—(1) Rhaid i awdurdodiad a roddir gan awdurdod priodol at ddibenion **[**F64y Rheoliad Iechyd Planhigion**][**F65neu**]** y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol **[**F66neu at ddibenion y Rheoliadau hyn, neu oddi tanynt,**]** fod mewn ysgrifen a chaniateir iddo gael ei roi—

(a) o dan amodau;

(b) am gyfnod amhenodol ynteu am gyfnod penodol.

(2) Caiff awdurdodiad a roddir gan awdurdod priodol ganiatáu i'r awdurdod priodol addasu'r awdurdodiad, ei atal dros dro neu ei ddirymu unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig.

**Diwygiadau Testunol**

**F64** Geiriau yn rhl. 22(1) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(5)(a)**

**F65** Gair yn rhl. 22(1) wedi ei amnewid ar gyfer comma (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(5)(b)**

**F66** Geiriau yn rhl. 22(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **9(5)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Rhl. 22 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## RHAN 7

## Mesurau ynglŷn â rhywogaethau mochlysaidd penodol

### Atodlen 2

**23.** Mae Atodlen 2 yn cynnwys mesurau penodol ynglŷn â rhywogaethau mochlysaidd penodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 23 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## RHAN 8

## Gofynion o ran hysbysiadau: iechyd planhigion

### Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â thatws hadyd

F67**24.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F67** Rhl. 24 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(2)**

### Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â ffrwythau sitrws

[F68]**25.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F68** Rhl. 25 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Rhl. 25 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â phlanhigion a chynhyrchion planhigion eraill

**26.**—(1) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n dod ag [[F69]unrhyw bren tanwydd solet o drydedd wlad nad yw Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddo][F70]... i Gymru, cyn y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru neu heb fod yn hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru, roi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd iechyd planhigion ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)—

[F71](a) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[F71](b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[F71](c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(2) Dyma'r materion—

(a) y dyddiad y disgwylir i'r llwyth gyrraedd neu, os yw'r llwyth wedi cyrraedd Cymru, y dyddiad y cyrhaeddodd Gymru gyntaf;

(b) cyrchfan arfaethedig y llwyth, neu os yw'r llwyth wedi cyrraedd ei gyrchfan arfaethedig yng Nghymru, ei leoliad presennol;

(c) genws, rhywogaeth a nifer y [F72]... pren yn y llwyth;

(d) y wlad y traddodwyd neu y traddodir y [F73]...pren ohoni;

[F74](e) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[[F75](f) cyfeiriad y traddodwr, ac

(g) manylion unrhyw driniaethau ffytoiechydol a roddwyd i'r pren.]

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "pren tanwydd solet" yw pren tanwydd ar ffurf logiau, plociau, brigau, ffagodau neu ffurfiau tebyg eraill.

**Diwygiadau Testunol**

**F69** Geiriau yn rhl. 26(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(a)(ii)**

**F70** Geiriau yn rhl. 26(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(a)(i)**

**F71** Rhl. 26(1)(a)-(c) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(a)(iii)**

**F72** Geiriau yn rhl. 26(2)(c) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(b)(i)**

**F73** Geiriau yn rhl. 26(2)(d) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(b)(ii)(aa)**

**F74** Rhl. 26(2)(e) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(b)(iii)**

**F75** Rhl. 26(2)(f)(g) wedi ei amnewid ar gyfer rhl. 26(2)(f) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **10(3)(b)(iv)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Rhl. 26 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 9

## Pwerau cyffredinol arolygwyr iechyd planhigion a gorfodi

### Dehongli

**27.**—(1) Yn y Rhan hon—

mae "deunydd pecynnu pren" ("*wood packaging material*") yn cynnwys unrhyw bren neu wrthrych arall y mae'n ofynnol ei drin a'i farcio yn unol ag Atodiad 1 i SRFFf 15;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le, gan gynnwys unrhyw dir, adeilad, cerbyd, llestr, awyren, hofrenfad, cynhwysydd llwythi, wagen reilffordd, trelar neu adeilad neu adeiledd symudol;

ystyr "nod SRFFf 15" ("*ISPM 15 mark*") yw'r nod y cyfeirir ato yn Erthygl 96(1) **[**[F76]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, y gellir ei osod ar ddeunydd pecynnu pren i dystio ei fod wedi ei drin yn unol ag Atodiad 1 i SRFFf 15.

(2) At ddibenion rheoliadau 32 a 33, mae person yn gosod nod SRFFf 15 ar ddeunydd pecynnu pren "yn anghywir" os yw'r person yn gosod y nod heblaw yn y modd a bennir yn Erthygl 96(1) **[**[F77]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, fel y'i darllenir gydag Erthygl 97(1) **[**[F77]o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F76** Gair yn rhl. 27(1) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(2)**

**F77** Gair yn rhl. 27(2) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Rhl. 27 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Pwerau mynediad**

**28.**—(1) Caiff arolygydd iechyd planhigion fynd i mewn i unrhyw fangre ar adeg resymol at ddiben—

(a) cyflawni rheolaethau swyddogol i ddilysu—

(i) bod gweithredwr yn cydymffurfio â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,

(ii) bod gweithredwr proffesiynol yn cydymffurfio [F78 â'r Rheoliad Iechyd Planhigion],

(iii) bod person yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, F79...

(iv) bod unrhyw blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n destun un [F80 o'r rheolau iechyd planhigion yn cydymffurfio â'r rheol honno]; [F81 neu]

[F82 (v) bod gweithredwr awdurdodedig, gweithredwr proffesiynol neu weithredwr cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023]

(b) cyflawni gweithgareddau swyddogol eraill sydd i'w cyflawni gan yr awdurdod priodol yn unol â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, y Rheoliad Iechyd Planhigion [F83, Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023] neu'r Rheoliadau hyn;

(c) gorfodi'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, y Rheoliad Iechyd Planhigion [F84, Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023] neu'r Rheoliadau hyn;

(d) dilysu gwybodaeth a roddwyd gan berson mewn cysylltiad â chais am gofrestriad neu am awdurdodiad neu drwydded a roddwyd, neu sydd i'w rhoi, o dan y Rheoliadau hyn;

(e) canfod a ydys yn cydymffurfio neu a gydymffurfiwyd ag amod mewn awdurdodiad neu drwydded a roddwyd gan awdurdod priodol o dan y Rheoliadau hyn neu at ddiben [F85 y Rheoliad Iechyd Planhigion] neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

(2) Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i arolygydd iechyd planhigion ddangos tystiolaeth o'i awdurdod cyn mynd i mewn i unrhyw fangre at y dibenion a bennir ym mharagraff (1).

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat oni bai bod 24 awr o rybudd wedi ei roi i'r meddiannydd.

(4) Caiff arolygydd iechyd planhigion sy'n mynd i mewn i fangre at ddiben a bennir ym mharagraff (1) neu o dan warant a ddyroddir gan ynad heddwch—

(a) archwilio, marcio neu dynnu ffotograff o unrhyw ran o'r fangre, unrhyw wrthrych yn y fangre neu unrhyw beth sydd wedi ei atodi i'r fangre neu fel arall yn ffurfio rhan ohoni;

(b) yn achos mangre sy'n cael ei defnyddio i weithgynhyrchu deunydd pecynnu pren, archwilio neu brofi unrhyw gyfleuster trin, peiriannau, offer neu gyfarpar arall a ddefnyddir i weithgynhyrchu deunydd pecynnu pren neu arsylwi a monitro'r broses o weithgynhyrchu deunydd pecynnu pren;

(c) cymryd samplau—

(i) o unrhyw bla planhigion neu oddi arno,

(ii) o unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall neu oddi arnynt, neu

(iii) o unrhyw gynhwysydd, pecyn neu wrthrych sydd wedi bod neu a allai fod wedi bod mewn cysylltiad â phla planhigion neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall neu oddi ar y rhain;

(d) agor unrhyw gynhwysydd neu becyn neu ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu berson sydd â gofal am unrhyw gynhwysydd neu becyn agor y cynhwysydd neu'r pecyn;

(e) arolygu neu wneud copïau o unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cânt eu dal) sy'n ymwneud â chynhyrchu unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall, neu ag unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â hwy.

(5) Caiff arolygydd iechyd planhigion ddinistrio neu waredu fel arall unrhyw sampl a gymerir o dan y rheoliad hwn pan na fydd angen y sampl mwyach.

(6) Caiff arolygydd iechyd planhigion—

[F86(a) dod ag unrhyw bersonau y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol; a]

(b) dod ag unrhyw offer a cherbydau i'r fangre y mae'r arolygydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

F87(7) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(8) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd iechyd planhigion o dan baragraff (6)(a)F88...—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb arolygydd iechyd planhigion,

(b) dod ag unrhyw offer neu gerbydau i'r fangre y mae'r person o'r farn eu bod yn angenrheidiol, ac

(c) cyflawni gwaith yn y fangre mewn modd a gyfarwyddir gan arolygydd iechyd planhigion.

**Diwygiadau Testunol**

**F78** Gair yn rhl. 28(1)(a)(ii) wedi eu hamnewid (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(a)(i)(aa)**

**F79** Gair yn rhl. 28(1)(a)(iii) wedi ei hepgor (1.10.2023) yn rhinwedd The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(3)(a)(i)**

**F80** Geiriau yn rhl. 28(1)(a)(iv) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(a)(i)(bb)**

**F81** Gair yn rhl. 28(1)(a)(iv) wedi ei fewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(3)(a)(ii)**

**F82** Rhl. 28(1)(a)(v) wedi ei fewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(3)(a)(iii)**

**F83** Geiriau yn rhl. 28(1)(b) wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(3)(b)**

**F84** Geiriau yn rhl. 28(1)(c) wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(3)(c)**

**F85** Gair yn rhl. 28(1)(e) wedi eu hamnewid (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(a)(ii)**

**F86** Rhl. 28(6)(a) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(b)**

**F87** Rhl. 28(7) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(c)**

**F88** Gair yn rhl. 28(8) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(3)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Rhl. 28 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Hawl mynediad a roddir gan warant a ddyroddir gan ynad heddwch

**29.**—(1) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd fynd i fangre o dan reoliad 16(1), 28(1) neu 31(1), gan ddefnyddio grym rhesymol os oes ei angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd i'r fangre honno, a

(b) bod unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Dyma'r amodau—

(a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd,

(b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i'r fangre,

(c) bod angen mynd i'r fangre ar fyrder, neu

(d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(3) Mae gwarant yn ddilys am un mis.

(4) Rhaid i arolygydd sy'n mynd i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr oedd cyn iddo fynd iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Rhl. 29 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Hysbysiadau gwybodaeth**

**30.**—(1) Caiff arolygydd iechyd planhigion neu unrhyw swyddog arall i awdurdod priodol drwy hysbysiad ysgrifenedig ei gwneud yn ofynnol i berson priodol roi i'r arolygydd neu'r swyddog, o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw wybodaeth a all fod gan y person ynghylch—-

(a) y planhigion a dyfwyd neu'r cynhyrchion a storiwyd unrhyw bryd yn y fangre a bennir yn yr hysbysiad,

(b) unrhyw bla planhigion neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b), neu

(c) y personau sydd wedi cael, neu sy'n debygol o fod wedi cael, unrhyw bla planhigion neu blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b) yn eu meddiant neu o dan eu gofal.

(2) Rhaid i'r amser y mae'n ofynnol i'r wybodaeth gael ei rhoi i'r arolygydd neu'r swyddog arall o'i fewn fod yn rhesymol.

(3) Rhaid i berson priodol ddangos unrhyw awdurdodiad, datganiad swyddogol, tystysgrif, pasbort planhigion, **[**[F89]label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon,**]** cofnod, anfoneb neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phla planhigion neu unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a bennir yn yr hysbysiad i'w harchwilio gan yr arolygydd neu'r swyddog arall.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "person priodol" yw—

(a) mewn perthynas ag unrhyw fangre a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (1), person sy'n berchennog, yn feddiannydd neu'n berson arall sydd â gofal am y fangre,

(b) person y mae neu y bu ganddo feddiant o'r canlynol neu ofal amdanynt, neu y mae'n rhesymol i'r arolygydd neu'r swyddog amau bod ganddo, neu y bu ganddo feddiant ohonynt neu ofal amdanynt—

(i) pla planhigion a reolir,

(ii) unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a oedd yn cario pla planhigion a reolir neu a oedd wedi ei heigio neu wedi ei heintio gan bla planhigion a reolir, neu

(iii) unrhyw blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall y mae'r arolygydd neu'r swyddog yn gwybod neu'n amau eu bod wedi eu mewnforio i Gymru neu wedi eu hallforio ohoni, neu

(c) person sydd, fel arwerthwr, gwerthwr neu fel arall, wedi gwerthu pla planhigion a reolir, wedi ei gynnig ar werth neu wedi ei waredu fel arall.

**Diwygiadau Testunol**

**F89** Geiriau yn rhl. 30(3) wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(4)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Rhl. 30 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Methu â chydymffurfio â hysbysiad

**31.**—(1) Os bydd person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir i'r person hwnnw o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd iechyd planhigion fynd i unrhyw fangre yr effeithir arni ar bob adeg resymol i gymryd neu beri cymryd unrhyw gamau y mae'r arolygydd iechyd planhigion o'r farn eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r hysbysiad neu i unioni canlyniadau'r methiant i'w cyflawni.

(2) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion sy'n gweithredu o dan baragraff (1) ddangos tystiolaeth o'i awdurdod i weithredu, os gofynnir iddo wneud hynny.

[F90(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys—

(a) i unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat oni bai bod 24 awr o rybudd wedi ei roi i'r meddiannydd, neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad a roddir o dan Atodlen 4A.]

(4) Caiff arolygydd iechyd planhigion ddod ag unrhyw bersonau F91... F92... gydag ef a chaiff ddod ag unrhyw offer a cherbydau i'r fangre y mae'r arolygydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

(5) Caiff person sy'n dod gydag arolygydd iechyd planhigion o dan baragraff (4)—

(a) aros yn y fangre ac o bryd i'w gilydd fynd i'r fangre eto heb arolygydd iechyd planhigion,

(b) dod ag unrhyw ofer neu gerbydau i'r fangre y mae'r person o'r farn eu bod yn angenrheidiol, ac

(c) cyflawni gwaith yn y fangre mewn modd a gyfarwyddir gan arolygydd iechyd planhigion.

**Diwygiadau Testunol**

**F90** Rhl. 31(3) wedi ei amnewid (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(2)**

**F91** Gair yn rhl. 31(4) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(4)(a)**

**F92** Geiriau yn rhl. 31(4) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Rhl. 31 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Tynnu nod SRFFf 15 oddi ar ddeunydd pecynnu pren

**32.** Pan fo arolygydd yn gwybod, neu pan fo ganddo sail resymol dros amau, bod y nod SRFFf 15 wedi ei osod yn anghywir ar ddeunydd pecynnu pren, caiff arolygydd iechyd planhigion dynnu'r nod neu, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i berson arall ei dynnu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 32 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Marcio deunydd pecynnu pren: pŵer ymafael

**33.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd iechyd planhigion yn gwybod, neu pan fo ganddo sail resymol dros amau, bod person wedi gosod yn anghywir, neu'n bwriadu gosod yn anghywir, y nod SRFFf 15 ar ddeunydd pecynnu pren mewn unrhyw fangre yng Nghymru.

(2) Caiff yr arolygydd iechyd planhigion ymafael mewn unrhyw stensil, templed neu eitem arall o offer y mae'n ymddangos i'r arolygydd y gellid eu defnyddio i osod y nod SRFFf 15, oddi wrth y person hwnnw neu o'r fangre honno a'u cadw.

(3) Os nad yw'r arolygydd iechyd planhigion o'r farn ei bod yn ymarferol, am y tro, i'r arolygydd ymafael mewn unrhyw eitem a'i symud ymaith, caiff yr arolygydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre sicrhau na chaiff yr eitem ei symud ymaith ac nad ymyrrir â'r eitem fel arall nes y gall yr arolygydd ymafael ynddi a'i symud ymaith.

(4) Rhaid i'r arolygydd iechyd planhigion wneud ymdrechion rhesymol i roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person priodol—

(a) yn nodi'r hyn yr ymafaelwyd ynddo a'r rheswm dros ymafael ynddo;

(b) yn esbonio effaith paragraffau (5) i (12).

(5) Caniateir i unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan baragraff (2) gael ei chadw gan Weinidogion Cymru am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol o dan yr holl amgylchiadau, ac yn benodol at ddibenion achos cyfreithiol mewn perthynas â throsedd a bennir yn rheoliad 38(1).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r llys ynadon am fforffedu unrhyw eitem a gedwir o dan baragraff (5).

(7) Pan wneir cais o dan baragraff (6), caiff y llys orchymyn i'r eitem gael ei fforffedu os yw'r llys wedi ei fodloni—

(a) bod trosedd a bennir yn rheoliad 38(1) wedi ei chyflawni mewn cysylltiad â hi, neu

(b) ei bod wedi ei defnyddio wrth gyflawni trosedd o'r fath.

(8) Os yw'r llys yn gorchymyn i'r eitem gael ei fforffedu, caiff Gweinidogion Cymru ei gwaredu ym mha ffordd bynnag y credant ei bod yn briodol.

(9) Os nad yw'r llys yn gorchymyn i'r eitem gael ei fforffedu, rhaid iddo orchymyn i'r eitem gael ei dychwelyd i'r person priodol.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru adennill oddi ar y person priodol yr holl gostau rhesymol yr aed iddynt gan Weinidogion Cymru at ddibenion sicrhau bod eitem yn cael ei fforffedu o dan baragraffau (6) i (8).

(11) Pan awdurdodwyd cadw unrhyw eitem o dan y rheoliad hwn, ond nad yw hynny wedi ei awdurdodi mwyach—

(a) rhaid i'r eitem gael ei dychwelyd i'r person priodol;

(b) caiff y person priodol wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn i'r eitem gael ei dychwelyd.

(12) Pan fo'n ofynnol i'r eitem gael ei dychwelyd i'r person priodol a bod ymdrechion rhesymol wedi eu gwneud, heb lwyddiant, i ddychwelyd yr eitem i'r person hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru waredu'r eitem ym mha ffordd bynnag y credant ei bod yn briodol.

(13) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "person priodol" yw—

(a) yn achos eitem yr ymafaelwyd ynddi oddi wrth berson, y person yr ymafaelwyd yn yr eitem oddi wrtho;

(b) yn achos eitem yr ymafaelwyd ynddi o fangre, y meddiannydd neu unrhyw berson arall sydd â gofal am y fangre;

(c) yn achos eitem yr ymafaelwyd ynddi oddi wrth berson neu o fangre nad yw'n perthyn i berson sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b), y person y mae'n perthyn iddo ac sy'n haeru perchnogaeth drosti.

(14) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn effeithio ar bwerau arolygydd iechyd planhigion o dan reoliad 32.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Rhl. 33 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Datgelu gwybodaeth a ddelir gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**

**34.**—(1) Caiff Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu unrhyw wybodaeth yn eu meddiant i awdurdod priodol at ddibenion galluogi neu gynorthwyo'r awdurdod priodol i gyflawni unrhyw swyddogaeth a roddwyd iddo o dan **[**[F93]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol neu'r Rheoliadau hyn, neu yn rhinwedd y rhain.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn effeithio ar unrhyw bŵer sydd gan y Comisiynwyr i ddatgelu gwybodaeth neu unrhyw ofyniad arall sydd arnynt i wneud hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F93** Gair yn rhl. 34(1) wedi ei rhodder (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Rhl. 34 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Datgelu gwybodaeth i awdurdodau cymwys eraill**

**35.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgelu gwybodaeth i unrhyw awdurdod cymwys arall **[**[F94]yn y Deyrnas Unedig neu i awdurdod Tiriogaeth Ddibynnol y Goron**]** at ddibenion **[**[F95]y Rheoliad Iechyd Planhigion**][**[F96], Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023**]** neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn effeithio ar unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i ddatgelu gwybodaeth neu unrhyw ofyniad arall sydd arnynt i wneud hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F94** Geiriau yn rhl. 35(1) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(6)(a)**

**F95** Gair yn rhl. 35(1) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **11(6)(b)**

**F96** Geiriau yn rhl. 35(1) wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Rhl. 35 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 10

## Darpariaethau cyffredinol ac atodol ynglŷn â hysbysiadau iechyd planhigion

### Darpariaethau amrywiol ynglŷn â hysbysiadau

**36.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw hysbysiad a roddir gan arolygydd iechyd planhigion o dan y Rheoliadau hyn heblaw hysbysiad a roddir o dan reoliad 33(4) **[**[F97]neu Atodlen 4A**]**.

(2) Caiff yr hysbysiad—

(a) pennu—

(i) un neu ragor o ofynion neu ofynion amgen;

(ii) ym mha fodd ac ym mha gyfnod y mae'n rhaid cyflawni unrhyw ofyniad neu amod a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu unrhyw berson arall y mae'n ymddangos ei fod â gofal am y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi—

(i) hysbysu'r awdurdod priodol am unrhyw newid ym meddiannaeth y fangre, dyddiad y newid ac enw'r meddiannydd newydd, a

(ii) rhoi gwybod i feddiannydd newydd y fangre am gynnwys yr hysbysiad.

(3) Rhaid i unrhyw waith i ddinistrio, gwaredu, ailallforio neu drin planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall neu bla planhigion y mae'n ofynnol ei wneud o dan yr hysbysiad gael ei wneud neu rhaid trefnu iddo gael ei wneud, er boddhad arolygydd iechyd planhigion gan y person y mae'r hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo o'r man a bennir yn yr hysbysiad neu yn y man hwnnw.

(4) Caiff arolygydd iechyd planhigion ddiwygio'r hysbysiad neu ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad pellach.

(5) Caiff yr hysbysiad ddiffinio hyd a lled y fangre y cyfeirir ati yn yr hysbysiad drwy gyfeirio at fap neu blan neu fel arall.

**Diwygiadau Testunol**

**F97** Geiriau yn rhl. 36(1) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Rhl. 36 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Cyflwyno hysbysiadau**

**37.**—(1) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno i weithredwr cofrestredig—

(a) drwy ei ddanfon yn bersonol,

(b) drwy ei adael yng nghyfeiriad cysylltu'r gweithredwr cofrestredig, neu ei anfon yno drwy'r post, neu

(c) drwy ei anfon at y cyfeiriad ebost y mae'r gweithredwr wedi ei roi i'r awdurdod priodol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau.

(2) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno i unrhyw berson arall—

(a) drwy ei ddanfon yn bersonol,

(b) drwy ei adael yng nghartref neu fan busnes hysbys diwethaf y person, neu ei anfon yno drwy'r post, neu

(c) drwy ei anfon at unrhyw gyfeiriad ebost y mae'r person wedi ei roi i'r awdurdod priodol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau

(3) Os oes hysbysiad i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion **[**[F98]neu'r awdurdod priodol**]** i feddiannydd neu i berson arall sydd â gofal am fangre, ac na ellir dod o hyd i gartref neu gyfeiriad hysbys diwethaf y person hwnnw ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, caniateir cyflwyno'r hysbysiad i'r person hwnnw drwy ei gyfeirio at "y meddiannydd" a'i adael wedi ei osod yn weladwy ar wrthrych yn y fangre am gyfnod o saith niwrnod.

(4) Caniateir i hysbysiad gael ei gyflwyno—

(a) yn achos corff corfforedig (heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig), i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff hwnnw,

(b) yn achos partneriaeth (heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, ond gan gynnwys partneriaeth Albanaidd), i bartner neu berson sy'n llywio neu'n rheoli busnes y bartneriaeth yng nghyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth, neu

(c) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, i aelod o'r bartneriaeth yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) At ddibenion paragraff (4), prif swyddfa cwmni a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth sy'n cyflawni busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw ei brif swyddfa neu ei phrif swyddfa yn y Deyrnas Unedig.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfeiriad cysylltu" ("*contact address*"), mewn perthynas â gweithredwr cofrestredig, yw—

(a) prif gyfeiriad y gweithredwr yn y gofrestr, neu

(b) unrhyw gyfeiriad post arall yng Nghymru y mae'r gweithredwr wedi ei roi i'r awdurdod priodol fel cyfeiriad cysylltu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad sydd i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion **[**[F99]neu'r awdurdod priodol**]** o dan y Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F98** Geiriau yn rhl. 37(3) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(4)(a)**

**F99** Geiriau yn rhl. 37(6) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Rhl. 37 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 11

## Troseddau ynglŷn â deddfwriaeth iechyd planhigion

### Cyffredinol

**38.**—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n torri'r canlynol, neu'n methu â chydymffurfio â hwy—

(a) rheoliad [F100]...26(1);

[F101](b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(c) paragraffau 2(1) neu (2), 5(1) neu (2), 11(1), 12(1), 13(1), 14(1), 15, 20(1), 21(7), 22(2), 27(1), 28(7), 29(2) neu 31(2) o Atodlen 2;

(d) un o ddarpariaethau **[**[F102]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;

(e) un o ddarpariaethau'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 (i'r graddau y mae'n gymwys i blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n destun un **[**[F103]o'r rheolau iechyd planhigion**]** );

(f) darpariaeth mewn unrhyw ddeddfwriaeth **[**[F104]uniongyrchol**]** arall yr UE **[**[F104]a ddargedwir**]** a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 3;

**[**[F105](fa) darpariaeth yn Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 a bennir yn Atodlen 3A**]**

[F106](g) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw beth a wneir o dan y canlynol, neu yn unol â hwy—

(a) awdurdodiad neu drwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn, neu sy'n cael effaith o dan y Rheoliadau hyn neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn;

(b) cymeradwyaeth a roddir o dan reoliad 13(6) neu gymeradwyaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 54(1);

(c) hysbysiad a roddir gan arolygydd iechyd planhigion neu awdurdod priodol o dan y Rheoliadau hyn, neu sy'n cael effaith o dan y Rheoliadau hyn neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F100** Geiriau yn rhl. 38(1)(a) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(a)**

**F101** Rhl. 38(1)(b) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(b)**

**F102** Gair yn rhl. 38(1)(d) wedi ei amnewid (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(c)**

**F103** Gair yn rhl. 38(1)(e) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(d)**

**F104** Geiriau yn rhl. 38(1)(f) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(e)**

**F105** Rhl. 38(1)(fa) wedi ei fewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(6)**

**F106** Rhl. 38(1)(g) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(2)(f)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Rhl. 38 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Methu â chydymffurfio â gofynion hysbysiadau etc.

**39.—[**[F107](1)**]** Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â'r canlynol—

(a) darpariaeth neu amod mewn hysbysiad a gyflwynwyd i'r person o dan y Rheoliadau hyn neu sy'n cael effaith o dan y Rheoliadau hyn neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn,

(b) darpariaeth neu amod mewn awdurdodiad neu drwydded a roddwyd i'r person o dan y Rheoliadau hyn neu sy'n cael effaith o dan y Rheoliadau hyn neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, neu

(c) darpariaeth neu amod mewn cyfarwyddyd a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

**[**[F108](2) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan Atodlen 4A.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F107** Rhl. 39(1): rhl. 39 wedi ei ailrifo fel rhl. 39(1) (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(5)(a)**

**F108** Rhl. 39(2) wedi ei fewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Rhl. 39 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Amddiffyniad: esgus rhesymol

**40.** Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan reoliad 38 neu 39 ddangos bod ganddo esgus rhesymol dros dorri'r gwaharddiad neu'r gofyniad o dan sylw neu dros fethu â chydymffurfio â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Rhl. 40 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol**

**41.** Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw, at ddibenion sicrhau awdurdodiad neu drwydded neu at ddibenion sicrhau y dyroddir pasbort planhigion[F109, label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon][F110y DU]neu dystysgrif—

(a) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn gwneud datganiad neu sylwadau sy'n ffug o ran manylyn perthnasol,

(b) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn darparu dogfen neu wybodaeth sy'n ffug o ran manylyn perthnasol, neu

(c) yn fwriadol yn methu â datgelu unrhyw wybodaeth berthnasol.

**Diwygiadau Testunol**

**F109** Geiriau yn rhl. 41 wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(7)**

**F110** Geiriau yn rhl. 41 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** Rhl. 41 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Defnyddio pasbortau planhigion [F111, labeli iechyd planhigion Gogledd Iwerddon]F112... neu dystysgrifau yn amhriodol**

**42.**—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn dyroddi pasbort planhigion [F113, label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon][F114y DU] neu dystysgrif yn anonest,

(b) yn newid pasbort planhigion [F113, label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon]F115...neu dystysgrif yn anonest, neu

(c) yn ailddefnyddio pasbort planhigion [F113, label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon]F116... neu dystysgrif yn anonest.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "tystysgrif" yw tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio, tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio neu dystysgrif cyn-allforio.

**Diwygiadau Testunol**

**F111** Geiriau ym mhennawd rhl. 42 wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(8)(a)**

**F112** Gair ym mhennawd rhl. 42 wedi ei hepgor (C.) (4.3.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(3)(a)**

**F113** Geiriau yn rhl. 42(1) wedi eu mewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(8)(b)**

**F114** Geiriau yn rhl. 42(1)(a)-(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(4)(b)**

**F115** Gair yn rhl. 42(1)(b) wedi ei hepgor (C.) (4.3.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(3)(b)**

**F116** Gair yn rhl. 42(1)(c) wedi ei hepgor (C.) (4.3.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Rhl. 42 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## Rhwystro

**43.**—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn fwriadol yn rhwystro arolygydd iechyd planhigion neu berson awdurdodedig sy'n gweithredu i weithredu neu orfodi **[**[F117]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol neu'r Rheoliadau hyn,

(b) heb esgus rhesymol, yn methu â rhoi i arolygydd iechyd planhigion neu berson awdurdodedig unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'n rhesymol i'r arolygydd neu'r person awdurdodedig eu gwneud yn ofynnol at y dibenion hynny, neu

(c) yn methu â dangos dogfen neu gofnod pan fo awdurdod priodol neu arolygydd iechyd planhigion sy'n gweithredu i weithredu neu orfodi **[**[F118]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol neu'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

**[**[F119](2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "person awdurdodedig" yw person a awdurdodwyd gan awdurdod priodol;

(b) mae cyfeiriad at y Rheoliad Iechyd Planhigion neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir a fabwysiedir, neu reoliadau a wneir, o dan y Rheoliad Iechyd Planhigion neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ac unrhyw gyfraith iechyd planhigion arall yr UE a ddargedwir.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F117** Gair yn rhl. 43(1)(a) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(5)(a)**

**F118** Gair yn rhl. 43(1)(c) wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(5)(a)**

**F119** Rhl. 43(2) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **12(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** Rhl. 43 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## Trosedd ynglŷn â datgelu gwybodaeth a ddelir gan Gyllid a Thollau

**44.** Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n datgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd oddi wrth Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o dan reoliad 34(1) ac—

(a) bod yr wybodaeth yn ymwneud â pherson y mae ei fanylion adnabod wedi eu pennu yn y datgeliad, neu y gellir eu casglu o'r datgeliad,

(b) bod y datgeliad yn ddatgeliad at ddiben heblaw'r un a bennir yn rheoliad 34(1), ac

(c) nad yw'r Comisiynwyr wedi rhoi eu cydsyniad i'r datgeliad ymlaen llaw.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I43** Rhl. 44 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Amddiffyniad: datgelu cyfreithlon**

**45.** Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan reoliad 44 brofi ei fod yn credu'n rhesymol—

(a) bod y datgeliad yn gyfreithlon, neu

(b) bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn flaenorol a hynny mewn modd cyfreithlon.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I44** Rhl. 45 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Troseddau gan gyrff corfforedig**

**46.**—(1) Pan fo trosedd o dan y Rhan hon **[**[F120]neu baragraff 22 o Atodlen 4A (methu â chydymffurfio ag hysbysiad stop)**]** wedi ei chyflawni gan gorff corfforedig ac y profir bod y drosedd—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

mae'r swyddog, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw—

(a) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath.

(3) Os yw materion corff corfforedig yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd ac anweithredoedd aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau'r aelod hwnnw o reoli fel y mae'n gymwys i un o swyddogion corff corfforedig.

**Diwygiadau Testunol**
**F120** Geiriau yn rhl. 46(1) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I45** Rhl. 46 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

**47.**—(1) Rhaid i achos am drosedd o dan y Rhan hon **[**[F121]neu baragraff 22 o Atodlen 4A (methu â chydymffurfio ag hysbysiad stop)**]** yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig gael ei ddwyn yn erbyn y bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achosion o'r fath—

(a) mae rheolau'r llys ynglŷn â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforedig, a

(b) mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (gweithdrefn ynglŷn â chyhuddiad o drosedd yn erbyn corfforaeth)(**18**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (corfforaethau)(**19**) yn gymwys mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu ar gymdeithas anghorfforedig wedi ei chollfarnu o drosedd o dan y Rhan hon i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Os profir bod trosedd o dan y Rhan hon a gyflawnwyd gan bartneriaeth—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner,

mae'r partner, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Ym mharagraff (4), mae "partner" yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

(6) Os profir bod trosedd o dan y Rhan hon a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth)—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad un o swyddogion y gymdeithas, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r fath,

mae'r swyddog, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig, yw—

(a) un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath.

**Diwygiadau Testunol**

**F121** Geiriau yn rhl. 47(1) wedi eu mewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Rhl. 47 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## Cosbau

**48.**—(1) Mae person sy'n euog o drosedd o dan reoliad 38(1), 39, 41, 42 neu 43 yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan reoliad 44 yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, i ddirwy neu i'r ddau;

(**18**) 1925 p. 86; diddymwyd adran 33 yn rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55), ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 19 o Atodlen 8 i Ddeddf Llysoedd 1971 (p. 23) a pharagraff 71 o Atodlen 8, ac Atodlen 10, i Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39) (yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn O.S. 2004/2066).

(**19**) 1980 p. 43; diwygiwyd Atodlen 3 gan Atodlen 13 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53) a pharagraff 51 o Atodlen 3, a Rhan 4 o Atodlen 37 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44).

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, i ddirwy neu i'r ddau.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I47** Rhl. 48 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## [F122 RHAN 11A

## Sancsiynau Sifil

**Diwygiadau Testunol**
**F122** Rhn. 11A wedi ei fewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhlau. 1, **2(8)**

### Sancsiynau sifil

**48A.** Mae Atodlen 4A (sy'n darparu ar gyfer sancsiynau sifil) yn cael effaith.**]**

## RHAN 12

## Amrywiol: iechyd planhigion

### Diwygiadau mân a chanlyniadol

**49.** Mae Atodlen 5 yn cynnwys diwygiadau mân a chanlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â marchnata hadau a deunydd lluosogi planhigion a ffioedd iechyd planhigion.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I48** Rhl. 49 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Dirymu offerynnau iechyd planhigion

**50.** Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 6 wedi eu dirymu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I49** Rhl. 50 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Darpariaethau trosiannol: trwyddedau o dan erthygl 39(1) o Orchymyn 2005 neu erthygl 41(1) o Orchymyn 2018

**51.**—(1) Mae unrhyw drwydded a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 39(1) o Orchymyn 2005 neu o dan erthygl 41(1) o Orchymyn 2018, sydd mewn grym yn union cyn y dyddiad cychwyn, yn cael effaith yn ystod y cyfnod perthnasol fel pe bai wedi ei rhoi gan yr awdurdod priodol

yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829 ar y dyddiad y'i rhoddwyd o dan Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn effeithio ar unrhyw beth a gyflawnwyd cyn y dyddiad cychwyn, o dan y drwydded neu at ddibenion y drwydded.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y drwydded at Orchymyn 2005, Gorchymyn 2018, Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC neu Gyfarwyddeb y Comisiwn 2008/61/EC i'w ddarllen fel cyfeiriad at y ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE neu'r Rheoliadau hyn neu o dan y Rheoliad hwnnw neu'r Rheoliadau hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/61/EC" ("*Commission Directive 2008/61/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/61/EC yn sefydlu o dan ba amodau y caniateir cyflwyno rhai organeddau niweidiol, planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a restrir yn Atodiadau I i V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC i'r Gymuned neu i barthau gwarchodedig penodol ynddi, neu eu symud yn y Gymuned neu'r parthau hynny, at ddibenion treialon neu ddibenion gwyddonol ac ar gyfer gwaith ar ddethol amrywogaethau(**20**);

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*"), mewn perthynas â thrwydded, yw—

(a) os yw'r drwydded yn dod i ben ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2020, y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad cychwyn ac sy'n diweddu ar 31 Rhagfyr 2020, neu

(b) os yw'r drwydded yn dod i ben cyn 31 Rhagfyr 2020, y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad cychwyn ac sy'n diweddu ar y dyddiad a bennir yn y drwydded i'r drwydded ddod i ben;

ystyr "Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829" ("*Commission Delegated Regulation (EU) 2019/829*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829 yn ategu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion, yn awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau dros dro oherwydd dibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dethol neu fridio amrywogaethau(**21**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** Rhl. 51 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Darpariaethau trosiannol: trwyddedau eraill o dan Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018**

**52.**—(1) Mae unrhyw drwydded a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 38(1)(a) o Orchymyn 2005 neu o dan erthygl 40(1)(a) o Orchymyn 2018 ac sy'n cael effaith ar y dyddiad cychwyn yn parhau mewn grym fel pe bai'n awdurdodiad a roddwyd gan yr awdurdod priodol o dan reoliad 21(1)(a) ar y dyddiad y rhoddwyd y drwydded o dan Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn effeithio ar unrhyw beth a gyflawnwyd cyn y dyddiad cychwyn, o dan y drwydded neu at ddibenion y drwydded.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y drwydded at Orchymyn 2005, Gorchymyn 2018 neu Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC i'w ddarllen fel cyfeiriad at y ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE neu'r Rheoliadau hyn neu o dan y Rheoliad hwnnw neu'r Rheoliadau hynny.

(**20**) OJ Rhif L 158, 18.6.2008, t. 41.
(**21**) OJ Rhif L 137, 23.5.2019, t. 15.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Rhl. 52 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Darpariaethau trosiannol: hysbysiadau

**53.**—(1) Mae unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan Orchymyn 2005, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Marcio Deunydd Pecynnu Pren) (Coedwigaeth) 2006(**22**) neu Orchymyn 2018 ac sy'n cael effaith ar y dyddiad cychwyn—

(a) yn parhau mewn grym ac yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi ei roi o dan y Rheoliadau hyn at ddiben cyfatebol ar y dyddiad y rhoddwyd ef o dan Orchymyn 2005, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Marcio Deunydd Pecynnu Pren) (Coedwigaeth) 2006 neu Orchymyn 2018 (yn ôl y digwydd), a

(b) i'w ddarllen gydag unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn iddo wneud hynny.

(2) Ym mharagraff (1), mae'r cyfeiriad at unrhyw hysbysiad o dan Orchymyn 2005, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Marcio Deunydd Pecynnu Pren) (Coedwigaeth) 2006 neu Orchymyn 2018 yn cynnwys unrhyw gymeradwyaeth swyddogol a roddwyd at ddibenion yr hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** Rhl. 53 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Darpariaethau trosiannol: cymeradwyaethau a roddwyd o dan erthygl 17(1) o Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018

**54.**—(1) Mae unrhyw gymeradwyaeth a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 17(1) o Orchymyn 2005 neu o dan erthygl 17(1) o Orchymyn 2018 sydd mewn grym yn union cyn y dyddiad cychwyn yn parhau mewn grym ac yn parhau i gael effaith yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "cyfnod perthnasol", mewn perthynas â chymeradwyaeth a roddwyd o dan erthygl 17(1) o Orchymyn 2005 neu Orchymyn 2018, yw—

(a) os yw'r gymeradwyaeth yn dod i ben ar neu ar ôl 13 Rhagfyr 2020, y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad cychwyn ac sy'n diweddu ar 13 Rhagfyr 2020, neu

(b) os yw'r gymeradwyaeth yn dod i ben cyn 13 Rhagfyr 2020, y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad cychwyn ac sy'n diweddu ar y dyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth i'r gymeradwyaeth ddod i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** Rhl. 54 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

(**22**) O.S. 2006/2695, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2019/734.

# RHAN 13

## Rheolaethau swyddogol mewn perthynas ag organeddau a addaswyd yn enetig

### Diwygio is-ddeddfwriaeth ar reolaethau swyddogol mewn perthynas ag organeddau a addaswyd yn enetig

**55.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(**23**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "deddfwriaeth berthnasol", yn lle "is-baragraffau (a), (c), (d), (e) ac (f)" rhodder "is-baragraffau (a) i (f)".

(3) Yn rheoliad 13(5)(b), yn y testun Cymraeg, ar ôl "bodlonir" mewnosoder "un".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** Rhl. 55 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2020

(**23**) O.S. 2020/44 (Cy. 5)

## F123 ATODLEN 1

Rheoliad 18

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F123** Atod. 1 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **13**

## ATODLEN 2

Rheoliad 23

# RHAN 1

## Dehongli cyffredinol

**1.** Yn yr Atodlen hon—

F124 ...

F124 ...

F124 ...

[F125 ystyr "EPPO PM 7/21" ("*EPPO PM 7/21*") yw'r safon sy'n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Ralstonia solanacearum*, *R. pseudosolanacearum* ac *R. syzygii* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor;

ystyr "EPPO PM 7/40" ("*EPPO PM 7/40*") yw'r safon sy'n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Globodera rostochiensis* a *Globodera pallida* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor;

ystyr "EPPO PM 7/59" ("*EPPO PM 7/59*") yw'r safon sy'n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Clavibacter michiganensis* subsp. *sepedonicus* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor;

ystyr "EPPO PM 7/119" ("*EPPO PM 7/119*") yw'r safon sy'n disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer echdynnu nematodau a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor;.**]**

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le, gan gynnwys unrhyw dir, adeilad, cerbyd, llestr, awyren, hofrenfad, cynhwysydd llwythi, wagen reilffordd, trelar neu adeilad neu adeiledd symudol;

ystyr "Pydredd coch tatws" ("*Potato brown rot*") yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al.* neu'r bacteriwm hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr "Pydredd cylch tatws" ("*Potato ring rot*") yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan y bacteriwm *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis *et al.* spp. *Sependonicus* (Spieckermann a Kotthof) Davis *et al*. neu'r bacteriwm hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr "Rheoliadau Tatws Hadyd" ("*Seed Potatoes Regulations*") yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**24**);

(**24**) O.S. 2016/106 (Cy. 52).

ystyr "taten" ("*potato*") yw unrhyw gloronen neu wir had neu unrhyw blanhigyn arall o *Solanum tuberosum* L, neu unrhyw rywogaeth arall o'r genws *Solanum L.* sy'n ffurfio cloron.

**Diwygiadau Testunol**

**F124** Geiriau yn Atod. 2 para. 1 wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **15(2)(a)**

**F125** Geiriau yn Atod. 2 para. 1 wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **15(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I55** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 2

## Darpariaethau cyffredinol ynglŷn â phlannu rhywogaethau mochlysaidd penodol

### Cyfyngiadau cyffredinol ar blannu tatws

**2.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson fynd ati'n fwriadol i blannu'r canlynol, nac achosi na chaniatáu'n fwriadol iddynt gael eu plannu—

(a) unrhyw datws a dyfwyd mewn trydedd wlad **[**[F126]y mae'r gwaharddiad yn Erthygl 40(1) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion yn gymwys iddynt**]**, neu

(b) unrhyw datws a gynhyrchir o'r tatws hynny.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd ati'n fwriadol i blannu unrhyw datws, nac achosi na chaniatáu'n fwriadol iddynt gael eu plannu oni bai—

(a) eu bod yn tarddu mewn llinell uniongyrchol o ddeunydd tatws sydd wedi ei gael o dan **[**[F127]raglen ar gyfer ardystio tatws a gymeradwywyd yn swyddogol gan awdurdod cymwys neu awdurdod Tiriogaeth Ddibynnol y Goron**]** ,

(b) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd cylch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn **[**[F128]EPPO PM 7/21**]**, ac

(c) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Pydredd coch tatws mewn profion swyddogol gan ddefnyddio'r dulliau a nodir yn **[**[F129]EPPO PM 7/59**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F126** Geiriau yn Atod. 2 para. 2(1)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **16(2)(a)**

**F127** Geiriau yn Atod. 2 para. 2(2)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **16(2)(b)(i)**

**F128** Geiriau yn Atod. 2 para. 2(2)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **16(2)(b)(ii)**

**F129** Geiriau yn Atod. 2 para. 2(2)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **16(2)(b)(iii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I56** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 3

## Mesurau i reoli Clefyd y ddafaden tatws

### Dehongli

**3.** Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "Clefyd y ddafaden tatws" yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan y ffwng *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival neu'r ffwng hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

(b) mae llain o dir i'w hystyried yn llain halogedig os bydd prawf swyddogol yn cadarnhau bod Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol ar o leiaf un planhigyn sy'n tyfu neu a dyfwyd ar y llain honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I57** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau swyddogol ynglŷn â lleiniau tir halogedig

**4.**—(1) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion ddarnodi unrhyw lain halogedig a pharth diogelwch o amgylch y llain honno sy'n ddigon mawr i sicrhau diogelwch yr ardal o'i hamgylch.

(2) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad o dan reoliad 15(1) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gloron neu wlydd tatws sy'n bresennol ar y llain halogedig neu sydd wedi dod o'r llain halogedig, gael eu trin mewn modd sy'n sicrhau bod Clefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol arnynt yn cael ei ddinistrio.

(3) Pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni bod unrhyw gloron neu wlydd tatws wedi eu halogi â Chlefyd y ddafaden tatws ac na all yr arolygydd ganfod a fu'r cloron neu'r gwlydd hynny yn bresennol ar lain halogedig, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad o dan reoliad 15(1) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swp cyfan sy'n cynnwys y cloron neu'r gwlydd yr effeithiwyd arnynt gael ei drin mewn modd sy'n sicrhau nad oes risg y bydd Clefyd y ddafaden tatws yn lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I58** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Gwahardd plannu tatws ar leiniau halogedig

**5.**—(1) Pan fo llain halogedig wedi ei darnodi o dan baragraff 4(1), ni chaiff unrhyw berson—

(a) tyfu unrhyw datws ar y llain, neu

(b) tyfu neu storio ar y llain unrhyw blanhigion a fwriedir i'w trawsblannu.

(2) Ni chaiff unrhyw berson dyfu tatws mewn parth diogelwch a ddarnodir o dan baragraff 4(1) oni bai bod arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni eu bod o rywogaeth sydd ag ymwrthedd i'r hiliau o Glefyd y ddafaden tatws a geir ar y llain halogedig y mae'r parth diogelwch yn ymwneud â hi.

(3) Bernir bod amrywogaeth tatws yn un sydd ag ymwrthedd i hil benodol o Glefyd y ddafaden tatws at ddibenion is-baragraff (2) pan fo'r amrywogaeth honno yn adweithio i halogiad gan gyfrwng pathogenig yr hil honno mewn modd sy'n sicrhau nad oes perygl o sgil-heintio.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I59** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Dirymu darnodiad llain halogedig**

**6.** Pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni nad yw Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol mwyach ar lain a ddarnodir o dan baragraff 4(1) neu ar ei pharth diogelwch cysylltiedig, rhaid i'r arolygydd ddirymu'r darnodiad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I60** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 4

## Mesurau i reoli poblogaethau Ewropeaidd o Lyngyr tatws

**Dehongli**

**7.** Yn y Rhan hon—

ystyr "bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible bulbs*") yw bylbiau, cloron neu risomau, a dyfwyd mewn pridd ac a fwriedir i'w plannu, o *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L., *Dahlia* spp., *Gladiolus* Tourn. Ex L., *Hyacinthus* spp., *Iris* spp., *Lilium* spp., *Narcissus* L. neu *Tulipa* L., heblaw'r rhai y ceir tystiolaeth drwy gyfrwng eu pecynnau neu drwy ddulliau eraill y bwriedir iddynt gael eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud yn broffesiynol â chynhyrchu planhigion neu flodau wedi eu torri;

ystyr "cae" ("*field*") yw ardal sydd wedi ei darnodi fel cae at ddibenion **[**[F130]y Rhan hon**]**;

ystyr "cae a heigiwyd" ("*infested field*") yw cae y cofnodwyd ei fod wedi ei heigio yn unol â pharagraff 9(1);

ystyr "deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible material*") yw planhigion cynhaliol, bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad o dan reoliad 15(1);

ystyr "Llyngyr tatws" ("*Potato cyst nematode*") yw unrhyw lyngyr sy'n ffurfio systiau o'r rhywogaeth *Globodera pallida* (Stone) Behrens neu *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens sy'n heigio ac yn lluosogi ar datws, gan gynnwys unrhyw fath neu bathoteip o lyngyr o'r fath;

**[**[F131]ystyr "mesurau penodedig" ("*specified measures*") yw—

(a) at ddibenion paragraff 9(2), ail-samplu swyddogol y cae a chynnal profion swyddogol ar y samplau, a gynhelir o leiaf bob tair blynedd ar ôl gweithredu mesurau rheoli priodol a gymeradwywyd yn swyddogol yn y cae neu, yn unrhyw achos arall, o leiaf bum mlynedd ar ôl y flwyddyn y canfuwyd Llyngyr tatws neu y tyfwyd tatws ddiwethaf yn y cae ynddi;

(b) at ddibenion paragraffau 11(3) a 15—

(i) dadheigio'r bylbiau neu'r planhigion drwy ddulliau priodol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Llyngyr tatws;

(ii) symud pridd oddi ar y bylbiau neu'r planhigion drwy eu golchi neu eu brwsio hyd nes eu bod yn rhydd rhag pridd i bob pwrpas, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Llyngyr tatws;**]**

ystyr "planhigion cynhaliol" ("*host plants*") yw planhigion ac iddynt wreiddiau *Capsicum* spp., *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L.;

ystyr "planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible plants*") yw planhigion ac iddynt wreiddiau *Allium porrum* L., *Asparagus officinalis* L., *Beta vulgaris* L., *Brassica* spp. neu *Fragaria* L.

**Diwygiadau Testunol**

**F130** Geiriau yn Atod. 2 para. 7 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(2)(a)**

**F131** Geiriau yn Atod. 2 para. 7 wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I61** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### [F132 Profion swyddogol

**7A.** Rhaid cynnal unrhyw brofion swyddogol ar samplau at ddibenion y Rhan hon yn unol ag EPPO PM 7/40 ac EPPO PM 7/119.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F132** Atod. 2 para. 7A wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(3)**

### Ymchwiliadau ac arolygon swyddogol

**8.—[**F133 (1)**]** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod ymchwiliadau swyddogol yn cael eu cynnal yn unol **[**F134 â'r Rhan hon**]** ar gyfer presenoldeb Llyngyr tatws mewn caeau y bwriedir plannu neu storio ynddynt datws hadyd neu ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu planhigion i'w plannu, a

(b) bod arolygon swyddogol yn cael eu cynnal yn unol **[**F135 â'r Rhan hon**]** ar gyfer presenoldeb Llyngyr tatws mewn caeau a ddefnyddir i gynhyrchu tatws, heblaw'r rhai a fwriedir ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd.

**[**F136 (2) Rhaid i ymchwiliad swyddogol i gae at ddibenion paragraff 8(1)(a) gael ei gynnal—

(a) cyn y plannu neu storio arfaethedig, a

(b) oni bai bod tystiolaeth ddogfennol o ymchwiliad swyddogol blaenorol sy'n cadarnhau na chanfuwyd unrhyw Lyngyr tatws yn ystod yr ymchwiliad ac nad oedd tatws na phlanhigion cynhaliol yn bresennol ar adeg yr ymchwiliad hwnnw ac nad ydynt wedi eu tyfu yn y cae ers yr ymchwiliad hwnnw, rhwng cynaeafu'r cnwd diwethaf yn y cae a'r gwaith arfaethedig o blannu tatws hadyd neu ddeunydd arall sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau.

(3) Yn achos cae lle y mae tatws hadyd neu blanhigion cynhaliol, y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, i'w plannu neu eu storio, rhaid i ymchwiliad swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(a) gynnwys samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu pridd briodol a chynnal profion swyddogol ar y samplau.

(4) Yn achos cae lle y mae bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, i'w plannu neu eu storio, rhaid i ymchwiliad swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(a) gynnwys—

(a) samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu pridd briodol a chynnal profion swyddogol ar y samplau, neu

(b) gwirio, ar sail canlyniadau profion priodol a gymeradwywyd yn swyddogol, na fu Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae yn ystod y 12 mlynedd flaenorol neu wirio, ar sail hanes cnydio hysbys y cae, na thyfwyd unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol yn y cae yn ystod y 12 mlynedd flaenorol.

(5) Rhaid i arolwg swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(b) gynnwys samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu briodol ar o leiaf 0.5% o'r erwau a ddefnyddir i gynhyrchu tatws yn y flwyddyn berthnasol a chynnal profion swyddogol ar y samplau.

(6) Nid yw paragraff 8(1)(a) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw risg o ledaenu Llyngyr tatws ac—

(a) bod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y bwriedir ei ddefnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu i'w ddefnyddio o fewn yr un man cynhyrchu sydd wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei diffinio yn swyddogol,

(b) bod tatws hadyd i'w defnyddio o fewn yr un man cynhyrchu sydd wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei diffinio yn swyddogol, neu

(c) yn achos unrhyw fylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, bod y planhigion a gynaeafir i fod yn destun mesurau a gymeradwywyd yn swyddogol.

(7) At ddibenion is-baragraffau (3) i (5)—

(a) "y gyfradd samplu briodol", mewn perthynas â chae, yw'r gyfradd samplu ofynnol a bennir yn y tabl a ganlyn—

| *Is-baragraff* | *Cae* | *Y Gyfradd* | |
|---|---|---|---|
| (3) a (4) | Cae ≤ 8 hectar | 1,500 ml o bridd fesul hectar a gesglir o 100 craidd/hectar o leiaf | |
| | Cae > 8 hectar | Yr 8 hectar cyntaf | 1,500 ml o bridd fesul hectar |
| | | Pob hectar ychwanegol | 400 ml o bridd fesul hectar |
| | Cae ≤ 4 hectar sy'n bodloni un maen prawf o leiaf ym mharagraff (b) | 400 ml o bridd fesul hectar | |
| | Cae > 4 hectar sy'n bodloni un maen prawf o leiaf ym mharagraff (b) | Y 4 cyntaf hectar | 400 ml o bridd fesul hectar |

| *Is-baragraff* | *Cae* | *Y Gyfradd* | |
|---|---|---|---|
| | | Pob hectar ychwanegol | 200 ml o bridd fesul hectar |
| (5) | Cae ≤ 4 hectar | Unrhyw un neu ragor o'r cyfraddau a ganlyn:<br><br>—400 ml o bridd fesul hectar<br><br>—gwaith samplu wedi ei dargedu ar o leiaf 400 ml o bridd yn dilyn cynnal archwiliad gweledol o wreiddiau sydd â symptomau gweledol, neu<br><br>—pan fo'n bosibl olrhain y tatws a gynaeafwyd i'r cae lle y'u tyfwyd, 400 ml o bridd sy'n gysylltiedig â'r tatws a gynaeafwyd. | |

(b) y meini prawf yw—

(i) bod tystiolaeth ddogfennol yn bodoli i ddangos nad yw tatws na phlanhigion cynhaliol wedi eu tyfu yn y cae yn y chwe mlynedd cyn yr ymchwiliad swyddogol, neu nad oeddent yn bresennol yn y cae yn ystod y cyfnod hwnnw;

(ii) nad oes unrhyw Lyngyr tatws wedi eu canfod yn ystod y ddau ymchwiliad swyddogol olynol diweddaraf mewn samplau o 1,500 ml o bridd/hectar, ac nad oes unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol, ac eithrio'r rhai y mae'r ymchwiliad swyddogol yn ofynnol ar eu cyfer, wedi eu tyfu yn y cae ers y cyntaf o'r ddau ymchwiliad hynny;

(iii) nad oes unrhyw Lyngyr tatws na Llyngyr tatws heb gynnwys byw wedi eu canfod yn yr ymchwiliad swyddogol diweddaraf a oedd ar ffurf maint sampl o 1,500 ml o bridd/hectar o leiaf, ac nad oes unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol, ac eithrio'r rhai y mae'r ymchwiliad swyddogol yn ofynnol ar eu cyfer, wedi eu tyfu yn y cae ers yr ymchwiliad swyddogol diweddaraf.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F133** Atod. 2 para. 8(1): Atod. 2 para. 8 wedi ei ailrifo fel Atod. 2 para. 8(1) (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(5)**

**F134** Geiriau yn Atod. 2 para. 8(a) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(4)(a)**

**F135** Geiriau yn Atod. 2 para. 8(b) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(4)(b)**

**F136** Atod. 2 para. 8(2)-(7) wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I62** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Cofnodion swyddogol ymchwiliadau ac arolygon

**9.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canlyniadau pob ymchwiliad swyddogol neu arolwg swyddogol a gynhelir yn unol â pharagraff 8 yn cael eu cofnodi i ddangos a ganfuwyd Llyngyr tatws yn y caeau yn ystod yr ymchwiliad neu'r arolwg.

(2) Pan fo'r mesurau **[**[F137]penodedig perthnasol**]** wedi eu cymryd mewn cae y cofnodwyd ei fod wedi ei heigio yn unol ag is-baragraff (1) ac, ar ôl cwblhau'r mesurau hynny, y cadarnheir yn swyddogol nad oes Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae mwyach, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F137** Geiriau yn Atod. 2 para. 9(2) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I63** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Hysbysiadau mewn perthynas â chaeau a heigiwyd a deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a halogwyd

**10.**—(1) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd neu i'r person arall sydd â gofal am gae a heigiwyd, sy'n pennu ffiniau'r cae a heigiwyd.

(2) Ni chaniateir tynnu'r hysbysiad yn ôl hyd nes y cadarnheir, yn unol â pharagraff 9(2) nad oes Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae mwyach.

(3) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion, drwy hysbysiad, ddynodi bod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n dod o gae y cofnodwyd yn swyddogol ei fod wedi ei heigio o dan baragraff 9(1) neu unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sydd wedi bod mewn cysylltiad â phridd lle cafwyd Llyngyr tatws yn ddeunydd halogedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I64** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Gwahardd plannu tatws mewn caeau a heigiwyd

**11.**—(1) Oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd, ni chaiff unrhyw berson—

(a) plannu unrhyw datws y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu tatws hadyd mewn cae a heigiwyd, neu

(b) plannu neu storio unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y bwriedir ei blannu mewn cae a heigiwyd.

(2) Caiff arolygydd iechyd planhigion awdurdodi plannu bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau mewn cae a heigiwyd.

(3) Rhaid i awdurdodiad o dan is-baragraff (2) gael ei roi drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys **[**[F138]un o'r mesurau penodedig perthnasol**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F138** Geiriau yn Atod. 2 para. 11(3) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I65** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Atal Llyngyr tatws

**12.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws mewn cae a heigiwyd nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd iechyd planhigion.

(2) Rhaid i awdurdodiad o dan is-baragraff (1) gael ei roi drwy hysbysiad a dim ond os yw'r arolygydd wedi ei fodloni bod pob cam rhesymol i atal Llyngyr tatws yn y cae wedi eu cymryd yn unol â'r rhaglen reoli swyddogol a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer atal Llyngyr tatws y caniateir iddo gael ei roi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I66** Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Rheolaethau ar datws hadyd halogedig etc.

**13.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws hadyd nac unrhyw blanhigion cynhaliol sydd wedi eu dynodi yn halogedig yn unol â pharagraff 10(3), oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

(2) Rhaid i awdurdodiad o dan is-baragraff (1) gael ei roi drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau sy'n angenrheidiol ym marn yr arolygydd i ddihalogi'r tatws hadyd neu'r planhigion cynhaliol hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I67** Atod. 2 para. 13 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Rheolaethau ar datws ar gyfer prosesu neu raddio diwydiannol

**14.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw datws a ddynodwyd yn halogedig yn unol â pharagraff 10(3) ac a fwriedir ar gyfer prosesu neu raddio diwydiannol, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

(2) Rhaid i awdurdodiad o dan is-baragraff (1) gael ei roi drwy hysbysiad a rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i'r tatws gael eu danfon i safle prosesu neu raddio sydd â gweithdrefnau gwaredu gwastraff priodol a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes risg y bydd Llyngyr tatws yn lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I68** Atod. 2 para. 14 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Rheolaethau ar fylbiau halogedig etc.**

**15.** Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw fylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sydd wedi eu dynodi fel rhai a halogwyd yn unol â pharagraff 10(3), oni bai eu bod wedi bod yn destun **[**F139un o'r mesurau penodedig perthnasol**]** a bod arolygydd wedi cadarnhau drwy hysbysiad nad ydynt wedi eu halogi mwyach.

**Diwygiadau Testunol**

**F139** Geiriau yn Atod. 2 para. 15 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **17(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I69** Atod. 2 para. 15 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Ymchwiliadau pellach ar gyfer presenoldeb llyngyr tatws**

**16.** Os yw unrhyw achos a amheuir o Lyngyr tatws neu unrhyw achos o bresenoldeb Llyngyr tatws a gadarnhawyd yn deillio o fethiant neu newid o ran effeithiolrwydd amrywogaeth tatws sydd ag ymwrthedd sy'n ymwneud â newid eithriadol o ran cyfansoddiad rhywogaethau llyngyr, pathodeipiau neu grwpiau gwenwyndra, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cynhelir drwy ddulliau priodol ymchwiliad i'r rhywogaeth o Lyngyr tatws dan sylw a, pan fo'n gymwys, y pathoteip a'r grŵp gwenwyndra dan sylw, a'u bod yn cael eu cadarnhau drwy ddulliau priodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I70** Atod. 2 para. 16 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 5

## Mesurau i reoli Pydredd cylch tatws

**Dehongli**

**17.** Yn y Rhan hon—

ystyr "blwyddyn dyfu gyntaf" ("*first growing year*"), yn achos mesurau sydd i'w cymryd mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig, yw'r flwyddyn dyfu gyntaf yn dilyn y flwyddyn dyfu pryd y dynodir y man cynhyrchu yn halogedig **[**F140yn unol â pharagraff 19(1)(a)**]**;

ystyr "deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible material*") yw cloron neu blanhigion *Solanum tuberosum* L.;

ystyr "gwrthrych" ("*object*") yw unrhyw beiriant, cerbyd, llestr, storfa neu wrthrych arall, gan gynnwys deunydd pecynnu;

ystyr "halogedig" ("*contaminated*") yw wedi ei dynodi'n halogedig gan arolygydd iechyd planhigion **[**F140yn unol â pharagraff 19(1)(a)**]** ;

ystyr "halogedig o bosibl" ("*possibly contaminated*") yw wedi ei bennu'n halogedig o bosibl gan arolygydd iechyd planhigion **[**F141yn unol â pharagraff 19(1)(b)**]**;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*"), mewn perthynas â hysbysiad sydd i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion, yw hysbysiad o dan reoliad 15(1);

ystyr "parth" ("*zone*") yw unrhyw ardal, gan gynnwys unrhyw fangre unigol;

ystyr "tatws hadyd ardystiedig" ("*certified seed potatoes*") yw tatws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig o fewn yr ystyr a nodir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Tatws Hadyd.

**Diwygiadau Testunol**

**F140** Geiriau yn Atod. 2 para. 17 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(2)(a)**

**F141** Geiriau yn Atod. 2 para. 17 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I71** Atod. 2 para. 17 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Arolygon a phrofion swyddogol

**18.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod arolygon swyddogol systemataidd ar gyfer Pydredd cylch tatws yn cael eu cynnal yng Nghymru ar gloron *Solanum tuberosum* L. a, pan fo'n briodol, ar blanhigion *Solanum tuberosum* L.[F142]....

**[**[F143](1A) Yn achos cloron *Solanum tuberosum* L., rhaid i'r arolygon hynny gynnwys cynnal profion swyddogol ar samplau o datws hadyd a thatws eraill yn unol ag EPPO PM 7/59.

(1B) Yn achos planhigion *Solanum tuberosum* L., rhaid cynnal yr arolygon hynny yn unol â dulliau priodol, a rhaid iddynt gynnwys cynnal profion swyddogol priodol ar samplau.

(1C) Rhaid i'r gwaith o gasglu samplau at ddibenion is-baragraffau (1A) ac (1B) fod yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol ac ystadegol cadarn a bioleg Pydredd cylch tatws, ac ystyried systemau cynhyrchu tatws perthnasol.**]**

(2) Pan amheuir bod Pydredd cylch tatws yn bresennol mewn deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod profion swyddogol yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**[F144]EPPO PM 7/59**]** i gadarnhau a yw'n bresennol ai peidio,

(b) bod y canlynol yn cael eu cadw a'u diogelu'n briodol tra disgwylir i'r profion swyddogol gael eu cwblhau—

(i) yr holl gloron a samplwyd, a lle bynnag y bo'n bosibl, yr holl blanhigion a samplwyd;

(ii) unrhyw echdyniad sy'n weddill a deunydd paratoi ychwanegol ar gyfer y profion sgrinio;

(iii) yr holl ddogfennaeth berthnasol, ac

(c) hyd nes y cadarnheir ei fod yn bresennol neu y gwrthbrofir yr amheuaeth ei fod yn bresennol, pan fo symptomau gweledol diagnostig sy'n peri amheuaeth ynghylch presenoldeb Pydredd cylch tatws wedi eu gweld, neu pan fo symptomau Pydredd cylch tatws wedi eu canfod gan brawf imiwnofflworoleuedd cadarnhaol neu brawf cadarnhaol priodol arall—

(i) bod symud yr holl lotiau neu lwythi y cymerwyd y samplau ohonynt, heblaw'r rhai sydd o dan reolaeth swyddogol, yn cael ei wahardd, ac eithrio pan gadarnhawyd nad oes risg adnabyddadwy y bydd Pydredd cylch tatws yn lledaenu,

(ii) bod camau'n cael eu cymryd i olrhain tarddiad yr achos a amheuir, a

(iii) bod camau rhagofalus priodol ychwanegol sy'n seiliedig ar lefel y risg a amcangyfrifir yn cael eu cymryd i atal y pla planhigion rhag lledaenu.

(3) Caiff hysbysiad gynnwys mesurau at ddibenion is-baragraff (2)(c)(i) i (iii).

**Diwygiadau Testunol**

**F142** Geiriau yn Atod. 2 para. 18(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(3)(a)**

**F143** Atod. 2 para. 18(1A)-(1C) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(3)(b)**

**F144** Geiriau yn Atod. 2 para. 18(2)(a) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(3)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I72** Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Mesurau i'w cymryd yn dilyn cadarnhau presenoldeb Pydredd cylch tatws**

**19.**—(1) Os yw presenoldeb Pydredd cylch tatws yn cael ei gadarnhau mewn sampl o ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn dilyn profion swyddogol a gynhelir yn unol â pharagraff 18(2)(a) neu is-baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod y deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, y llwyth neu'r lot ac unrhyw wrthrych y cymerwyd y sampl ohono a, pan fo'n briodol, y man cynhyrchu a'r cae y cynaeafwyd y deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ohonynt, yn cael eu dynodi yn halogedig gan arolygydd iechyd planhigion;

(b) bod arolygydd iechyd planhigion yn canfod graddau'r halogi tebygol drwy gysylltiad cyn neu ar ôl cynaeafu neu drwy unrhyw gyswllt cynhyrchu ag unrhyw beth a ddynodir yn halogedig o dan baragraff (a), gan **[**[F145]roi sylw i'r ffactorau a ganlyn— ;

(i) y deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a dyfir yn y man cynhyrchu halogedig;

(ii) y mannau cynhyrchu sydd ag unrhyw gysylltiad cynhyrchu â'r deunydd hwnnw sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu cyfarpar a chyfleusterau cynhyrchu yn uniongyrchol neu drwy gontractwr sy'n gyffredin rhyngddynt;

(iii) cynhyrchu deunydd arall sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn y man cynhyrchu halogedig, neu bresenoldeb deunydd o'r fath yn y man hwnnw;

(iv) y mangreoedd sy'n trafod tatws o'r man cynhyrchu halogedig a'r mannau cynhyrchu a grybwyllir yn is-baragraff (ii);

(v) unrhyw wrthrych a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r deunydd halogedig sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau;

(vi) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a gaiff ei storio mewn unrhyw wrthrych cyn iddo gael ei ddiheintio, neu ddeunydd o'r fath sydd wedi dod i gysylltiad ag unrhyw wrthrych o'r fath;

(vii) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n perthyn fel chwaer neu riant drwy glonio i'r deunydd halogedig sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a mannau cynhyrchu'r deunydd hwnnw;**]**

(c) bod parth yn cael ei ddarnodi gan arolygydd iechyd planhigion ar sail y dynodiad a wneir o dan baragraff (a), gan ystyried **[**[F146]agosrwydd mannau cynhyrchu eraill sy'n tyfu tatws neu blanhigion cynhaliol eraill a chynhyrchu a defnyddio stociau tatws hadyd ar y cyd**]**.

**[**[F147](1A) Wrth wneud dynodiad neu benderfyniad o dan is-baragraff (1), rhaid i arolygydd roi sylw i egwyddorion gwyddonol cadarn, bioleg Pydredd cylch tatws a systemau cynhyrchu, marchnata a phrosesu perthnasol.**]**

(2) Pan fo deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau wedi ei ddynodi yn halogedig o dan is-baragraff (1)(a), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cynhelir profion ar stociau tatws sy'n perthyn drwy glonio i'r deunydd hwnnw sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn y dull a bennir ym mharagraff 18(2)(a) er mwyn canfod prif ffynhonnell debygol yr haint, a graddau'r halogi tebygol.

(3) Rhaid cynnal unrhyw brofion o'r fath ar faint bynnag o ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ag sy'n angenrheidiol i ganfod prif ffynhonnell debygol yr haint, a graddau'r halogi tebygol.

(4) Rhaid i unrhyw ddynodiad gan arolygydd iechyd planhigion o dan y paragraff hwn hon gael ei wneud drwy hysbysiad.

(5) Pan fo arolygydd iechyd planhigion yn canfod o dan is-baragraff (1)(b) fod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, neu unrhyw wrthrych, yn halogedig o bosibl, rhaid i'r arolygydd ddynodi drwy hysbysiad fod y deunydd hwnnw neu'r gwrthrych hwnnw yn halogedig o bosibl.

**Diwygiadau Testunol**

**F145** Geiriau yn Atod. 2 para. 19(1)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(4)(a)**

**F146** Geiriau yn Atod. 2 para. 19(1)(c) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(4)(b)**

**F147** Atod. 2 para. 19(1A) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(4)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I73** Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Cyfyngiadau mewn perthynas â deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrychau sy'n halogedig neu sy'n halogwyd o bosibl â Phydredd cylch tatws

**20.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson fynd ati'n fwriadol i blannu'r canlynol, nac achosi na chaniatáu'n fwriadol iddynt gael eu plannu—

(a) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig, neu

(b) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig o bosibl.

(2) Pan fo deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrych wedi eu dynodi'n halogedig neu'n halogedig o bosibl o dan baragraff 19(1) neu (5), rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol—

(a) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig, i'r deunydd gael ei waredu drwy ei ddinistrio neu drwy **[**[F148]ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws**]**;

(b) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig o bosibl, i'r deunydd gael ei ddefnyddio neu ei waredu **[**F149mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws**]**;

(c) yn achos gwrthrych sy'n halogedig neu wrthrych sy'n halogedig o bosibl, i'r gwrthrych—

(i) cael ei waredu drwy ei ddinistrio, neu

(ii) cael ei lanhau a'i ddiheintio fel nad oes risg adnabyddadwy y bydd Pydredd cylch tatws yn goroesi neu'n lledaenu.

(3) Ni chaniateir i ddim byd a lanhawyd ac a ddiheintiwyd yn unol ag is-baragraff (2)(c)(ii) gael ei drin mwyach fel pe bai'n halogedig at ddibenion **[**F150y Rhan hon**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F148** Geiriau yn Atod. 2 para. 20(2)(a) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(5)(a)(i)**

**F149** Geiriau yn Atod. 2 para. 20(2)(b) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(5)(a)(ii)**

**F150** Geiriau yn Atod. 2 para. 20(3) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I74** Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig

**21.**—(1) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno'r hysbysiadau a ganlyn i unrhyw feddiannydd neu berson arall sydd â gofal am fan cynhyrchu halogedig—

(a) mewn perthynas ag unrhyw gae halogedig sy'n rhan o'r man cynhyrchu, hysbysiad yn cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu neu hysbysiad yn cynnwys yr ail gyfres o fesurau dileu;

(b) mewn perthynas ag unrhyw gae sy'n rhan o'r man cynhyrchu ond nad yw'n halogedig, hysbysiad yn cynnwys y drydedd set o fesurau dileu.

(2) Dyma'r set gyntaf o fesurau dileu—

(a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am o leiaf dair blwyddyn dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws,

(b) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae yn ystod y cyfnod hwnnw—

(i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;

(ii) planhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws;

(iii) cnydau lle ceir risg mewn cysylltiad â hwy y bydd Pydredd cylch tatws yn lledaenu,

(c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod y tymor cnydio tatws cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, a bod y tatws dim ond yn cael eu plannu os canfuwyd bod y cae yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws am o leiaf ddwy flwyddyn dyfu yn olynol cyn plannu, a bod y cloron a gynaeafwyd yn destun profion swyddogol gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**F151EPPO PM 7/59**]**, a

(d) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod y tymor cnydio tatws nesaf yn dilyn cylch cylchdroi priodol (rhaid i'r cylch hwnnw fod o leiaf ddwy flynedd pan fo'r tatws i'w plannu i gynhyrchu tatws hadyd).

(3) Dyma'r ail set o fesurau dileu—

(a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am bedair blwyddyn dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws,

(b) gofyniad bod y cae yn cael ei gadw, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn fraenar neu'n dir pori parhaol, gan dorri'r borfa yn fyr neu bori'r tir yn ddwys yn fynych, ac

(c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta y caniateir eu plannu yn ystod y tymor cnydio tatws cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, a bod y tatws dim ond yn cael eu plannu os canfuwyd bod y cae yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws am o leiaf ddwy flwyddyn dyfu yn olynol cyn plannu, a bod y cloron a gynaeafwyd yn destun profion swyddogol gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**[F152]EPPO PM 7/59**]**.

(4) Dyma'r drydedd set o fesurau dileu—

(a) pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni bod y risg o blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws wedi ei ddileu, gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am y flwyddyn dyfu gyntaf—

(i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws,

(ii) planhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws, a

(iii) tatws hadyd ardystiedig, oni bai eu bod ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta yn unig,

(b) gofyniad mai dim ond y tatws a ganlyn y caniateir eu plannu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y flwyddyn dyfu ganlynol—

(i) tatws hadyd ardystiedig, a

(ii) tatws hadyd a brofwyd yn swyddogol ar gyfer absenoldeb Pydredd cylch tatws ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n fan cynhyrchu halogedig,

(c) gofyniad mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol o datws hadyd ardystiedig y caniateir eu plannu i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn ystod o leiaf y drydedd flwyddyn dyfu, a

(d) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad hyd at ddiwedd y drydedd flwyddyn dyfu er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws a gofyniad bod profion swyddogol yn cael eu cynnal ar y cloron a gynaeafwyd ym mhob cae gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**[F153]EPPO PM 7/59**]**.

(5) Rhaid hefyd i hysbysiad a gyflwynir gan arolygydd iechyd planhigion o dan is-baragraff (1)(a) sy'n cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu—

(a) cynnwys gofyniad bod rhaid i'r holl beiriannau a chyfleusterau storio yn y man cynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu tatws gael eu glanhau a'u diheintio ar unwaith ac yn dilyn y flwyddyn dyfu gyntaf, a

(b) pennu'r dulliau priodol ar gyfer glanhau a diheintio'r peiriannau a'r cyfleusterau storio.

(6) Caniateir i'r mesurau y caiff eu pennu mewn hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (5) gael eu cynnwys mewn hysbysiad gyda mesurau priodol eraill.

(7) Rhaid i'r person y cyflwynir hysbysiad iddo yn unol ag is-baragraff (1) sicrhau bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn cael eu cymryd yn y modd gofynnol.

(8) Pan fo arolygydd iechyd planhigion yn cyflwyno hysbysiad yn cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod arolwg swyddogol yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r cae a grybwyllir yn is-baragraff (2)(d) yn unol ag **[**[F154]EPPO PM 7/59**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F151** Geiriau yn Atod. 2 para. 21(2)(c) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(6)(a)**

**F152** Geiriau yn Atod. 2 para. 21(3)(c) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(6)(a)**

**F153** Geiriau yn Atod. 2 para. 21(4)(d) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(6)(a)**

**F154** Geiriau yn Atod. 2 para. 21(8) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(6)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I75** Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau ychwanegol sy'n gymwys i uned cynhyrchu cnwd o dan orchudd

**22.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blannu unrhyw gloron, planhigion neu wir hadau tatws mewn uned cynhyrchu cnydau o dan orchudd sy'n halogedig lle mae'n bosibl amnewid yr holl gyfrwng tyfu yn yr uned.

(2) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw gloron, planhigion na gwir hadau tatws yn yr uned heb awdurdodiad ysgrifenedig arolygydd iechyd planhigion.

(3) Ni chaiff arolygydd iechyd planhigion roi awdurdodiad o dan is-baragraff (2) oni bai—

(a) y cydymffurfiwyd â'r holl fesurau i ddileu Pydredd cylch tatws ac i symud yr holl blanhigion sy'n eu cynnal ymaith a bennir mewn hysbysiad mewn perthynas â'r man cynhyrchu lle y mae'r uned wedi ei lleoli,

(b) bod y cyfrwng tyfu yn yr uned wedi ei newid yn llwyr, ac

(c) bod yr uned a'r holl offer a ddefnyddiwyd yn yr uned wedi eu glanhau ac wedi eu diheintio i ddileu Pydredd cylch tatws ac i symud yr holl ddeunydd planhigion cynhaliol ymaith.

(4) Pan roddir awdurdodiad o dan is-baragraff (2), caiff yr awdurdodiad bennu mai dim ond tatws hadyd ardystiedig, cloron bychain neu ficro-blanhigion sy'n deillio o ffynonellau a brofwyd yn swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I76** Atod. 2 para. 22 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau i'w cymryd mewn parthau a ddarnodwyd i reoli Pydredd cylch tatws

**23.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi darnodi parth yn unol â pharagraff 19(1)(c).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, bennu rhagor o waharddiadau, cyfyngiadau a mesurau eraill a fydd yn gymwys yn y parth a ddarnodwyd i atal y risg y bydd Pydredd cylch tatws yn goroesi neu'n lledaenu.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, bennu mewn hysbysiad o dan is-baragraff (2)—

(a) bod rhaid i unrhyw beiriannau neu gyfleusterau storio mewn mangre yn y parth a ddarnodwyd a ddefnyddir i gynhyrchu tatws gael eu glanhau a'u diheintio mewn modd priodol, fel nad oes risg adnabyddadwy y bydd Pydredd cylch tatws yn goroesi neu'n lledaenu;

(b) mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu yn ystod y cyfnod penodedig;

(c) bod rhaid i unrhyw datws hadyd a dyfir mewn man cynhyrchu sy'n halogedig o bosibl gael eu profi'n swyddogol ar ôl eu cynaeafu;

(d) bod rhaid i datws a fwriedir i'w plannu gael eu trin ar wahân i'r holl datws eraill mewn mangre yn y parth neu fod rhaid gweithredu system lanhau a, pan fo'n briodol, ddiheintio rhwng trin tatws hadyd a thrin tatws bwyta yn ystod y cyfnod penodedig.

(4) O ran hysbysiad o dan is-baragraff (2)—

(a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen,

(b) rhaid iddo ddisgrifio hyd a lled y parth a ddarnodir,

(c) rhaid iddo bennu ar ba ddyddiad y bydd pob mesur i gael effaith ac am ba hyd,

(d) rhaid iddo gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n briodol i ddod ag ef i sylw'r cyhoedd, ac

(e) caniateir iddo gael ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy hysbysiad arall.

(5) Rhaid trin unrhyw fangre sy'n rhannol o fewn parth a ddarnodir ac yn rhannol y tu allan iddo fel pe bai o fewn y parth hwnnw at ddibenion y paragraff hwn, ac eithrio pan nad yw'r rhan sydd y tu allan i'r parth a ddarnodir yng Nghymru.

(6) Rhaid trin hysbysiad a gyhoeddir yn unol ag is-baragraff (4) fel pe bai wedi ei gyflwyno—

(a) i unrhyw feddiannydd neu berson arall sydd â gofal am unrhyw fangre o fewn y parth a ddarnodir, a

(b) i unrhyw berson sy'n gweithredu peiriannau neu sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd arall mewn perthynas â chynhyrchu tatws o fewn y parth a ddarnodir.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod mangreoedd sy'n tyfu, yn storio neu'n trin cloron tatws, a mangreoedd sy'n gweithredu peiriannau tatws o dan gontract, yn cael eu goruchwylio gan arolygwyr iechyd planhigion drwy gydol y cyfnod penodedig;

(b) bod arolwg swyddogol yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod penodedig yn unol ag **[**[F155]EPPO PM 7/59**]**;

(c) bod rhaglen yn cael ei sefydlu, pan fo'n briodol, i amnewid yr holl stociau tatws hadyd dros gyfnod priodol o amser.

(8) At ddibenion is-baragraffau (3) a (7), ystyr "y cyfnod penodedig" yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a rhaid iddo fod o leiaf dri thymor tyfu ar ôl y flwyddyn y darnodwyd y parth.

**Diwygiadau Testunol**

**F155** Geiriau yn Atod. 2 para. 23(7)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **18(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I77** Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 6

## Mesurau i reoli Pydredd coch tatws

**24.** Yn y Rhan hon—

ystyr "blwyddyn dyfu gyntaf" ("*first growing year*"), yn achos mesurau sydd i'w cymryd mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig, yw'r flwyddyn dyfu gyntaf yn dilyn y flwyddyn dyfu pryd y dynodir y man cynhyrchu halogedig yn halogedig **[**F156yn unol â pharagraff 26(2)(c)**]**;

ystyr "deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau" ("*susceptible material*") yw planhigion (gan gynnwys cloron) heblaw gwir hadau *Solanum tuberosum* L. neu blanhigion, heblaw ffrwythau neu hadau *Solanum lycopersicum* L.;

ystyr "gofynion PRHG perthnasol" ("*relevant RNQP requirements*"), mewn perthynas â phlanhigion at blannu *Solanum lycopersicum* L., yw—

(a) yn achos planhigion i'w plannu a gynhyrchwyd cyn 14 Rhagfyr 2019, y gofynion a oedd yn gymwys i'r planhigion i'w plannu hynny o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC neu yn rhinwedd y Gyfarwyddeb honno;

(b) yn achos planhigion i'w plannu a gynhyrchwyd ar neu ar ôl 14 Rhagfyr 2019, y gofynion sy'n gymwys i'r planhigion i'w plannu hynny o dan y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol neu yn rhinwedd y Rheoliad hwnnw;

ystyr "gwrthrych" ("*object*") yw unrhyw beiriant, cerbyd, llestr, storfa neu wrthrych arall, gan gynnwys deunydd pecynnu;

ystyr "halogedig" ("*contaminated*") yw wedi ei ddynodi'n halogedig gan arolygydd iechyd planhigion **[**F156yn unol â pharagraff 26(2)(c)**]**;

ystyr "halogedig o bosibl" ("*possibly contaminated*") yw wedi ei bennu'n halogedig o bosibl gan arolygydd iechyd planhigion **[**F157yn unol â pharagraff 26(2)(d)**]**;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*"), mewn perthynas â hysbysiad sydd i'w roi gan arolygydd iechyd planhigion, yw hysbysiad o dan reoliad 15(1);

ystyr "parth" ("*zone*") yw unrhyw ardal, gan gynnwys unrhyw fangre unigol;

ystyr "tatws hadyd ardystiedig" ("*certified seed potatoes*") yw tatws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Tatws Hadyd.

**Diwygiadau Testunol**

**F156** Geiriau yn Atod. 2 para. 24 wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(2)(a)**

**F157** Geiriau yn Atod. 2 para. 24 wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I78** Atod. 2 para. 24 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Arolygon a phrofion swyddogol

**25.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cynhelir arolygon swyddogol systemataidd blynyddol yng Nghymru er mwyn nodi presenoldeb Pydredd coch tatws ar ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau F158....

**[**F159(1A) Rhaid i'r arolygon hynny fod yn seiliedig ar asesiad risg i nodi ffynonellau halogi posibl eraill sy'n peryglu cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a chynnwys arolygon swyddogol wedi eu targedu mewn ardaloedd cynhyrchu, yn seiliedig ar yr asesiad risg perthnasol, i nodi presenoldeb Pydredd coch tatws ar—

(a) deunydd perthnasol, ac eithrio deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau,

(b) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau neu chwistrellu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ac

(c) gollyngiadau gwastraff hylifol o fangre brosesu neu becynnu diwydiannol sy'n trafod deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau.

(1B) Rhaid i'r arolygon hynny hefyd fod yn seiliedig ar fioleg Pydredd coch tatws a'r systemau cynhyrchu perthnasol, a rhaid iddynt gynnwys—

(a) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n cynnwys planhigion *Solanum tuberosum* L., cynnal arolygiadau gweledol o'r cnwd sy'n tyfu, ar adegau priodol, neu samplu tatws hadyd a thatws eraill yn ystod y tymor tyfu neu wrth eu storio, a rhaid i hynny gynnwys cynnal arolygiad gweledol swyddogol o gloron drwy eu torri;

(b) yn achos tatws hadyd a, phan fo'n briodol, thatws eraill, cynnal profion swyddogol ar samplau gan ddefnyddio'r dull a nodir yn EPPO PM 7/21;

(c) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n cynnwys planhigion *Solanum lycopersicum* L., cynnal arolygiadau gweledol, ar adegau priodol, o leiaf o'r cnwd o blanhigion sy'n tyfu y bwriedir eu defnyddio i'w hailblannu at ddefnydd proffesiynol;

(d) ar gyfer planhigion cynhaliol, ac eithrio deunyddiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ac ar gyfer dŵr gan gynnwys gwastraff hylifol, cynnal profion swyddogol.

(1C) Rhaid i'r gwaith o gasglu samplau at ddibenion is-baragraff (1B) fod yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol ac ystadegol cadarn a bioleg Pydredd coch tatws, ac ystyried systemau cynhyrchu tatws perthnasol o ran deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a phlanhigion cynhaliol eraill Pydredd coch tatws.**]**

(2) Pan amheuir bod Pydredd coch tatws yn bresennol, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod profion swyddogol yn cael eu cynnal i gadarnhau a yw'n bresennol—

(i) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**F160EPPO PM 7/21**]**;

(ii) mewn unrhyw achos arall, gan ddefnyddio unrhyw ddull a gymeradwyir yn swyddogol;

(b) hyd nes y cadarnheir ei fod yn bresennol neu y gwrthbrofir yr amheuaeth ei fod yn bresennol, pan fo symptomau gweledol diagnostig sy'n peri amheuaeth ynghylch presenoldeb Pydredd coch tatws wedi eu gweld, ac y cafwyd canlyniad cadarnhaol mewn prawf sgrinio cyflym, neu y cafwyd canlyniad cadarnhaol yn y profion sgrinio **[**F161y cyfeirir atynt yn EPPO PM 7/21**]** —

(i) bod symud yr holl blanhigion a'r holl gloron o'r holl gnydau, yr holl lotiau neu'r holl lwythi y cymerwyd y samplau ohonynt, heblaw'r rhai sydd o dan reolaeth swyddogol, yn cael ei wahardd, ac eithrio pan gadarnhawyd nad oes risg adnabyddadwy y bydd Pydredd coch tatws yn lledaenu,

(ii) bod camau'n cael eu cymryd i olrhain tarddiad yr achos a amheuir, a

(iii) bod mesurau rhagofalus priodol ychwanegol sy'n seiliedig ar lefel y risg a amcangyfrifir yn cael eu cymryd er mwyn atal Pydredd coch tatws rhag lledaenu.

(3) Caiff hysbysiad gynnwys mesurau at ddibenion is-baragraff (2)(b)(i) i (iii).

**Diwygiadau Testunol**

**F158** Geiriau yn Atod. 2 para. 25(1) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(3)(a)**

**F159** Atod. 2 para. 25(1A)-(1C) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(3)(b)**

**F160** Geiriau yn Atod. 2 para. 25(2)(a)(i) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(3)(c)(i)**

**F161** Geiriau yn Atod. 2 para. 25(2)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(3)(c)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I79** Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Mesurau i'w cymryd yn dilyn cadarnhau presenoldeb Pydredd coch tatws**

**26.**—(1) Os bydd presenoldeb Pydredd coch tatws yn cael ei gadarnhau yn dilyn profion swyddogol a gynhelir yn unol â pharagraff 25(2)(a), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cymerir y camau a bennir yn is-baragraffau (2) i (4) yn unol ag egwyddorion gwyddonol cadarn, bioleg Pydredd coch tatws a systemau cynhyrchu, marchnata a phrosesu perthnasol planhigion sy'n cynnal Pydredd coch tatws.

(2) Yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, y camau yw—

(a) ymchwiliad gan arolygydd iechyd planhigion i ganfod graddau'r halogiad a phrif ffynonellau'r halogiad **[**F162sy'n cynnwys cynnal ymchwiliad i'r pethau a ganlyn— ;

(i) tatws sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sy'n perthyn drwy glonio i unrhyw datws halogedig;

(ii) tomatos sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sydd o'r un ffynhonnell ag unrhyw domatos halogedig;

(iii) tatws neu domatos sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sydd o dan reolaeth swyddogol ac yr amheuir eu bod wedi eu halogi â Phydredd coch tatws;

(iv) tatws sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sy'n perthyn drwy glonio i unrhyw datws a dyfwyd yn y man cynhyrchu halogedig;

(v) tatws neu domatos sy'n tyfu gerllaw'r man cynhyrchu halogedig, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu cyfarpar a chyfleusterau cynhyrchu yn uniongyrchol neu drwy gontractwr sy'n gyffredin rhyngddynt;

(vi) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau a chwistrellu o unrhyw ffynhonnell y cadarnheir neu yr amheuir ei bod wedi ei halogi a Phydredd coch tatws;

(vii) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau a chwistrellu o ffynhonnell a ddefnyddir ar y cyd â'r mannau cynhyrchu halogedig a'r mannau cynhyrchu sy'n halogedig o bosibl;

(viii) mannau cynhyrchu sydd wedi eu gorlifo, neu a oedd wedi eu gorlifo, â dŵr wyneb halogedig neu ddŵr wyneb sy'n halogedig o bosibl;

(ix) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau neu chwistrellu'r man cynhyrchu halogedig neu gaeau sydd wedi eu gorlifo yn y man cynhyrchu halogedig;**]**

(b) profion swyddogol pellach, gan gynnwys profion ar yr holl stociau tatws hadyd sy'n perthyn drwy glonio;

(c) dynodi gan arolygydd iechyd planhigion bod y pethau a ganlyn yn halogedig—

(i) y deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a'r llwyth neu'r lot y cymerwyd y sampl ohono neu ohoni;

(ii) unrhyw wrthrychau sydd wedi dod i gysylltiad â'r sampl honno;

(iii) unrhyw uned cynhyrchu cnwd dan orchudd neu gae cynhyrchu cnwd dan orchudd ac unrhyw fan cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y cymerwyd y sampl ohoni neu ohono;

(d) penderfyniad gan arolygydd iechyd planhigion ynghylch graddau'r halogiad tebygol drwy ddod i gysylltiad cyn neu ar ôl cynaeafu, drwy gysylltau cynhyrchu, dyfrhau neu chwistrellu neu drwy berthynas drwy glonio;

(e) darnodi parth gan arolygydd iechyd planhigion ar sail y dynodiad o dan baragraff (c), y penderfyniad a wneir o dan baragraff (d) a lledaeniad posibl Pydredd coch tatws **[**[F163]gan ystyried y ffactorau perthnasol**]**.

(3) Yn achos planhigion cynhaliol, heblaw deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, pan fo arolygydd iechyd planhigion yn nodi bod cynhyrchu deunydd o'r fath yn wynebu risg, y camau yw—

(a) ymchwiliad gan arolygydd iechyd planhigion i ganfod graddau'r halogiad a phrif ffynonellau'r halogiad **[**[F164]sy'n cynnwys cynnal ymchwiliad i'r pethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(a)(i) i (ix)**]**;

(b) dynodi gan arolygydd iechyd planhigion fod planhigion cynhaliol y cymerwyd y sampl ohonynt yn halogedig;

(c) penderfyniad gan arolygydd iechyd planhigion o ran yr halogiad tebygol;

(d) darnodi parth gan arolygydd iechyd planhigion ar sail y dynodiad o dan baragraff (b), y penderfyniad a wnaed o dan baragraff (c) a lledaeniad posibl Pydredd coch tatws **[**[F165]gan ystyried y ffactorau perthnasol**]**.

(4) Yn achos dŵr wyneb a phlanhigion cynhaliol mochlysaidd gwyllt cysylltiedig, pan fo arolygydd iechyd planhigion yn nodi bod cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn wynebu risg oherwydd dyfrhau, chwistrellu neu lifogydd dŵr wyneb, y camau yw—

(a) ymchwiliad gan arolygydd iechyd planhigion i ganfod graddau'r halogiad, sy'n cynnwys cynnal arolwg swyddogol, ar adegau priodol, ar samplau o ddŵr wyneb ac, os ydynt yn bresennol, planhigion cynhaliol mochlysaidd gwyllt;

(b) dynodi dŵr wyneb y cymerwyd y sampl ohono gan arolygydd iechyd planhigion, i'r graddau sy'n briodol ac ar sail yr ymchwiliad o dan baragraff (a);

(c) penderfyniad gan arolygydd iechyd planhigion o ran yr halogiad tebygol ar sail y dynodiad a wnaed o dan baragraff (b);

(d) darnodi parth gan arolygydd iechyd planhigion ar sail y dynodiad o dan baragraff (b), y penderfyniad a wnaed o dan baragraff (c) a lledaeniad posibl Pydredd coch tatws **[**[F166]gan ystyried y ffactorau perthnasol**]**.

**[**[F167](5) Y "ffactorau perthnasol" yw—

(a) at ddibenion is-baragraffau (2)(e) a (3)(d)—

(i) agosrwydd mannau cynhyrchu eraill sy'n tyfu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau;

(ii) cynhyrchu a defnyddio stociau tatws hadyd ar y cyd;

(iii) mannau cynhyrchu sy'n defnyddio dŵr wyneb i ddyfrhau neu chwistrellu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau pan fo risg o ddŵr wyneb ffo o'r man cynhyrchu halogedig;

(b) at ddibenion is-baragraff (4)(d)—

(i) mannau cynhyrchu sy'n cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n gyfagos i ddŵr wyneb halogedig, neu sy'n wynebu risg o orlifo gan ddŵr o'r fath;

(ii) unrhyw fasn dyfrhau ar wahân sy'n gysylltiedig â'r dŵr wyneb halogedig;

(iii) crynofeydd dŵr sy'n gysylltiedig â'r dŵr wyneb halogedig, gan roi sylw i gyfeiriad a chyfradd llif y dŵr wyneb halogedig a phresenoldeb planhigion cynhaliol mochlysaidd gwyllt.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F162** Geiriau yn Atod. 2 para. 26(2)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(a)(i)**

**F163** Geiriau yn Atod. 2 para. 26(2)(e) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(a)(ii)**

**F164** Geiriau yn Atod. 2 para. 26(3)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(b)(i)**

**F165** Geiriau yn Atod. 2 para. 26(3)(d) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(b)(ii)**

**F166** Geiriau yn Atod. 2 para. 26(4)(d) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(c)**

**F167** Atod. 2 para. 26(5) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(4)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I80** Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Cyfyngiadau mewn perthynas â deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrychau sy'n halogedig neu sy'n halogedig o bosibl â Phydredd coch tatws

**27.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson fynd ati'n fwriadol i blannu'r canlynol, nac achosi na chaniatáu'n fwriadol iddynt gael eu plannu—

(a) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig, neu

(b) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig o bosibl.

(2) Pan fo deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrych wedi eu dynodi'n halogedig neu'n halogedig o bosibl o dan baragraff 26(2), rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol—

(a) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig, i'r deunydd fod yn destun unrhyw **[**[F168]ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws**]**;

(b) yn achos deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n halogedig o bosibl, i'r deunydd gael ei ddefnyddio neu ei waredu **[**[F169]drwy ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws**]**;

(c) yn achos gwrthrych sy'n halogedig neu wrthrych sy'n halogedig o bosibl, i'r gwrthrych—

(i) cael ei waredu drwy ei ddinistrio, neu

(ii) cael ei lanhau a'i ddiheintio fel nad oes risg adnabyddadwy y bydd Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu.

(3) Ni chaniateir i ddim byd a lanhawyd ac a ddiheintiwyd yn unol ag is-baragraff (2) gael ei drin mwyach fel pe bai'n halogedig at ddibenion **[**[F170]y Rhan hon**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F168** Geiriau yn Atod. 2 para. 27(2)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(5)(a)(i)**

**F169** Geiriau yn Atod. 2 para. 27(2)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(5)(a)(ii)**

**F170** Geiriau yn Atod. 2 para. 27(3) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I81** Atod. 2 para. 27 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau y caniateir eu gwneud yn ofynnol mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig

**28.**—(1) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno'r hysbysiadau a ganlyn i unrhyw feddiannydd neu berson arall sydd â gofal am fan cynhyrchu halogedig sydd mewn parth a ddarnodir gan arolygydd iechyd planhigion o dan baragraff 26(2)(e)—

(a) mewn perthynas â chae halogedig neu uned cynhyrchu cnwd dan orchudd halogedig sy'n rhan o'r man cynhyrchu, hysbysiad yn cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu neu hysbysiad yn cynnwys yr ail set o fesurau dileu;

(b) mewn perthynas â chae sy'n rhan o'r man cynhyrchu ond nad yw'n halogedig a, pan fo'r arolygydd wedi ei fodloni bod y risg o blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd coch tatws wedi ei dileu, hysbysiad yn cynnwys y drydedd set o fesurau dileu.

(2) Y set gyntaf o fesurau dileu yw—

(a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae neu'r uned o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am o leiaf bedair blwyddyn dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf, er mwyn dileu unrhyw blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol ac unrhyw blanhigion eraill, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, sy'n cynnal Pydredd coch tatws,

(b) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae neu'r uned yn ystod y cyfnod hwnnw—

(i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;

(ii) planhigion tomatos neu hadau tomatos;

(iii) gan ystyried bioleg Pydredd coch tatws, planhigion cynhaliol eraill neu blanhigion o'r rhywogaeth *Brassica* lle ceir risg mewn cysylltiad â hwy bod Pydredd coch tatws yn goroesi;

(iv) cnydau lle ceir risg mewn cysylltiad â hwy y bydd Pydredd coch tatws yn lledaenu,

(c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae neu'r uned yn ystod y tymor cnydio tatws neu domatos cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, a bod y tatws dim ond yn cael eu plannu os canfuwyd bod y cae neu'r uned yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomato gwirfoddol a phlanhigion cynhaliol eraill, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, yn ystod arolygiadau swyddogol ar gyfer Pydredd coch tatws, am o leiaf y ddwy flwyddyn dyfu olynol cyn plannu, a bod y cloron neu'r planhigion tomatos a gynaeafwyd yn destun profion swyddogol gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**[F171]EPPO PM 7/21**]**, a

(d) gofyniad bod rhaid cymhwyso cylch cylchdroi priodol yn y tymhorau cnydio tatws neu domatos dilynol, a rhaid i'r cylch hwnnw fod yn ddwy flynedd o leiaf pan fo tatws i'w plannu i gynhyrchu tatws hadyd.

(3) Yr ail set o fesurau dileu yw—

(a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae neu'r uned o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am bum blwyddyn dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, sy'n cynnal Pydredd coch tatws,

(b) gofyniad—

(i) yn ystod tair blwyddyn gyntaf y blynyddoedd tyfu hynny, fod y cae neu'r uned yn cael ei gadw neu ei chadw—

(aa) yn fraenar,

(bb) gyda chnydau grawnfwyd, os yw'r arolygydd wedi ei fodloni nad oes risg y bydd Pydredd coch tatws yn lledaenu,

(cc) yn dir pori parhaus gan dorri'r borfa yn fyr neu bori'r tir yn ddwys yn fynych, neu

(dd) fel glaswellt ar gyfer cynhyrchu hadau;

(ii) yn ystod y bedwaredd a'r bumed flwyddyn dyfu, mai dim ond planhigion nad ydynt yn cynnal Pydredd coch tatws ac nad oes unrhyw risg mewn cysylltiad â hwy y bydd Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu y caniateir eu plannu yn y cae neu'r uned, ac

(c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta y caniateir eu plannu yn ystod y tymor cnydio tatws neu domatos cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, a bod y tatws dim ond yn cael eu plannu os canfuwyd bod y cae neu'r uned yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol a phlanhigion cynhaliol eraill, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, yn ystod arolygiadau swyddogol ar gyfer Pydredd coch tatws, am o leiaf ddwy flwyddyn dyfu yn olynol cyn plannu, a bod y cloron neu'r planhigion tomatos a gynaeafwyd yn destun profion swyddogol gan ddefnyddio'r dull a nodir yn **[**[F172]EPPO PM 7/21**]**.

(4) Y drydedd set o fesurau dileu yw—

(a) gofyniad na phlennir planhigion sy'n cynnal Pydredd coch tatws neu mai dim ond y planhigion tatws a'r planhigion tomatos a ganlyn y caniateir eu plannu yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am y flwyddyn dyfu gyntaf—

(i) tatws hadyd ardystiedig ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta;

(ii) planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol ar gyfer cynhyrchu ffrwythau,

(b) gofyniad mai dim ond y tatws a ganlyn y caniateir eu plannu i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y flwyddyn dyfu ddilynol gyntaf, os oes tatws i'w plannu yn y flwyddyn honno—

(i) tatws hadyd ardystiedig;

(ii) tatws hadyd a brofwyd yn swyddogol ar gyfer absenoldeb Pydredd coch tatws ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n halogedig,

(c) gofyniad mai dim ond y planhigion tomatos a ganlyn y caniateir eu plannu i gynhyrchu planhigion neu ffrwythau yn y flwyddyn dyfu ddilynol gyntaf, os oes planhigion tomatos i'w plannu yn y flwyddyn honno—

(i) planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol;

(ii) os ydynt wedi eu lluosogi yn llystyfol, planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n halogedig,

(d) gofyniad, yn achos tatws, mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol o datws hadyd ardystiedig y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod yr ail flwyddyn dyfu ddilynol ac unrhyw flwyddyn dyfu ddilynol arall i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y cae,

(e) gofyniad, yn achos tomatos, mai dim ond planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol neu, os ydynt wedi eu lluosogi yn llystyfol, planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod yr ail flwyddyn dyfu ddilynol ac unrhyw flwyddyn dyfu ddilynol arall i gynhyrchu planhigion neu ffrwythau yn y cae,

(f) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad hyd at ddiwedd y flwyddyn dyfu a bennir yn yr hysbysiad er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, a phlanhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd coch tatws, ac

(g) arolygiadau swyddogol o gnydau sy'n tyfu ar adegau priodol a phrofion swyddogol ar datws a gynaeafwyd yn unol â'r dull a nodir yn **[**[F173]EPPO PM 7/21**]**.

(5) Rhaid hefyd i hysbysiad a gyflwynir gan arolygydd iechyd planhigion o dan is-baragraff (1)(a) sy'n cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu—

(a) cynnwys gofyniad bod rhaid i'r holl beiriannau a chyfleusterau storio yn y man cynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu tatws gael eu glanhau a'u diheintio ar unwaith ac yn dilyn y flwyddyn dyfu gyntaf,

(b) pennu'r dulliau priodol ar gyfer glanhau a diheintio'r peiriannau a'r cyfleusterau storio, ac

(c) gwahardd unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu neu bennu sut y mae'n rhaid cynnal unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu, at ddiben atal Pydredd coch tatws rhag lledaenu.

(6) Caniateir i'r mesurau y caiff eu pennu mewn hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (5) gael eu cynnwys mewn hysbysiad gyda mesurau priodol eraill.

(7) Rhaid i'r person y cyflwynir hysbysiad iddo yn unol ag is-baragraff (1) sicrhau bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn cael eu cymryd yn y modd gofynnol.

**Diwygiadau Testunol**

**F171** Geiriau yn Atod. 2 para. 28(2)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(6)**

**F172** Geiriau yn Atod. 2 para. 28(3)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(6)**

**F173** Geiriau yn Atod. 2 para. 28(4)(g) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I82** Atod. 2 para. 28 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau ychwanegol mewn perthynas ag unedau cynhyrchu cnwd dan orchudd

**29.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blannu unrhyw gloron, planhigion neu wir hadau tatws mewn uned cynhyrchu cnydau o dan orchudd sy'n halogedig lle mae'n bosibl amnewid yr holl gyfrwng tyfu yn yr uned.

(2) Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw gloron, planhigion na gwir hadau tatws, planhigion tomatos neu hadau tomatos neu blanhigion eraill sy'n cynnal Pydredd coch tatws yn yr uned heb awdurdodiad ysgrifenedig arolygydd iechyd planhigion.

(3) Ni chaiff arolygydd iechyd planhigion roi awdurdodiad o dan is-baragraff (2) oni bai—

(a) y cydymffurfiwyd â'r holl fesurau i ddileu Pydredd coch tatws ac i symud yr holl blanhigion sy'n cynnal Pydredd coch tatws ymaith a bennir mewn hysbysiad mewn perthynas â'r man cynhyrchu lle y mae'r uned wedi ei lleoli,

(b) bod y cyfrwng tyfu yn yr uned wedi ei newid yn llwyr, ac

(c) bod yr uned a'r holl offer a ddefnyddiwyd yn yr uned wedi eu glanhau ac wedi eu diheintio i ddileu Pydredd coch tatws ac i symud yr holl ddeunydd planhigion cynhaliol ymaith.

(4) Caiff awdurdodiad o dan is-baragraff (2)—

(a) mewn perthynas â chynhyrchu tatws, bennu mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu gloron bychain neu ficro-blanhigion sy'n deillio o ffynonellau a brofwyd yn swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu;

(b) mewn perthynas â chynhyrchu tomatos, bennu mai dim ond hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol neu, os cânt eu lluosogi yn llystyfol, blanhigion tomatos a gynhyrchwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu;

(c) gwahardd unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu;

(d) pennu sut y mae'n rhaid cynnal unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu at ddiben atal Pydredd coch tatws rhag lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I83** Atod. 2 para. 29 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau i'w cymryd mewn parthau a ddarnodwyd i reoli Pydredd coch tatws

**30.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi darnodi parth mewn perthynas â chadarnhad bod Pydredd coch tatws wedi ei ganfod o dan baragraff 26(3)(d) neu (4)(d).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, bennu rhagor o waharddiadau, cyfyngiadau a mesurau eraill a fydd yn gymwys yn y parth a ddarnodir i atal y risg y bydd Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, bennu mewn hysbysiad o dan is-baragraff (2)—

(a) bod rhaid glanhau a, pan fo'n briodol, ddiheintio unrhyw beiriannau neu gyfleusterau storio mewn mangre o fewn y parth a ddarnodir a ddefnyddir i dyfu, i storio neu i drin cloron tatws neu domatos o fewn y parth, neu unrhyw fangre o fewn y parth y gweithredir peiriannau o dan gontract ar gyfer cynhyrchu tatws neu domatos ohoni, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy y bydd Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu;

(b) yn achos cnydau tatws, mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu yn ystod y cyfnod penodedig;

(c) bod rhaid i datws a fwriedir i'w plannu gael eu trin ar wahân i'r holl datws eraill mewn mangre o fewn y parth neu fod rhaid gweithredu system lanhau a, pan fo'n briodol, ddiheintio rhwng trin tatws hadyd a thrin tatws bwyta yn ystod y cyfnod penodedig;

(d) yn achos cnydau tomatos, mai dim ond planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni'r gofynion PRHG perthnasol neu, os cânt eu lluosogi yn llystyfol, blanhigion tomatos a gynhyrchir o hadau o'r fath ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu yn ystod y cyfnod penodedig;

(e) na chaniateir defnyddio dŵr wyneb halogedig ar gyfer dyfrhau na chwistrellu deunydd planhigion penodedig a, pan fo'n briodol, blanhigion eraill sy'n cynnal Pydredd coch tatws, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan arolygydd iechyd planhigion;

(f) os oes gollyngiadau gwastraff hylifol wedi eu halogi, fod rhaid gwaredu unrhyw wastraff o fangre brosesu neu becynnu ddiwydiannol yn y parth sy'n trin deunydd planhigion penodedig o dan oruchwyliaeth arolygydd iechyd planhigion.

(4) O ran hysbysiad o dan is-baragraff (2)—

(a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen,

(b) rhaid iddo ddisgrifio hyd a lled y parth a ddarnodir,

(c) rhaid iddo bennu mewn perthynas â phob mesur a yw'n gymwys yn gyffredinol ynteu i ardal o ddŵr wyneb yn y parth a ddarnodwyd,

(d) rhaid iddo bennu ar ba ddyddiad y bydd pob mesur yn cael effaith ac am ba hyd,

(e) rhaid iddo gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n briodol i ddod ag ef i sylw'r cyhoedd, ac

(f) caniateir iddo gael ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy hysbysiad arall.

(5) Rhaid trin unrhyw fangre sy'n rhannol o fewn parth a ddarnodir ac yn rhannol y tu allan iddo fel pe bai o fewn y parth hwnnw at ddibenion y paragraff hwn, ac eithrio pan nad yw'r rhan sydd y tu allan i'r parth a ddarnodir yng Nghymru.

(6) Rhaid trin hysbysiad a gyhoeddir yn unol ag is-baragraff (4) fel pe bai wedi ei gyflwyno—

(a) i unrhyw feddiannydd neu berson arall sydd â gofal am unrhyw fangre o fewn y parth a ddarnodir;

(b) i unrhyw berson—

(i) sydd â hawl i ddefnyddio unrhyw ddŵr wyneb halogedig,

(ii) sydd ag unrhyw ddŵr wyneb halogedig ar fangre o fewn y parth a ddarnodir y mae'r person yn ei meddiannu neu y mae ganddo ofal amdani, a

(iii) sy'n gweithredu peiriannau neu sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd arall mewn perthynas â chynhyrchu tatws neu domatos o fewn y parth a ddarnodir.

(7) Ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu'r mesurau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3) ond pan fo'r parth wedi ei darnodi—

(a) mewn perthynas â'r mesurau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (d) o'r is-baragraff hwnnw at ddibenion **[**[F174]paragraff 26(3)(d)**]**;

(b) mewn perthynas â'r mesurau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (e) ac (f) o'r is-baragraff hwnnw at ddibenion **[**[F175]paragraff 26(4)(d)**]**.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) bod mangreoedd sy'n tyfu, yn storio neu'n trin cloron tatws a mangreoedd sy'n gweithredu peiriannau tatws o dan gontract yn cael eu goruchwylio gan arolygwyr iechyd planhigion yn ystod y cyfnod penodedig;

(b) bod arolwg swyddogol yn cael ei gynnal yn unol ag [F176EPPO PM 7/21] yn ystod y cyfnod penodedig;

(c) bod rhaglen yn cael ei sefydlu, pan fo'n briodol, i amnewid yr holl stociau tatws hadyd dros gyfnod priodol o amser.

(9) At ddibenion is-baragraffau (3) ac (8), rhaid i'r "cyfnod penodedig", mewn perthynas â pharth a ddarnodir yn unol â pharagraff 26(3)(d) neu (4)(d) fod o leiaf dri thymor tyfu ar ôl y flwyddyn y darnodwyd y parth.

**Diwygiadau Testunol**

**F174** Geiriau yn Atod. 2 para. 30(7)(a) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(7)(a)(i)**

**F175** Geiriau yn Atod. 2 para. 30(7)(b) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(7)(a)(ii)**

**F176** Geiriau yn Atod. 2 para. 30(8)(b) wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **19(7)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I84** Atod. 2 para. 30 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 7

## Mesurau ynglŷn â thatws o'r Aifft

### [F177Mesurau ychwanegol ynglŷn â thatws o'r Aifft]

**31.**—(1) Yn y Rhan hon, ystyr "tatws o'r Aifft" yw unrhyw gloron *Solanum tuberosum* L., yn tarddu o'r Aifft a gyflwynir i [F178Brydain Fawr] o dan [F179Erthygl 41(1) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion].

(2) Ni chaiff unrhyw weithredwr proffesiynol—

(a) symud unrhyw datws o'r Aifft yng Nghymru oni bai eu bod wedi eu labelu i ddangos eu bod yn tarddu o'r Aifft;

(b) prosesu, paratoi, golchi neu becynnu unrhyw datws o'r Aifft mewn mangre yng Nghymru heblaw mewn mangre y mae Gweinidogion Cymru wedi ei chymeradwyo mewn ysgrifen at y diben hwnnw.

(3) Nid yw is-baragraff (2)(b) yn gymwys i becynnu neu baratoi unrhyw datws o'r Aifft mewn siop, bwyty, ffreutur, clwb, tŷ tafarn, ysgol, ysbyty, neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol) i'w ddanfon at y defnyddiwr terfynol.

**Diwygiadau Testunol**

**F177** Atod. 2 para. 31 pennawd wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **20(a)**

**F178** Geiriau yn Atod. 2 para. 31(1) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **20(b)(i)**

**F179** Geiriau yn Atod. 2 para. 31(1) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **20(b)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I85** Atod. 2 para. 31 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

ATODLEN 3

Rheoliad 38(1)(d) i (f)

Troseddau: darpariaethau perthnasol yn **[**[F180]neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F180** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 pennawd wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(a)**

# RHAN 1

## **[**[F180]Y Rheoliad Iechyd Planhigion**]**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I86** Atod. 3 Rhn. 1 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**[F181]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 5(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 8(1)) | Yn gwahardd cyflwyno pla **[**[F182]cwarantin Prydain Fawr**]** i **[**[F183]Brydain Fawr**]** , symud pla **[**[F182]cwarantin Prydain Fawr**]** o fewn **[**[F183]Prydain Fawr**]** neu ddal, lluosogi neu ryddhau pla **[**[F182]cwarantin Prydain Fawr**]** o fewn **[**[F183]Prydain Fawr**]**(**25**). |
| Erthygl 9(3) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 33(1)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr proffesiynol hysbysu awdurdodau cymwys ar unwaith am unrhyw dystiolaeth a all fod ganddynt ynghylch perygl sydd ar fin digwydd:<br>(a) y daw pla cwarantin **[**[F184]Prydain Fawr**]** neu **[**[F185]bla cwarantin Prydain Fawr dros dro**]** i **[**[F186]Brydain Fawr**]** neu i ran o **[**[F186]Brydain Fawr**]** lle nad yw'n bresennol eto, neu<br>(b) y daw pla cwarantin **[**[F187]PFA**]** i'r **[**[F188]ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r pla hwnnw**]**. |
| Erthygl 14(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 16 a 33(1)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr proffesiynol sy'n amau neu sy'n dod yn ymwybodol: |

(**25**) Nodir y rhestr o blâu cwarantin yr Undeb yn Atodiad 2 i Reoliad (EU) 2019/2072 ("Rheoliad Amodau Ffytoiechydol") sy'n pennu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau diogelu rhag plâu planhigion (OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1) ("Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE").

| *Y Ddarpariaeth yn* [F181y Rheoliad Iechyd Planhigion] | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | (a) bod pla cwarantin [F189Prydain Fawr neu bla cwarantin Prydain Fawr dros dro] yn bresennol mewn planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sydd o dan reolaeth y gweithredwr;<br>(b) bod pla cwarantin [F190PFA] yn bresennol mewn planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sydd o dan reolaeth y gweithredwr yn [F191yr ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r pla hwnnw],<br><br>hysbysu'r awdurdod cymwys ar unwaith a chymryd camau rhagofalus i atal y pla rhag ymsefydlu a lledaenu. |
| Erthygl 14(3) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr proffesiynol:<br>(a) ymgynghori â'r awdurdod cymwys pan fo'r gweithredwr proffesiynol wedi cael cadarnhad swyddogol ynghylch presenoldeb pla cwarantin [F192Prydain Fawr] mewn planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sydd o dan reolaeth y gweithredwr, a<br>(b) pan fo'n gymwys, bwrw ymlaen â'r camau sy'n ofynnol o dan Erthygl 14(4) i (7). |
| Erthygl 15(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 15(2), 16 a 33(1)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i berson nad yw'n weithredwr proffesiynol hysbysu'r awdurdod cymwys ar unwaith pan fydd y person yn dod yn ymwybodol o'r canlynol, neu pan fo ganddo reswm i amau'r canlynol:<br>(a) presenoldeb pla cwarantin [F193Prydain Fawr];<br>(b) presenoldeb pla cwarantin [F194PFA] yn [F195yr ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r pla hwnnw]. |
| Erthygl 32(2) | Yn gwahardd cyflwyno pla cwarantin [F196PFA] i'r priod barth gwarchodedig, symud pla cwarantin [F196PFA] yn [F197yr ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r pla hwnnw] neu'r daliad, lluosogi neu ryddhau pla cwarantin [F196PFA] yn [F197yr ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r pla hwnnw](**26**). |
| Erthygl 37(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 39, ac Erthygl 17 o'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol) | Yn gwahardd gweithredwr proffesiynol rhag cyflwyno i [F198Brydain Fawr] bla nad yw'n bla cwarantin [F199Prydain Fawr] a reoleiddir ar blanhigion i'w plannu y caiff ei drosglwyddo drwyddynt, neu symud pla nad yw'n bla cwarantin [F199Prydain Fawr] a reoleiddir o fewn |

(**26**) Nodir y rhestr o barthau gwarchodedig a'r priod blâu parth gwarchodedig yn Atodiad 3 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**[F181]y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | **[**[F198]Prydain Fawr**]** ar blanhigion i'w plannu y caiff ei drosglwyddo drwyddynt(**27**). |
| Erthygl 40(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 47 a 48(1)) | Yn gwahardd cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill penodol i **[**[F200]Brydain Fawr**]** os ydynt yn tarddu o bob trydedd wlad neu diriogaeth neu rai penodol ohonynt(**28**). |
| Erthygl 41(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 47 a 48(1)) | Yn gwahardd:<br>(a) cyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill o drydydd gwledydd oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni(**29**);<br>(b) symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni(**30**). |
| **[**[F201]Erthygl 41(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 47 a 48(1)) | Yn gwahardd cyflwyno i Brydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill o drydydd gwledydd oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni. |
| Erthygl 41(1A) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 48(1)) | Yn gwahardd cyflwyno i Brydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill o diriogaethau Dibynnol y Goron oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni. |
| Erthygl 41(1B) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 48(1)) | Yn gwahardd symud o fewn Prydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni.**]** |

(**27**) Nodir y rhestr o blâu nad ydynt yn blâu cwarantin Undeb a reoleiddir a'r planhigion perthnasol i'w plannu, gyda chategorïau a throthwyon, yn Atodiad 4 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.
(**28**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a'r trydydd gwledydd, y grwpiau o drydydd gwledydd neu'r ardaloedd penodol o drydydd gwledydd y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddynt yn Atodiad 6 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.
(**29**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill sy'n tarddu o drydydd gwledydd a'r gofynion arbennig cyfatebol mewn perthynas â'u cyflwyno i diriogaeth yr Undeb yn Atodiad 7 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.
(**30**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill sy'n tarddu o'r Undeb a'r gofynion arbennig cyfatebol mewn perthynas â'u symud o fewn tiriogaeth yr Undeb yn Atodiad 8 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**F181y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 42(2) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 47 a 48(1)) | Yn gwahardd cyflwyno i **[**F202Brydain Fawr**]** blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n uchel eu risg o drydydd gwledydd(**31**). |
| Erthygl 43(1) | Yn gwahardd cyflwyno i **[**F202Brydain Fawr**]** ddeunydd pecynnu pren, p'un a yw'n cael ei ddefnyddio i gludo gwrthrychau o unrhyw fath neu beidio, oni bai ei fod yn cyflawni'r gofynion penodedig neu ei fod yn destun yr esemptiadau y darperir ar eu cyfer yn SRFFf 15. |
| Erthygl 45(1), y trydydd paragraff (fel y'i darllenir gydag Erthygl 55) | Yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau post a gweithredwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gwerthu drwy gontractau pellter drefnu bod gwybodaeth benodol ar gael i'w cleientiaid drwy'r rhyngrwyd. |
| Erthygl 53(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 57 a 58) | Yn gwahardd:<br>(a) cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill sy'n tarddu o drydydd gwledydd i **[**F203ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]**;<br>(b) cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill sy'n tarddu o **[**F204Brydain Fawr neu diriogaeth Ddibynnol y Goron i ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]**(**32**). |
| Erthygl 54(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 57 a 58) | Yn gwahardd:<br>(a) cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill **[**F205i ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]** oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r **[**F206ardaloedd hynny sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]** wedi eu cyflawni;<br>(b) symud planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill **[**F205mewn ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]** oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r **[**F206ardaloedd hynny sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]** wedi eu cyflawni(**33**). |
| Erthygl 59 | Yn ei gwneud yn ofynnol:<br>(a) i gerbydau, peiriannau neu ddeunydd pecynnu a ddefnyddir ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill sy'n |

(**31**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill uchel eu risg y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddynt yn Atodiad 1 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/2019 yn sefydlu rhestr dros dro o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill uchel eu risg, o fewn ystyr Erthygl 42 o Reoliad (EU) 2016/2031 a rhestr o blanhigion nad yw tystysgrifau ffytoiechydol yn ofynnol ar eu cyfer i'w cyflwyno i'r Undeb, o fewn ystyr Erthygl 73 o'r Rheoliad hwnnw (OJ Rhif L 323, 19.12.2018, t. 10).

(**32**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at y dibenion hyn yn Atodiad 9 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

(**33**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at y dibenion hyn yn Atodiad 10 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

| *Y Ddarpariaeth yn* [F181 y Rheoliad Iechyd Planhigion] | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | symud i [F207 Brydain Fawr] neu o'i mewn, neu drwy [F207 Brydain Fawr], fod yn rhydd rhag plâu [F208 cwarantin Prydain Fawr neu blâu cwarantin Prydain Fawr dros dro];<br>(b) i gerbydau, peiriannau neu ddeunydd pecynnu a ddefnyddir ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill sy'n symud i'r [F209 ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr] neu o'u mewn, neu drwy [F210 ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr], fod yn rhydd rhag y plâu cwarantin [F211 PFA][F212 sy'n ymwneud â'r ardaloedd hynny]. |
| Erthygl 62(1) | Yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am orsaf gwarantin neu gyfleuster cyfyngu fonitro'r orsaf neu'r cyfleuster a'r cyffiniau agos, am bresenoldeb anfwriadol plâu cwarantin [F213 Prydain Fawr a phlâu cwarantin Prydain Fawr dros dro]. |
| Erthygl 62(2) | Yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am orsaf gwarantin neu gyfleuster cyfyngu gymryd camau priodol ar sail y cynllun wrth gefn y cyfeirir ato ym mhwynt (e) o Erthygl 61(1) ac i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau i weithredwyr proffesiynol yn Erthygl 14 pan ganfyddir neu pan amheuir presenoldeb anfwriadol pla cwarantin [F214 Prydain Fawr neu bla cwarantin Prydain Fawr dros dro]. |
| Erthygl 64(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 64(2)) | Yn gwahardd rhyddhau planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o orsafoedd cwarantin neu gyfleusterau cyfyngu oni bai bod hynny wedi ei awdurdodi gan yr awdurdodau cymwys. |
| Erthygl 66(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 65(3)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr proffesiynol penodol gyflwyno cais am gofrestru i'r awdurdodau cymwys. |
| Erthygl 66(5) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 65(3)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr cofrestredig, pan fo'n berthnasol:<br>(a) cyflwyno diweddariad blynyddol ynghylch unrhyw newidiadau yn y data y cyfeirir ato ym mhwyntiau (d) ac (e) o Erthygl 66(2) neu yn y datganiadau y cyfeirir atynt ym mhwyntiau (b) ac (c) o Erthygl 66(2);<br>(b) diweddaru'r data y cyfeirir ato ym mhwynt (a) o Erthygl 66(2) heb fod yn hwyrach na 30 diwrnod ar ôl y newid yn y data hwnnw. |
| Erthygl 69(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 65(3) a 69(3)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr proffesiynol y cyflenwir iddo blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n destun y gofynion neu'r amodau penodedig gadw cofnod sy'n caniatáu i'r gweithredwr |

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**F181y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | adnabod y gweithredwr proffesiynol a gyflenwodd bob uned fasnach. |
| Erthygl 69(2) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 69(3)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr proffesiynol sy'n cyflenwi planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n destun y gofynion neu'r amodau penodedig gadw cofnod sy'n caniatáu i'r gweithredwr adnabod y gweithredwr proffesiynol y cyflenwyd pob uned fasnach iddo. |
| Erthygl 69(4) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr proffesiynol gadw'r cofnodion sy'n ofynnol yn unol ag Erthygl 69(1) i (3) am o leiaf dair blynedd. |
| Erthygl 70(1) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr proffesiynol y cyflenwir y planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill y cyfeirir atynt yn Erthygl 69(1) a (2) iddynt, neu sy'n cyflenwi'r rheiny, fod â systemau neu weithdrefnau olrhain ar waith i ganiatáu i symudiadau'r planhigion, y cynhyrchion planhigion a'r gwrthrychau eraill hynny o fewn a rhwng eu mangreoedd eu hunain gael eu hadnabod. |
| Erthyglau 72(1) a 73 | Yn gwahardd cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau penodol eraill i **[**F215Brydain Fawr**]** o drydydd gwledydd oni bai bod tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gyda hwy(**34**). |
| Erthygl 74(1) | Yn gwahardd cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau penodol eraill o drydydd gwledydd i **[**F216ardaloedd penodol sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]** oni bai bod tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gyda hwy(**35**). |
| Erthygl 79(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 81, 82 , 83 **[**F217, 92a a 95a(2)**]**) | Yn gwahardd symud planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau penodol eraill o fewn **[**F218Prydain Fawr neu gyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill i Brydain Fawr o diriogaeth Ddibynnol y Goron heb basbort planhigion y DU**]**(**36**). |
| Erthygl 80(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 81, 82 , 83 **[**F219, 92a a 95a(2)**]**) | Yn gwahardd cyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau penodol eraill i **[**F220ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]**, neu symud planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau |

(**34**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at ddibenion Erthygl 72(1) yn Rhan A o Atodiad 11 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol. Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at ddibenion Erthygl 73(1) yn Rhan B o'r Atodiad hwnnw, ond nid yw'n cynnwys unrhyw blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn y rhestr a nodir yn Rhan C o'r Atodiad hwnnw.

(**35**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at y dibenion hyn yn Atodiad 12 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

(**36**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at y dibenion hyn yn Atodiad 13 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**F181y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | penodol eraill o fewn **[**F220ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]**, heb basbort planhigion **[**F221y DU**]**(**37**). |
| Erthygl 84(1) | Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F222y DU**]** oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi a rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F222y DU**]** ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill nad ydynt yn gyfrifol amdanynt. |
| Erthygl 84(3) | Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F222y DU**]** ac eithrio mewn mangreoedd, warysau cyfun neu ganolfannau anfon penodedig. |
| Erthygl 85 (fel y'i darllenir gydag Erthygl 87) | Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F223y DU**]** ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill oni bai bod y gofynion penodedig wedi eu cyflawni mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny. |
| Erthygl 86(1) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 86(2) a 87) | Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F224y DU**]** ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i'w cyflwyno i **[**F225ardal sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr**]**, neu i'w symud o'i fewn, oni bai bod y gofynion penodol wedi eu cyflawni mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny. |
| **[**F226Erthygl 86a | Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion y DU ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i'w cyflwyno i diriogaeth Ddibynnol y Goron, oni bai bod y gofynion penodol wedi eu cyflawni mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny.**]** |
| Erthygl 88 | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr proffesiynol atodi pasbortau planhigion **[**F227y DU**]** i uned fasnach y planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill o dan sylw, neu pan fo'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill yn cael eu symud mewn pecyn, bwndel neu gynhwysydd, i'r pecyn, y bwndel neu'r cynhwysydd hwnnw. |
| Erthygl 90(1) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr awdurdodedig:<br>(a) nodi a monitro'r pwyntiau yn ei broses gynhyrchu a phwyntiau allweddol penodol eraill ynglŷn â symud planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill pan fo'r gweithredwr |

(**37**) Nodir y rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill at y dibenion hyn yn Atodiad 14 i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol.

| *Y Ddarpariaeth yn* **[**F181y Rheoliad Iechyd Planhigion**]** | *Y Pwnc* |
|---|---|
| | awdurdodedig yn bwriadu dyroddi pasbort planhigion **[**F228y DU**]** mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion a'r gwrthrychau eraill hynny, a<br>(b) cadw cofnodion ynghylch nodi a monitro'r pwyntiau hynny am o leiaf dair blynedd. |
| Erthygl 90(2) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr awdurdodedig sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei roi i'w bersonél sy'n ymwneud â'r archwiliadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 87. |
| Erthygl 93(1) | Yn gwahardd gweithredwyr awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion **[**F229y DU**]** amnewid oni bai bod amodau penodol wedi eu cyflawni. |
| Erthygl 93(5) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr awdurdodedig gadw pasbortau planhigion **[**F230penodol**]** neu eu cynnwys am o leiaf dair blynedd. |
| **[**F231Erthygl 95a(1) | Yn gwahardd cyflwyno uned fasnach GI berthnasol i Brydain Fawr o Ogledd Iwerddon oni bai bod y pasbort planhigion a oedd yn ofynnol ar gyfer ei symud o fewn Gogledd Iwerddon yn dod gyda hi.**]** |
| Erthygl 96(1) | Yn gwahardd marcio deunydd pecynnu pren, pren neu wrthrychau eraill o fewn **[**F232Prydain Fawr**]**:<br>(c) gan unrhyw weithredwr proffesiynol nad yw wedi ei awdurdodi yn unol ag Erthygl 98, neu<br>(d) heblaw yn y modd gofynnol. |
| Erthygl 97(1) | Yn gwahardd trwsio deunydd pecynnu pren:<br>(a) gan unrhyw weithredwr proffesiynol nad yw wedi ei awdurdodi yn unol ag Erthygl 98, neu<br>(b) heblaw yn y modd gofynnol. |

**Diwygiadau Testunol**

**F181** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei hepgor (C.) (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(i)**

**F182** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(ii)(aa)**

**F183** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(ii)(bb)**

**F184** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iii)(aa)**

**F185** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iii)(bb)**

**F186** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iii)(cc)**

**F187** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iii)(dd)**

**F188** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iii)(ee)**
**F189** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iv)(aa)**
**F190** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iv)(bb)**
**F191** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(iv)(cc)**
**F192** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(v)**
**F193** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(vi)(aa)**
**F194** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(vi)(bb)**
**F195** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(vi)(cc)**
**F196** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(vii)(aa)**
**F197** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(vii)(bb)**
**F198** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(viii)(aa)**
**F199** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(viii)(bb)**
**F200** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(ix)**
**F201** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(x)**
**F202** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xi)**
**F203** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xii)(aa)**
**F204** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xii)(bb)**
**F205** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiii)(aa)**
**F206** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiii)(bb)**
**F207** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(aa)**
**F208** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(bb)**
**F209** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(cc)**
**F210** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(dd)**
**F211** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei amnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(ee)**
**F212** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu mewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xiv)(ff)**
**F213** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xv)**

**F214** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xvi)**

**F215** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xvii)**

**F216** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xviii)**

**F217** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (4.3.2021) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(4)(a)**

**F218** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xix)(bb)**

**F219** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (4.3.2021) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(4)(b)**

**F220** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xx)(bb)**

**F221** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xx)(bb)**

**F222** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxi)**

**F223** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxii)**

**F224** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxiii)(aa)**

**F225** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxiii)(bb)**

**F226** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu mewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxiv)**

**F227** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxv)**

**F228** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxvi)**

**F229** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxvii)**

**F230** Gair yn Atod. 3 Rhn. 1 table wedi ei amnewid (4.3.2021) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(4)(c)**

**F231** Atod. 3 Rhn. 1 table table wedi ei fewnosod (4.3.2021) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/239), rhlau. 1(2), **2(4)(d)**

**F232** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 1 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(3)(b)(xxviii)**

# RHAN 2

## Y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I87** Atod. 3 Rhn. 2 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

| *Y ddarpariaeth yn y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 47(5) (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 5 a 7 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau a esemptir o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin, rheolaethau penodol ar fagiau personol teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau a anfonir at bobl naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad(**38**)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol sy'n dod **[**F233i Brydain Fawr**]** sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno ar gyfer rheolaethau swyddogol ar y safle rheoli ar y ffin lle daw **[**F233i Brydain Fawr**]** am y tro cyntaf. |
| Erthygl 50(1) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr llwyth perthnasol y mae Erthygl 47(1) yn gymwys iddo gyflwyno'r tystysgrifau neu'r dogfennau swyddogol gwreiddiol y mae'n ofynnol iddynt fynd gyda'r llwyth i awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin. |
| Erthygl 50(3) | Yn gwahardd gweithredwr llwyth perthnasol rhag hollti'r llwyth nes y bydd rheolaethau swyddogol wedi eu cyflawni a bod y Ddogfen Mynediad Iechyd Cymunedol ("DMIC") wedi ei chwblhau. |
| Erthygl 56(1) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr llwyth perthnasol gwblhau'r rhan berthnasol o'r DMIC. |
| Erthygl 56(4) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 1(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 ynghylch hysbysu ymlaen llaw fod llwythi o gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau yn dod **[**F233i Brydain Fawr**]**(**39**) a rheoliad 9) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr llwyth perthnasol roi hysbysiad ymlaen llaw i awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin fod y llwyth yn cyrraedd cyn i'r llwyth gyrraedd **[**F233Prydain Fawr**]** yn gorfforol. |

**Diwygiadau Testunol**

**F233** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 2 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(4)**

(**38**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 45.
(**39**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 8.

# RHAN 3

## Deddfwriaeth arall yr UE

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I88** Atod. 3 Rhn. 3 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

| *Y ddarpariaeth yn neddfwriaeth yr UE* | *Y pwnc* |
|---|---|
| **Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y Ddogfen Mynediad Iechyd Cymunedol sy'n mynd gyda llwythi o anifeiliaid a nwyddau i'w cyrchfan(40)** | |
| **Erthygl 3 (fel y'i darllenir gydag Erthyglau 4(a), 5(1)(b) a (d), 5(2)(a) ac (c) a 6(a))** | **Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth sicrhau bod DMIC yn mynd gyda'r llwyth cyn ei ryddhau ar gyfer cylchredeg rhydd yn unol ag Erthygl 57(2)(b) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.** |
| **[F234 Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion pan ganiateir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol wrth bwyntiau rheoli a phan ganiateir cynnal gwiriadau dogfennol bellter oddi wrth safleoedd rheoli ar y ffin, ac o dan ba amodau y caniateir gwneud hynny** | |
| Erthygl 2(1)(d), (e), (f), (g)(i) ac (h) (fel y'u darllenir gydag Erthygl 2(2) a (3)), Erthygl 5(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 5(2), Erthygl 6(1) a (4) ac Erthygl 8(2)) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth gydymffurfio ag amodau penodol pan fo gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar y llwyth i'w cynnal wrth bwynt rheoli ac eithrio safle rheoli ar y ffin.**]** |
| **Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2124 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau sy'n cael eu cludo, eu trawslwytho a'u cludo ymlaen drwy'r Undeb(41)** | |
| Erthygl 5(a) a (b) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol sydd wedi cael awdurdodiad i gludo'r llwyth ymlaen i nodi manylion penodol yn y DMIC a chyflwyno'r DMIC. |
| Erthygl 6 | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol sydd wedi cael awdurdodiad i'w gludo ymlaen gydymffurfio â'r amodau penodedig ynglŷn â'i gludo a'i storio. |
| Erthygl 16(1) a (3) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol a drawslwythir roi'r wybodaeth benodedig i awdurdodau cymwys. |
| Erthygl 22(4) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol sy'n cael ei gludo drwy **[F235** Brydain Fawr**]** gymryd mesurau penodol ynglŷn â chludo'r llwyth. |

**(40) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 6.**
**(41) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 73.**

**Diwygiadau Testunol**

**F234** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 3 wedi eu mewnosod (C.) (13.11.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1134), rhlau. 1, **2(6)**

**F235** Geiriau yn Atod. 3 Rhn. 3 tabl wedi eu hamnewid (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **21(5)**

## [F236 ATODLEN 3A

Rheoliad 38

Troseddau: troseddau perthnasol yn Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023

**Diwygiadau Testunol**

**F236** Atod. 3A wedi ei fewnosod (1.10.2023) gan The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (O.S. 2023/1056), rhlau. 1(2), **6(9)**

| *Y ddarpariaeth yn Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Rheoliad 9(3) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr awdurdodedig ynglŷn a dyroddi label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon. |
| Rheoliad 11(1) a (2) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr awdurdodedig:<br><br>(a) nodi a monitro'r pwyntiau yn eu proses gynhyrchu a'r pwyntiau sy'n ymwneud â symud y nwyddau perthnasol sy'n allweddol o ran cydymffurfio â rheoliad 12 a rheoliad 13 yn y rheoliadau hynny, pan fônt yn bwriadu dyroddi label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon; a<br><br>(b) cadw cofnodion ynghylch nodi a monitro'r pwyntiau hynny am o leiaf dair blynedd. |
| Rheoliad 11(3) | Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr awdurdodedig sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'w personél sy'n ymwneud ag archwiliadau. |
| Rheoliad 12 | Yn gwahardd dyroddi label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon oni bai bod amodau penodol wedi eu cyflawni, ond dim ond pan ddyroddir y label gan weithredwr awdurdodedig y mae torri rheoliad 12 yn drosedd. |
| Rheoliad 14(1) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr awdurdodedig mewn perthynas â gosod label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon. |

| *Y ddarpariaeth yn Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Rheoliad 14(2) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr proffesiynol mewn perthynas â gosod label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon. |
| Rheoliad 18(1) i 18(4) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr awdurdodedig a gweithredwyr proffesiynol mewn perthynas â chadw cofnodion. |
| Rheoliad 18(5) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr proffesiynol i gyfleu gwybodaeth i'r awdurdod cymwys, ar gais. |
| Rheoliad 19(4) | Yn gosod amodau mewn perthynas â dyroddi label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon amnewid, ond dim ond pan ddyroddir y label gan weithredwr awdurdodedig y mae torri rheoliad 19(4) yn drosedd. |
| Rheoliad 19(6) a (7) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr awdurdodedig mewn perthynas â chadw label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon a amnewidiwyd neu ei gynnwys. |
| Rheoliad 20(2), (3), (5) a (7) | Yn gosod gofynion ar weithredwyr proffesiynol mewn perthynas ag annilysu a thynnu label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon. |
| Rheoliad 21 | Yn gwahardd anfon llwythi â label iechyd planhigion Gogledd Iwerddon i Ogledd Iwerddon gan bersonau heblaw gweithredwyr awdurdodedig a gweithredwyr cofrestredig, a chan weithredwyr awdurdodedig a gweithredwyr cofrestredig oni bai bod amodau penodol wedi eu cyflawni.**]** |

## [F237]ATODLEN 4 . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F237** Atod. 4 wedi ei hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1628), rhlau. 1(2)(b), **22**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

# [F238 ATODLEN 4A

Rheoliad 48A

## Sancsiynau sifil

**Diwygiadau Testunol**

**F238** Atod. 4A wedi ei fewnosod (15.12.2020) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1303), rhl. 1, **Atod.**

# RHAN 1

## Y pŵer i osod sancsiynau sifil

### Hysbysiad cydymffurfio

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod priodol wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod person wedi cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr awdurdod priodol drwy hysbysiad ("hysbysiad cydymffurfio") osod ar y person hwnnw ofyniad i gymryd unrhyw gamau a bennir gan yr awdurdod priodol, o fewn unrhyw gyfnod a bennir ganddo, i sicrhau na fydd y drosedd yn parhau nac yn ailddigwydd.

(3) Ni chaniateir gosod hysbysiad cydymffurfio ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred.

### Hysbysiad adfer

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod priodol wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod person wedi cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr awdurdod priodol drwy hysbysiad ("hysbysiad adfer") osod ar y person hwnnw ofyniad i gymryd unrhyw gamau a bennir gan yr awdurdod priodol, o fewn unrhyw gyfnod a bennir ganddo, i sicrhau bod y sefyllfa, i'r graddau y bo'n bosibl, yn cael ei hadfer i'r hyn a fyddai wedi bod pe na bai'r drosedd wedi ei chyflawni.

(3) Ni chaniateir gosod hysbysiad adfer ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred.

### Gosod cosb ariannol benodedig

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod priodol wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod person wedi cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr awdurdod priodol drwy hysbysiad osod ar y person hwnnw ofyniad i dalu cosb ariannol i'r awdurdod priodol o £250 pan fo'r person yn unigolyn a £2000 pan fo'r person yn gorff corfforedig, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ("cosb ariannol benodedig").

(3) Ni chaniateir gosod cosb ariannol benodedig ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred.

(4) Caiff yr awdurdod priodol adennill unrhyw gosb ariannol benodedig a osodir o dan y paragraff hwn fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn gan y llys.

(5) Rhaid i gosb ariannol benodedig a delir i'r awdurdod priodol o dan y paragraff hwn gael ei thalu i'r Gronfa Gyfunol.

### Gosod cosb ariannol amrywiadwy

**4.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod priodol wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod person wedi cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr awdurdod priodol drwy hysbysiad osod ar y person hwnnw ofyniad i dalu cosb ariannol i'r awdurdod priodol o unrhyw swm a benderfynir ganddo ("cosb ariannol amrywiadwy").

(3) Ni chaniateir gosod cosb ariannol amrywiadwy ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred.

(4) Ni chaniateir i swm cosb ariannol amrywiadwy fod yn fwy na £250,000.

(5) Cyn cyflwyno hysbysiad mewn perthynas â chosb ariannol amrywiadwy, caiff yr awdurdod priodol ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'r hysbysiad hwnnw i'w gyflwyno iddo ddarparu'r wybodaeth honno sy'n rhesymol i bennu swm unrhyw fudd ariannol sy'n deillio o ganlyniad i'r drosedd.

(6) Caiff yr awdurdod priodol adennill unrhyw gosb ariannol amrywiadwy a osodir o dan y paragraff hwn fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn gan y llys.

(7) Rhaid i gosb ariannol amrywiadwy a delir i'r awdurdod priodol o dan y paragraff hwn gael ei thalu i'r Gronfa Gyfunol.

### Hysbysiad o fwriad

**5.**—(1) Os yw'r awdurdod priodol yn bwriadu cyflwyno i berson hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad yn gosod cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy o dan y Rhan hon, rhaid iddo gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys—

(a) y seiliau dros gyflwyno'r hysbysiad arfaethedig;

(b) gofynion yr hysbysiad arfaethedig ac, yn achos cosb, y swm sydd i'w dalu a sut y gellir talu;

(c) yn achos cosb ariannol benodedig—

(i) datganiad y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd am y gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, a

(ii) gwybodaeth am effaith rhyddhau'r gosb;

(d) gwybodaeth o ran—

(i) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o fwriad, a

(ii) o dan ba amgylchiadau na chaiff yr awdurdod priodol gyflwyno'r hysbysiad arfaethedig.

### Cyfuniad o gosbau

**6.**—(1) Ni chaiff yr awdurdod priodol gyflwyno hysbysiad o fwriad sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig os, mewn perthynas â'r un drosedd—

(a) cyflwynwyd hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad stop i'r person hwnnw (gweler paragraffau 1, 2 a 17),

(b) gosodwyd cosb ariannol amrywiadwy ar y person hwnnw (gweler paragraff 4), neu

(c) derbyniwyd ymgymeriad trydydd parti neu ymgymeriad gorfodi oddi wrth y person hwnnw (gweler paragraffau 9 a 23).

(2) Ni chaiff yr awdurdod priodol gyflwyno hysbysiad o fwriad sy'n ymwneud â hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu gosb ariannol amrywiadwy, na chyflwyno hysbysiad stop os, mewn perthynas â'r un drosedd—

(a) gosodwyd cosb ariannol benodedig ar y person hwnnw, neu

(b) rhyddhawyd y person hwnnw rhag atebolrwydd am gosb ariannol benodedig yn dilyn cyflwyno hysbysiad o fwriad i osod y gosb honno.

### Rhyddhau rhag atebolrwydd – cosbau ariannol penodedig

**7.** Caiff cosb ariannol benodedig ei rhyddhau os yw person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo yn talu 50% o swm y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

### Gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau

**8.** Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo, o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod priodol mewn perthynas â'r bwriad o gyflwyno hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad yn gosod cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy.

### Ymgymeriadau trydydd parti

**9.**—(1) Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo mewn perthynas â hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu gosb ariannol amrywiadwy gynnig ymgymeriad o ran camau sydd i'w cymryd gan y person hwnnw (gan gynnwys talu swm o arian) er budd unrhyw drydydd parti yr effeithir arno gan y drosedd ("ymgymeriad trydydd parti").

(2) Caiff yr awdurdod priodol dderbyn neu wrthod ymgymeriad trydydd parti.

(3) Rhaid i'r awdurdod priodol ystyried unrhyw ymgymeriad trydydd parti y mae'n ei dderbyn wrth benderfynu pa un ai i gyflwyno hysbysiad terfynol ai peidio, ac, os yw'n cyflwyno hysbysiad yn gosod cosb ariannol amrywiadwy, wrth benderfynu swm y gosb.

### Hysbysiad terfynol

**10.**—(1) Ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu p'un ai i osod y gofynion a ddisgrifir yn yr hysbysiad o fwriad, gyda neu heb addasiadau.

(2) Pan fo'r awdurdod priodol yn penderfynu gosod gofyniad, rhaid i'r hysbysiad sy'n ei osod (yr "hysbysiad terfynol") gydymffurfio â pharagraff 11 (ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio neu hysbysiadau adfer) neu 12 (ar gyfer cosbau ariannol penodedig neu amrywiadwy).

(3) Ni chaiff yr awdurdod priodol osod hysbysiad terfynol ar berson pan fo'r awdurdod priodol wedi ei fodloni na fyddai'r person hwnnw, oherwydd unrhyw amddiffyniad, hawlen neu drwydded, yn agored i gael ei euogfarnu o'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

(4) Pan fo'r awdurdod priodol yn cyflwyno hysbysiad terfynol sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd, ni chaiff yr awdurdod priodol mewn perthynas â'r drosedd honno gyflwyno—

(a) hysbysiad cydymffurfio,

(b) hysbysiad adfer,

(c) hysbysiad yn gosod cosb ariannol amrywiadwy, neu

(d) hysbysiad stop.

(5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sydd wedi ei ryddhau rhag cosb ariannol benodedig yn unol â pharagraff 7.

**Cynnwys hysbysiad terfynol: hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau adfer**

**11.** Rhaid i hysbysiad terfynol sy'n ymwneud â hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros gyflwyno'r hysbysiad,

(b) pa gamau cydymffurfio neu adfer sy'n ofynnol ac o fewn pa gyfnod y mae rhaid eu cwblhau,

(c) hawliau i apelio, a

(d) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

**Cynnwys hysbysiad terfynol: cosbau ariannol penodedig a chosbau ariannol amrywiadwy**

**12.** Rhaid i hysbysiad terfynol sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gosb,

(b) y swm sydd i'w dalu,

(c) sut y gellir talu,

(d) o fewn pa gyfnod y mae rhaid talu (y "cyfnod talu"), ni chaiff y cyfnod hwnnw fod yn llai na 56 o ddiwrnodau, gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad,

(e) yn achos cosb ariannol benodedig, manylion y disgownt am dalu'n gynnar (gweler paragraff 13) a'r cosbau am dalu'n hwyr (gweler paragraff 15(2) a (3)),

(f) hawliau i apelio, ac

(g) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

**Cosb ariannol benodedig: disgownt am dalu'n gynnar**

**13.** Os yw person y cyflwynwyd hysbysiad o fwriad iddo mewn perthynas â chosb ariannol benodedig arfaethedig yn gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ynglŷn â'r hysbysiad hwnnw o fewn y terfyn amser a bennir ym mharagraff 8, caiff y person hwnnw ryddhau'r hysbysiad terfynol drwy dalu 50% o'r gosb derfynol o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad terfynol.

**Apelau yn erbyn hysbysiad terfynol**

**14.**—(1) Caiff y person y cyflwynwyd hysbysiad terfynol iddo apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, bod swm y gosb yn afresymol;

(d) yn achos gofyniad nad yw'n ofyniad ariannol, bod natur y gofyniad yn afresymol;

(e) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall;

(f) bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

**Cosb ariannol benodedig: peidio â thalu o fewn y cyfnod talu a nodir**

**15.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i hysbysiad terfynol sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig.

(2) Os na thelir y gosb derfynol o fewn y cyfnod talu a nodir, cynyddir y swm sy'n daladwy gan 50%.

(3) Yn achos apêl sy'n aflwyddiannus, mae'r gosb yn daladwy o fewn 28 o ddiwrnodau o benderfynu'r apêl, ac os nad yw wedi ei dalu o fewn 28 o ddiwrnodau, cynyddir swm y gosb gan 50%.

**Achosion troseddol**

**16.**—(1) Os—

(a) cyflwynir hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer i unrhyw berson,

(b) derbynnir ymgymeriad trydydd parti gan unrhyw berson,

(c) cyflwynir hysbysiad yn gosod cosb ariannol amrywiadwy i unrhyw berson, neu

(d) cyflwynir cosb ariannol benodedig i unrhyw berson,

ni chaniateir ar unrhyw adeg euogfarnu'r person hwnnw o drosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â'r weithred neu'r anweithred sy'n arwain at yr hysbysiad cydymffurfio, yr hysbysiad adfer, yr ymgymeriad trydydd parti, y gosb ariannol amrywiadwy neu'r gosb ariannol benodedig ac eithrio mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) (ac nad yw hefyd yn dod o fewn paragraff (c)) pan fo'r person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu ymgymeriad trydydd parti (yn ôl y digwydd).

(2) Caniateir cychwyn achos troseddol am droseddau y mae hysbysiad neu ymgymeriad trydydd parti yn is-baragraff (1) yn ymwneud â hwy ar unrhyw adeg hyd at 6 mis o'r dyddiad pan fydd yr awdurdod priodol yn hysbysu'r person y mae'r achos i'w gymryd yn ei erbyn fod y person hwnnw wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad neu'r ymgymeriad hwnnw.

# RHAN 2

## Hysbysiadau stop

**Hysbysiadau stop**

**17.**—(1) Caiff yr awdurdod priodol gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad stop") i unrhyw berson yn gwahardd y person hwnnw rhag cynnal gweithgaredd a bennir yn yr hysbysiad hyd nes y bydd y person wedi cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Ni chaniateir ond cyflwyno hysbysiad stop—

(a) pan fo'r person yn cynnal y gweithgaredd neu pan fo'r awdurdod priodol yn credu'n rhesymol bod y person yn debygol o gynnal y gweithgaredd,

(b) pan fo'r awdurdod priodol yn credu'n rhesymol fod y gweithgaredd yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwed economaidd neu amgylcheddol, neu effeithiau andwyol ar iechyd planhigion, ac

(c) pan fo'r awdurdod priodol yn credu'n rhesymol bod y gweithgaredd sy'n cael ei gynnal, neu sy'n debygol o gael ei gynnal, gan y person hwnnw yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i'r camau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) fod yn gamau i ddileu'r risg y cyflawnir y drosedd.

**Cynnwys hysbysiad stop**

**18.** Rhaid i hysbysiad stop gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros gyflwyno'r hysbysiad stop,

(b) y gweithgaredd a waherddir,

(c) y camau y mae rhaid i'r person eu cymryd i gydymffurfio â'r hysbysiad stop ac o fewn pa gyfnod y mae rhaid iddynt gael eu cwblhau,

(d) hawliau i apelio, ac

(e) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

**Apelau**

**19.**—(1) Caiff y person y cyflwynwyd hysbysiad stop iddo apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gyflwyno.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol;

(d) bod unrhyw gam a bennir yn yr hysbysiad yn afresymol;

(e) nad yw'r person wedi cyflawni trosedd ac na fyddai wedi ei chyflawni pe na bai'r hysbysiad wedi ei gyflwyno;

(f) na fyddai'r person hwnnw, oherwydd unrhyw amddiffyniad, hawlen neu drwydded wedi bod yn agored i gael ei euogfarnu o'r drosedd pe na bai'r hysbysiad stop wedi ei gyflwyno;

(g) bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

**Tystysgrifau cwblhau**

**20.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol ddyroddi tystysgrif ("tystysgrif gwblhau") os, ar ôl cyflwyno hysbysiad stop, yw'r awdurdod priodol wedi ei fodloni bod y person y'i cyflwynwyd iddo wedi cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Mae hysbysiad stop yn peidio â chael effaith pan ddyroddir tystysgrif gwblhau.

(3) Caiff yr awdurdod priodol ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad stop iddo ddarparu gwybodaeth sy'n ddigonol i benderfynu y cymerwyd y camau a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad stop iddo ar unrhyw adeg wneud cais am dystysgrif gwblhau.

(5) Rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu pa un ai i ddyroddi tystysgrif gwblhau, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r ceisydd (gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio), o fewn 14 o ddiwrnodau o gael y cais.

(6) Caiff y ceisydd apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dyroddi tystysgrif gwblhau ar y seiliau fod y penderfyniad—

(a) yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) yn anghywir mewn cyfraith;

(c) yn annheg neu'n afresymol;

(d) yn anghywir am unrhyw reswm arall.

**Digolledіad**

**21.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol ddigolledu person am golled a ddioddefodd o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad stop neu wrthod tystysgrif gwblhau os yw'r person hwnnw wedi dioddef colled o ganlyniad i'r hysbysiad neu'r gwrthodiad ac—

(a) bod yr hysbysiad stop wedi ei dynnu'n ôl neu wedi ei ddiwygio wedi hynny gan yr awdurdod priodol am fod y penderfyniad i'w gyflwyno yn afresymol neu am fod unrhyw gam a bennwyd yn yr hysbysiad yn afresymol,

(b) bod yr awdurdod priodol yn torri ei ymrwymiadau statudol,

(c) bod y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn yr hysbysiad stop a bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dyfarnu bod cyflwyno'r hysbysiad yn afresymol, neu

(d) bod y person yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn y penderfyniad i wrthod dyroddi tystysgrif gwblhau a bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dyfarnu bod y gwrthodiad hwnnw yn afresymol.

(2) Caiff person apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dyfarnu digolledіad neu apelio yn erbyn swm y digolledіad ar y seiliau—

(a) bod penderfyniad yr awdurdod priodol yn afresymol,

(b) bod y swm a gynigiwyd yn seiliedig ar ffeithiau anghywir, neu

(c) bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

**Troseddau**

**22.** Os nad yw person y cyflwynir hysbysiad stop iddo yn cydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, mae'r person yn euog o drosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

## RHAN 3

## Ymgymeriadau gorfodi

**Ymgymeriadau gorfodi**

**23.** Pan fo gan yr awdurdod priodol seiliau rhesymol i amau bod person wedi cyflawni trosedd o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn, caiff yr awdurdod priodol dderbyn ymgymeriad ysgrifenedig ("ymgymeriad gorfodi") a roddir gan y person hwnnw i gymryd unrhyw gamau a bennir yn yr ymgymeriad o fewn unrhyw gyfnod a bennir.

**Cynnwys ymgymeriad gorfodi**

**24.**—(1) Rhaid i ymgymeriad gorfodi bennu—

(a) camau i'w cymryd gan y person i sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ailddigwydd,

(a) camau i sicrhau bod y sefyllfa, i'r graddau y bo'n bosibl, yn cael ei hadfer i'r hyn a fyddai wedi bod pe na bai'r drosedd wedi ei chyflawni, neu

(c) camau (gan gynnwys talu swm o arian) i'w cymryd gan y person er budd unrhyw berson yr effeithir arno gan y drosedd.

(2) Rhaid iddo bennu o fewn pa gyfnod y mae rhaid cwblhau'r camau.

(3) Rhaid iddo gynnwys—

(a) datganiad y gwneir yr ymgymeriad yn unol â'r Atodlen hon,

(b) amodau'r ymgymeriad, ac

(c) gwybodaeth o ran sut a phryd yr ystyrir bod y person wedi cyflawni'r ymgymeriad.

(4) Caniateir amrywio'r ymgymeriad gorfodi, neu estyn y cyfnod y mae rhaid cwblhau'r camau ynddo, os yw'r awdurdod priodol a'r person a roddodd yr ymgymeriad yn cytuno i hynny yn ysgrifenedig.

### Derbyn ymgymeriad gorfodi

**25.**—(1) Os yw'r awdurdod priodol wedi derbyn ymgymeriad gorfodi gan berson—

(a) ni chaniateir ar unrhyw adeg euogfarnu'r person hwnnw o'r drosedd mewn cysylltiad â'r weithred neu'r anweithred y mae'r ymgymeriad yn ymwneud â hi, a

(b) ni chaiff yr awdurdod priodol gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer na hysbysiad stop, na gosod cosb ariannol benodedig na chosb ariannol amrywiadwy ar y person hwnnw, mewn cysylltiad â'r weithred neu'r anweithred honno.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw person a roddodd yr ymgymeriad wedi methu â chydymffurfio ag ef neu ag unrhyw ran ohono.

### Cyflawni ymgymeriad gorfodi

**26.**—(1) Os yw'r awdurdod priodol wedi ei fodloni y cydymffurfiwyd ag ymgymeriad gorfodi, rhaid iddo ddyroddi tystysgrif ("tystysgrif gyflawni") i'r perwyl hwnnw.

(2) Mae ymgymeriad gorfodi yn peidio â chael effaith pan ddyroddir tystysgrif gyflawni.

(3) Caiff yr awdurdod priodol ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd wedi rhoi'r ymgymeriad ddarparu gwybodaeth sy'n ddigonol i benderfynu y cydymffurfiwyd â'r ymgymeriad.

(4) Caiff y person a roddodd yr ymgymeriad wneud cais ar unrhyw adeg am dystysgrif gyflawni.

(5) Rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu pa un ai i ddyroddi tystysgrif gyflawni, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r ceisydd (gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio), o fewn 14 o ddiwrnodau o gael cais o'r fath.

(6) Caiff y ceisydd apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dyroddi tystysgrif gyflawni ar y seiliau fod y penderfyniad—

(a) yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) yn anghywir mewn cyfraith;

(c) yn annheg neu'n afresymol;

(d) yn anghywir am unrhyw reswm arall.

### Gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol

**27.**—(1) Mae person sydd wedi rhoi gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol mewn perthynas ag ymgymeriad gorfodi i'w ystyried fel pe na bai wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad hwnnw.

(2) Caiff yr awdurdod priodol drwy hysbysiad ysgrifenedig ddirymu tystysgrif gyflawni a ddyroddwyd o dan baragraff 26 os y'i dyroddwyd ar sail gwybodaeth anghywir, gamarweiniol neu anghyflawn.

### Peidio â chydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi

**28.**—(1) Os nad yw person yn cydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi, caiff yr awdurdod priodol, yn achos trosedd a gyflawnir o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn—

(a) cyflwyno hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad stop neu gosb am fethu â chydymffurfio, neu

(b) dwyn achos troseddol.

(2) Os yw person wedi cydymffurfio yn rhannol ond nid yn llwyr ag ymgymeriad, rhaid ystyried y cydymffurfio rhannol hwnnw wrth osod unrhyw sancsiwn troseddol neu sancsiwn arall ar y person.

(3) Caniateir cychwyn achos troseddol am droseddau y mae ymgymeriad gorfodi yn ymwneud â hwy ar unrhyw adeg hyd at 6 mis o'r dyddiad y mae'r awdurdod priodol yn hysbysu'r person fod y person hwnnw wedi methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad.

# RHAN 4

## Cosbau am beidio â chydymffurfio

### Cosbau am beidio â chydymffurfio

**29.**—(1) Caiff yr awdurdod priodol gyflwyno hysbysiad i berson yn gosod cosb ariannol ("cosb am beidio â chydymffurfio") os yw'r person hwnnw yn methu â chydymffurfio ag—

(a) hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu ymgymeriad trydydd parti, ni waeth a osodwyd cosb ariannol amrywiadwy hefyd ai peidio, neu

(b) ymgymeriad gorfodi.

(2) Rhaid i'r awdurdod priodol bennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio, a rhaid i'r swm hwnnw fod yn ganran o gostau cyflawni gweddill gofynion yr hysbysiad cydymffurfio, yr hysbysiad adfer, yr ymgymeriad trydydd parti neu'r ymgymeriad gorfodi.

(3) Rhaid i'r awdurdod priodol bennu'r ganran gan roi sylw i holl amgylchiadau'r achos, a chaiff y ganran honno, os yw'n briodol, fod yn 100%.

(4) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gosb am beidio â chydymffurfio,

(b) y swm sydd i'w dalu,

(c) sut y mae rhaid talu,

(d) o fewn pa gyfnod y mae rhaid talu, ni chaiff y cyfnod hwnnw fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad,

(e) hawliau i apelio,

(f) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad, ac

(g) o dan ba amgylchiadau y caiff yr awdurdod priodol leihau swm y gosb.

(5) Os cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio, yr hysbysiad adfer, yr ymgymeriad trydydd parti neu'r ymgymeriad gorfodi cyn y terfyn amser a bennir ar gyfer talu'r gosb am beidio â chydymffurfio, nid yw'r gosb yn daladwy.

(6) Ar ôl i'r cyfnod talu penodedig ddod i ben, caiff yr awdurdod priodol adennill y gosb am beidio â chydymffurfio fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn gan y llys.

(7) Rhaid i gosb am beidio â chydymffurfio a delir i'r awdurdod priodol o dan y paragraff hwn gael ei thalu i'r Gronfa Gyfunol.

### Apelau

**30.**—(1) Caiff y person y cyflwynwyd iddo yr hysbysiad sy'n gosod y gosb am beidio â chydymffurfio apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm;

(d) bod swm y gosb yn afresymol;

(e) bod y penderfyniad yn anghywir am reswm arall.

# RHAN 5

## Tynnu hysbysiadau yn ôl a diwygio hysbysiadau

### Tynnu hysbysiad yn ôl neu ddiwygio hysbysiad

**31.** Caiff yr awdurdod priodol ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig—

(a) tynnu yn ôl hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad stop, neu ddiwygio'r camau a bennir yn yr hysbysiad hwnnw, er mwyn lleihau faint o waith sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad,

(b) tynnu yn ôl hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol benodedig, neu

(c) tynnu yn ôl hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol amrywiadwy neu gosb am beidio â chydymffurfio, neu leihau swm y gosb a bennir yn yr hysbysiad.

# RHAN 6

## Adennill cost

### Adennill costau gorfodaeth

**32.**—(1) Caiff yr awdurdod priodol gyflwyno hysbysiad adennill cost os yw unrhyw un neu ragor o'r amodau yn is-baragraff (3) wedi eu bodloni.

(2) Mae hysbysiad adennill cost yn hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu costau'r awdurdod priodol.

(3) Yr amodau yw bod yr awdurdod priodol wedi—

(a) cyflwyno i'r person hysbysiad cydymffurfio o dan baragraff 1,

(b) cyflwyno i'r person hysbysiad adfer o dan baragraff 2,

(c) cyflwyno i'r person gosb ariannol amrywiadwy o dan baragraff 4, neu

(d) cyflwyno i'r person hysbysiad stop o dan baragraff 17.

(4) Yn is-baragraff (2), mae cyfeiriad at gostau yn gyfeiriad at unrhyw gostau sy'n ymwneud â llunio a rhoi hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad stop, yn ôl y digwydd, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at gostau unrhyw ymchwiliad cysylltiedig neu gyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(5) Rhaid i'r hysbysiad adennill cost gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) swm y costau y mae rhaid eu talu,

(b) o fewn pa gyfnod y mae rhaid talu, ni chaiff y cyfnod hwnnw fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad,

(c) sut y mae rhaid talu,

(d) canlyniadau methu â thalu o fewn y cyfnod talu a bennir, ac

(e) hawliau i apelio.

(6) Ar ôl i'r cyfnod talu penodedig ddod i ben, caiff yr awdurdod priodol adennill y costau y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad adennill cost fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn gan y llys.

(7) Caiff y person y cyflwynwyd yr hysbysiad adennill cost iddo apelio yn ei erbyn.

(8) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm;

(d) bod swm y gosb yn afresymol;

(e) bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

# RHAN 7

## Apelau

### Apelau

**33.**—(1) Rhaid i unrhyw apêl o dan yr Atodlen hon gael ei gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(2) Mewn unrhyw apêl rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu ar y safon profi.

(3) Mae apêl yn erbyn hysbysiad a gyflwynir o dan yr Atodlen hon (ac eithrio hysbysiad stop) yn atal dros dro effaith yr hysbysiad yr apelir yn ei erbyn hyd nes y caiff yr apêl ei phenderfynu neu ei thynnu yn ôl.

(4) Caiff y Tribiwnlys, mewn perthynas â gosod gofyniad neu gyflwyno hysbysiad—

(a) tynnu yn ôl y gofyniad neu'r hysbysiad;

(b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(c) amrywio'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(d) cymryd unrhyw gamau y gallai'r awdurdod priodol eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anweithred sy'n arwain at y gofyniad neu'r hysbysiad;

(e) anfon y penderfyniad o ran pa un ai i gadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, at yr awdurdod priodol.

# RHAN 8

## Canllawiau a chyhoeddusrwydd

### Canllawiau o ran defnyddio sancsiynau sifil

**34.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol gyhoeddi canllawiau ynghylch ei ddefnydd o sancsiynau sifil.

(2) Rhaid i'r awdurdod priodol adolygu a diweddaru canllawiau pan fo'n briodol.

(3) Rhaid i'r awdurdod priodol roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau a adolygwyd ac a ddiweddarwyd wrth arfer ei swyddogaethau.

(4) Yn achos canllawiau ynghylch hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer, cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau stop a chosbau am beidio â chydymffurfio, rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae sancsiwn sifil yn debygol o gael ei osod,

(b) o dan ba amgylchiadau nad yw'n debygol o gael ei osod,

(c) pan fo'n berthnasol, hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau,

(d) hawliau i apelio, ac

(e) yn achos canllawiau ynghylch cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio, y materion y mae'r awdurdod priodol yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm y gosb (gan gynnwys adrodd yn wirfoddol am beidio â chydymffurfio gan unrhyw berson amdano ei hun).

(5) Yn achos canllawiau ynghylch ymgymeriadau gorfodi, rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r awdurdod priodol yn debygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi, a

(b) o dan ba amgylchiadau nad yw'r awdurdod priodol yn debygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi.

**Ymgynghori ar ganllawiau**

**35.** Rhaid i'r awdurdod priodol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod priodol yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy cyn cyhoeddi—

(a) unrhyw ganllawiau, neu

(b) unrhyw ddiwygiadau neu ddiweddariadau sylweddol i ganllawiau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi.

**Cyhoeddi camau gorfodi**

**36.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol gyhoeddi yn flynyddol—

(a) yr achosion y gosodwyd sancsiynau sifil ynddynt;

(b) pan fo sancsiwn sifil yn hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu gosb ariannol amrywiadwy, yr achosion y derbyniwyd ymgymeriad trydydd parti ynddynt;

(c) yr achosion y derbyniwyd ymgymeriad gorfodi ynddynt.

(2) Yn is-baragraff (1)(a), nid yw'r cyfeiriad at achosion y gosodwyd sancsiynau sifil ynddynt yn cynnwys achosion pan osodwyd sancsiwn ond a gafodd ei wrthdroi ar apêl.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'r awdurdod priodol o'r farn y byddai cyhoeddi yn amhriodol.**]**

## ATODLEN 5

Rheoliad 49

### Diwygio is-ddeddfwriaeth ynglŷn â marchnata hadau a deunydd lluosogi planhigion a ffioedd iechyd planhigion

## RHAN 1

### Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995

**1.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**42**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "Council Directive 2000/29/EC" rhodder "the EU Plant Health Regulation";

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) In this regulation, "the EU Plant Health Regulation" means Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council on protective measures against pests of plants."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I89** Atod. 5 para. 1 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## RHAN 2

### Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999((**43**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

"the EU Plant Health Regulation" means Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council on protective measures against pests of plants;";

(b) hepgorer y diffiniad o "Directive 2000/29/EC".

(3) Yn rheoliad 6A(4), yn y diffiniad o "responsible official body", yn lle'r geiriau o "a body" hyd at y diwedd, rhodder ", in relation to Wales, the Welsh Ministers".

(4) Yn rheoliad 7, yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Registration of a supplier on the register of professional operators for the purposes of the EU Plant Health Regulation is deemed to constitute registration for the purposes of paragraph (1) above."

(5) Yn rheoliad 8(3)—

(**42**) O.S. 1995/2652, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2190 (Cy. 174); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**43**) O.S. 1999/1801; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/974, O.S. 2018/1216 (Cy. 249) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111).

(a) yn lle'r geiriau o "notifiable" hyd at "Order 2018" rhodder "plant pest of a description specified in Annex 2, 3 or 4 to Commission Implementing Regulation (EU) 2019/2072 establishing uniform conditions for the implementation of Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and the Council, as regards protective measures against pests of plants,";

(b) yn lle "article 42 of that Order (notification of the presence or suspected presence of certain plant pests)" rhodder "the EU Plant Health Regulation".

(6) Yn rheoliad 9(2), yn lle "Directive 2000/29/EC" rhodder "the EU Plant Health Regulation".

(7) Yn rheoliad 12(3), yn lle'r geiriau o "if he delivers" hyd at y diwedd rhodder ", in relation to Wales, if the supplier delivers a phytosanitary certificate for export or a phytosanitary certificate for re-export to the Welsh Ministers".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I90** Atod. 5 para. 2 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 3

## Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(**44**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn y diffiniad o "plant passport", yn lle "the Plant Health (Forestry) Order 2005" rhodder "Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council on protective measures against pests of plants".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I91** Atod. 5 para. 3 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 4

## Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**45**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)" ("*the Official Controls (Plant Health) Regulations*") yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020;".

(3) Yn rheoliad 13(9), ar ôl "y Rheoliadau hyn" mewnosoder ", Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cygnor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion".

(4) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3(d)—

(**44**) O.S. 2002/3026, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/496 (Cy. 133); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**45**) O.S. 2016/106 (Cy. 52); ceir offerynnau diwygio ond nid yw'r un yn berthnasol.

(i) yn lle "Atodlen 14 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Ran 3 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)";

(ii) yn lle "Gorchymyn hwnnw" rhodder "Rheoliadau hynny";

(b) ym mharagraff 4(1)(b), yn lle "Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Ran 4 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)";

(c) ym mharagraff 7(1)(b), yn lle "Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Ran 4 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)";

(d) ym mharagraff 9(1)(b), yn lle "Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Ran 4 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)".

(5) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 10(b), hepgorer "neu yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006".

(6) Yn Atodlen 5, ym mharagraff 3(b)—

(a) yn lle "Atodlen 14 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Ran 3 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion)";

(b) yn lle "Gorchymyn hwnnw" rhodder "Rheoliadau hynny".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I92** Atod. 5 para. 4 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 5

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(**46**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "man arolygu a gymeradwywyd" yn lle "erthygl 3 o'r Gorchymyn" rhodder "rheoliad 13(10) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "hysbysiad adfer coedwigaeth" ("*forestry remedial notice*") yw hysbysiad a gyflwynir gan arolygydd iechyd planhigion o dan reoliad 10 neu 15(1) neu (2) o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020;";

(c) yn lle'r diffiniad o "trwydded" rhodder—

"ystyr "trwydded" ("*licence*") yw—

(a) trwydded y cyfeirir ati yn rheoliad 51(1) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020 a roddwyd gan Weinidogion Cymru, neu

(b) awdurdodiad a ddisgrifir yn rheoliad 20(1)(a) neu (b)(i) neu 21(1)(a) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020 a roddwyd gan Weinidogion Cymru.";

(d) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020" ("*the Official Controls (Plant Health) Regulations 2020*") yw Rheoliadau Rheolaethau

(**46**) O.S. 2019/497 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5).

Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020;";

(e) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Rheoliad Amodau Ffytoiechydol" ("*Phytosanitary Conditions Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion;";

(f) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "arolygydd iechyd planhigion" ("*plant health inspector*") yw swyddog iechyd planhigion swyddogol a benodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020;";

(g) yn y diffiniad o "awdurdodiad pasbort planhigion", ar y diwedd mewnosoder "ac a roddir gan Weinidogion Cymru";

(h) hepgorer y diffiniad o "y Gorchymyn";

(i) hepgorer y diffiniad o "hysbysiad adfer";

(j) yn y diffiniad o "gwaith adfer", yn lle "hysbysiad adfer, neu gan arolygydd o dan erthygl 32(1) o'r Gorchymyn" rhodder "hysbysiad adfer coedwigaeth, neu gan arolygydd iechyd planhigion o dan reoliad 16(1) o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020";

(k) yn y diffiniad o "awdurdodiad DPP", ar y diwedd mewnosoder "ac a roddir gan Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 3—

(a) hepgorer paragraff (6);

(b) ar y diwedd mewnosoder—

"(6A) Rhaid i'r person y cyflwynir hysbysiad adfer coedwigaeth iddo neu y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 16(1) o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) 2020 dalu'r ffi a bennir yn Atodlen 5 ar gyfer cynnal neu fonitro gwaith adfer a gweithgareddau cysylltiedig gan arolygydd iechyd planhigion mewn cysylltiad â llwyth a reolir."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I93** Atod. 5 para. 5 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

# RHAN 6

## Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**47**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), hepgorer y diffiniad o "Cyfarwyddeb 2000/29/EC".

(3) Hepgorer rheoliad 10(6).

(**47**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/368 (Cy. 90); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.

(4) Yn rheoliad 11(7), yn lle'r geiriau o "masnachwr planhigion" hyd at "2018" rhodder "gweithredwr proffesiynol at ddibenion Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cygnor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion".

(5) Yn rheoliad 15(1)(g), yn lle paragraff (iii) rhodder—

"(iii) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodiad 2, 3 neu 4 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion."

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I94** Atod. 5 para. 6 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

## ATODLEN 6

Rheoliad 50

### Dirymu offerynnau

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I95** Atod. 6 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

| *Offeryn* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Coedwigaeth) (Prydain Fawr) 2004 | O.S. 2004/1684 |
| Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aifft (Cymru) 2004 | O.S. 2004/2245 (Cy. 209) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 | O.S. 2005/2517 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 | O.S. 2006/1701 (Cy. 163) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Marcio Deunydd Pecynnu Pren) (Coedwigaeth) 2006 | O.S. 2006/2695 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) 2006 | O.S. 2006/2696 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) 2008 | O.S. 2008/644 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) 2009 | O.S. 2009/594 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 | O.S. 2009/3020 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) 2012 | O.S. 2012/2707 |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2013 | O.S. 2013/1658 (Cy. 156) |
| Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 | O.S. 2014/1463 (Cy. 144) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2014 | O.S. 2014/1759 (Cy. 174) |

| *Offeryn* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2015 | O.S. 2015/1723 (Cy. 235) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2016 | O.S. 2016/1084 (Cy. 259) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2018 | O.S. 2018/772 (Cy. 156) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018 | O.S. 2018/1064 (Cy. 223) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019 | O.S. 2019/132 (Cy. 33) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2019 | O.S. 2019/498 (Cy. 115) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019 | O.S. 2019/1153 (Cy. 202) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019 | O.S. 2019/1167 (Cy. 204) |
| Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2019 | O.S. 2019/1280 (Cy. 224) |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi eu heffaith i'r canlynol—

(a) Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion (OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4) ("Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE"), a

(b) Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion, i'r graddau y maent yn gymwys i'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2)(g) (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1) ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol").

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gweithredu'r canlynol o ran Cymru—

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 69/464/EEC ynghylch rheoli Clefyd y Ddafaden Tatws (OJ Rhif L 323, 24.12.1969, t. 1),

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 93/85/EEC ynghylch rheoli pydredd cylch tatws (OJ Rhif L 259, 18.10.1993, t. 1),

(c) Cyfarwyddeb y Cyngor 98/57/EC ynghylch rheoli *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*. (OJ Rhif L 235, 21.8.1998, t. 1), a

(d) Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/33/EC ynghylch rheoli Llyngyr tatws (OJ Rhif L 156, 16.6.2007, t. 12).

Cyflwyno materion a wneir yn Rhan 1 ac mae'n cynnwys diffiniadau. Mae rheoliad 3(2) yn darparu i gyfeiriadau at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau i ddiogelu

rhag plâu planhigion (OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1), ac at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a restrir yn rheoliad 3(1), gael eu darllen fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

Mae rheoliad 6 (yn Rhan 2) yn dynodi Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cymwys yng Nghymru at ddibenion Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE a'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Mae Rhan 3 yn gwneud rhagor o ddarpariaeth mewn perthynas â llwythi o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd sy'n dod o dan reolaethau swyddogol wrth ddod i mewn i'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Rhan 4 yn cynnwys pwerau i alluogi arolygwyr iechyd planhigion a benodir gan Weinidogion Cymru i gymryd mesurau i atal plâu planhigion niweidiol yng Nghymru rhag ymsefydlu neu ledaenu.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 1 yn gosod mesurau dros dro ychwanegol i atal plâu planhigion niweidiol penodol rhag dod i Gymru neu ymsefydlu neu ledaenu yng Nghymru.

Mae Rhan 6 yn gwneud rhagor o ddarpariaeth mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr proffesiynol a rhoi awdurdodiadau i weithredwyr proffesiynol gan Weinidogion Cymru.

Mae Rhan 7 ac Atodlen 2 yn gosod gofynion ychwanegol mewn perthynas â rhywogaethau mochlysaidd penodol (tatws a thomatos) i roi'r Cyfarwyddebau a grybwyllir uchod ar waith.

Mae Rhan 8 yn gosod gofynion ychwanegol o ran hysbysu ynglŷn â phlanhigion a chynhyrchion planhigion penodol sydd i'w dwyn i Gymru o drydydd gwledydd, Aelod-wladwriaethau eraill neu'r Swistir.

Mae Rhan 9 yn nodi pwerau cyffredinol arolygwyr iechyd planhigion i'w galluogi i gyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, a gorfodi Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 10 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ac atodol mewn perthynas â hysbysiadau a roddir gan arolygwyr iechyd planhigion.

Mae Rhan 11 yn cynnwys troseddau am beidio â chydymffurfio â darpariaethau penodedig yn Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ac offerynnau eraill yr UE, a throseddau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 48 yn nodi'r cosbau am y troseddau hyn.

Mae Rhan 12 yn ymdrin â mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth, dirymiadau a darpariaethau trosiannol mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd planhigion.

Mae Rhan 13 yn diwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 i estyn darpariaethau penodol yn y Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi Rheoliad (EU) 2017/625 i reolaethau swyddogol ar ollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd at ddibenion cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y gangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth SY23 3UR.

**Statws**

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020.